- (b) a copy of any relevant application;
- (c) a copy of any relevant plan;
- (d) a copy of any relevant correspondence between the appellant and the regulator;
- (e) a copy of any notice (or particulars of any deemed refusal) which is the subject matter of the appeal;
- (f) a statement indicating whether the appellant wishes the appeal to be—
  - (i) in the form of a hearing; or
  - (ii) to be disposed of on the basis of written representations.

(3) An appeal to the Scottish Land Court may be made on one or more of the following grounds—

- (a) the decision or notice was based on an error of fact;
- (b) the decision or notice was wrong in law;
- (c) the decision or notice was unreasonable for any other reason (including that the amount of a penalty was unreasonable);
- (d) any other reason.

(4) In this Schedule—

“appropriate form” has the meaning given in rule 3 of the Rules of the Scottish Land Court Order 2014<sup>(a)</sup>;

“decision” includes a deemed refusal under this Order.

**2.**—(1) Subject to sub-paragraph (2), the appropriate form must be sent to the Scottish Land Court before the expiry of the period of 28 days beginning with the date of the decision.

(2) The Scottish Land Court may accept the appropriate form after the expiry of that period where satisfied that there was a good reason for the failure to bring the appeal in time.

**3.**—(1) The Scottish Land Court may determine an appeal, or any part of an appeal, on the basis of written representations and without a hearing where—

- (a) the parties agree; or
- (b) the Scottish Land Court considers it can determine the matter justly without a hearing.

(2) The Scottish Land Court must not determine the appeal without a hearing without first giving the parties notice of its intention to do so, and an opportunity to make written representations as to whether there should be a hearing.

---

(a) S.S.I. 2014/229.

4.—(1) The regulator must, within 16 days of receipt of the copy of the appropriate form, give notice of it to any person who appears to the regulator to have a particular interest in the appeal (“interested party”).

(2) A notice under sub-paragraph (1) must—

- (a) state that an appeal has been initiated;
- (b) state the name of the appellant;
- (c) describe the decision or notice to which the appeal relates;
- (d) state that, if a hearing is to be held wholly or partly in public, an interested party will be notified of the date, time and location of the hearing;
- (e) state that an interested party may request to be heard at a hearing.

(3) An interested party may request the regulator to provide the interested party with a copy of the documents set out in paragraph 1(2) only for the purposes of the appeal.

(4) Where a request is made under sub-paragraph (3), the regulator must provide the documents to the interested party as soon as reasonably practicable.

(5) An interested party may—

- (a) make representations to the Scottish Land Court in relation to the appeal;
- (b) be heard at a hearing in relation to the appeal.

(6) The representations by an interested party must be made within 16 days of the date of the notice under sub-paragraph (1).

(7) The Scottish Land Court must provide a copy of any representations to the parties.

(8) The regulator must, within 8 days of sending a notice under sub-paragraph (1), give notice to the Scottish Land Court of the persons to whom and the date on which the notice was sent.

(9) If an appeal is withdrawn, the regulator must give notice to all interested parties about the withdrawal.

## SCHEDULE 10

Article 74(2)

### Appeals to Planning Appeals Commission (Northern Ireland)

**1.**—(1) A person who wishes to appeal to the Planning Appeals Commission under article 70 against a decision of the regulator must give to the Planning Appeals Commission—

- (a) written notice of the appeal; and
- (b) a statement of the grounds of appeal.

(2) The notice of appeal must be accompanied by any fee for the appeal prescribed in regulations made under section 223(7)(b) of the Planning Act (Northern Ireland) 2011; and for that purpose section 223(7)(b) has effect as if the reference to an appeal under that Act included a reference to an appeal under this Order.

(3) The Planning Appeals Commission must as soon as reasonably practicable send a copy of the notice of appeal and the statement of grounds to the regulator.

**2.** A notice of appeal under paragraph 1 must be given before the expiry of the period of 47 days beginning with the date on which the decision of the regulator takes effect.

**3.**—(1) An appellant may withdraw an appeal by giving notice to the Planning Appeals Commission.

(2) If an appellant withdraws an appeal, the Planning Appeals Commission must give notice to the regulator of the withdrawal as soon as reasonably practicable.

**4.**—(1) The Planning Appeals Commission must determine the appeal; and section 204(1), (3) and (4) of the Planning Act (Northern Ireland) 2011 apply in relation to the determination of the appeal as they apply in relation to the determination of an appeal in accordance with that Act.

(2) The Planning Appeals Commission must—

- (a) determine the process for determining the appeal; and
- (b) when doing so, take into account any requests by either party to the appeal.

## Transitional provisions: installations

**Permits under GGETSR 2012**

1.—(1) This paragraph applies to a permit within the meaning of GGETSR 2012 that immediately before this Schedule comes into force authorises a regulated activity to be carried out at an installation.

(2) But this paragraph does not apply to a permit—

- (a) in respect of which an application under regulation 13 of GGETSR 2012 for the surrender of the permit has been made but has yet to be determined;
- (b) that is due, in accordance with provision made under GGETSR 2012, to be surrendered or revoked; or
- (c) that authorises a regulated activity to be carried out at an installation included in the ultra-small emitter list for 2021-2025.

(3) Where the installation is included in the hospital and small emitter list for 2021-2025, the regulator must—

- (a) convert the permit into a hospital or small emitter permit the provisions of which satisfy the requirements of paragraph 11 of Schedule 7 and that authorises the regulated activity to be carried out at the installation from 1st January 2021; and
- (b) give notice of the conversion to the operator of the installation.

(4) In any other case, the regulator must—

- (a) convert the permit into a greenhouse gas emissions permit the provisions of which satisfy the requirements of paragraph 4 of Schedule 6 and that authorises the regulated activity to be carried out at the installation from 1st January 2021; and
- (b) give notice of the conversion to the operator of the installation.

(5) When converting a permit under sub-paragraph (3) or (4), the regulator may make only such changes to the operator's obligations under the permit as the regulator considers necessary to convert the permit into a greenhouse gas emissions permit or, as the case may be, a hospital or small emitter permit.

(6) But sub-paragraph (5) does not prevent the regulator correcting errors.

(7) When converting a permit under sub-paragraph (4), the regulator may include under paragraph 4(2)(d) of Schedule 6 a condition to give proper effect to Article 69(4) of the Monitoring and Reporting Regulation 2018 that requires the operator to submit a report to the regulator relating to non-conformities or recommendations for improvements stated in a verification report under the Verification Regulation 2018 in respect of the scheme year (within the meaning of GGETSR 2012) beginning on 1st January 2020.

(8) The conversion of a permit under sub-paragraph (3) or (4) does not affect the operator's obligations under the permit in respect of specified emissions before 1st January 2021 (and GGETSR 2012 continue to apply in relation to such obligations).

(9) A permit that is converted under this paragraph continues in force as if issued under this Order until cancelled, surrendered or revoked under this Order.

**Applications for permits, etc. under GGETSR 2012**

2.—(1) An application under regulation 10 of GGETSR 2012 for a permit for an installation that is made to the regulator before 1st January 2021, but not determined before that date—

- (a) where the installation is included in the hospital and small emitter list for 2021-2025, must be treated as an application for a hospital or small emitter permit under paragraph 7 of Schedule 7 to this Order;
- (b) in any other case (except where the installation is included in the ultra-small emitter list for 2021-2025), must be treated as an application for a greenhouse gas emissions permit under paragraph 1 of Schedule 6 to this Order.

(2) An application under regulation 11 of GGETSR 2012 to vary a permit that is made to the regulator before 1st January 2021, but not determined before that date, must be treated as an application to vary the permit under paragraph 6 of Schedule 6 to this Order.

(3) An application under regulation 12 of GGETSR 2012 for the transfer of a permit that is made to the regulator before 1st January 2021, but not determined before that date, must be treated as an application to transfer the permit under paragraph 7 of Schedule 6 to this Order.

**Schedule does not apply to permits for relevant Northern Ireland electricity generators, etc.**

3.—(1) This Schedule does not apply to—

- (a) relevant Northern Ireland permits; or
- (b) applications for, or in relation to, relevant Northern Ireland permits.

(2) In this paragraph, “relevant Northern Ireland permit” means a permit within the meaning of GGETSR 2012 that authorises a regulated activity to be carried out at a relevant Northern Ireland electricity generator.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

This Order establishes a new emissions trading scheme covering greenhouse gas emissions from power and heat generation, energy intensive industries and aviation. The scheme will be called the UK Emissions Trading Scheme or UK ETS (see article 16). It is the successor, in the UK, to the EU Emissions Trading System (established by Directive 2003/87/EC).

Part 1 contains definitions that are used throughout the Order, including key concepts such as the “trading period” (1 January 2021 to 31 December 2030 – see article 4) the activities covered by the scheme (“regulated activity”, defined in article 4 and Schedule 2, and “aviation activity”, defined in article 4 and Schedule 1), the different greenhouse gases covered by the scheme (see article 4 and Schedule 2 for installations and the definition of “aviation emissions” for aircraft), the participants in the scheme (“operators” of installations, defined in article 5, and “aircraft operators”, defined in articles 6 to 8) and who the scheme’s “regulator” is for different purposes (articles 9 to 13). Article 15 introduces Schedule 3 which contains provision about applications, notices, etc.

Part 2, after introducing the scheme and establishing a review requirement (articles 16 and 17), sets out other elements of the scheme relevant to both operators of installations and aircraft operators. The basic proposition of the scheme is that, for each year, participants have to surrender “allowances” equivalent to their greenhouse gas emissions within the scope of the scheme. So article 18 sets out what an allowance is and articles 19 to 22 set out rules limiting the number of allowances that can be issued. Article 23 permits allowances to be traded except where this is prohibited by other legislation. The rules on how allowances are to be issued do not, however, appear in this Order and will be the subject of separate legislation on free allocation of allowances and auctioning. Articles 24 and 25 introduce Schedules 4 and 5 which adapt existing EU legislation on monitoring and reporting of greenhouse gas emissions, and how reports of emissions are verified, for the purposes of the UK ETS.

Parts 3 and 4 contain provisions specific (respectively) to operators of installations and aircraft operators. The scheme has slightly different rules for these different types of participants. For

operators of installations there is a general rule that they need a permit (article 26(1)) and need to surrender allowances to account for emissions (article 27). From the general rule, there are different levels of derogation for hospitals and small emitters and for ultra-small emitters. Detailed provision in respect of each category of operator is set out in Schedules 6 to 8, although for operators subject to the general rule, and for hospitals and small emitters, many of the rules take the form of specified contents of permits. For aircraft operators, there is no need for a permit as such. However, aircraft operators must apply for emissions monitoring plans which fulfil some of the same functions (article 28). For aircraft operators, provisions about reporting emissions and surrendering allowances are in articles 33 and 34.

Part 5 contains provision allowing the regulators to charge for the performance of their regulatory functions under the Order.

Part 6 contains provision allowing the regulators to monitor compliance with the Order, including through inspections of premises and exercising powers of entry.

Part 7 contains provision about enforcement, including a range of civil penalties (articles 50 to 68) that may be imposed in respect of specified breaches of the Order or of permit conditions. General provision about civil penalties is in articles 47 and 48. In addition, article 44 makes provision about enforcement notices and article 45 about circumstances where a regulator can determine the greenhouse gas emissions of a participant in the UK ETS.

Part 8, which is supplemented by Schedules 9 and 10, contains provision about appeals from decisions made by the regulator about applications and appeals in respect of a number of notices (specified in article 70(2)) that may be given under the Order.

Part 9 brings together provisions without a natural home elsewhere in the Order, covering information notices (article 75), Crown application (article 76) and transitional provisions (article 77 with Schedule 11).

A regulatory impact assessment of the effect that the UK ETS will have on the costs of business, the voluntary sector and the public sector is available from the Industrial Energy Directorate, Department for Business, Energy and Industrial Strategy, 1 Victoria Street, London SW1H 0ET and is available alongside the instrument on [www.legislation.gov.uk](http://www.legislation.gov.uk).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer** Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020.

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020. Rydw i'n fodlon bod y buddiannau'n cyfiawnhau'r costau tebygol.

Lesley Griffiths  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
15 Gorffennaf 2020

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr er mwyn annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau allyriadau mewn modd cost-effeithiol. Bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn dechrau ar 1 Ionawr 2021 er mwyn sicrhau bod polisi prisio carbon ar waith pan fydd y DU yn rhoi'r gorau i fod yn rhan o System Masnachu Allyriadau'r UE.

Mae'r Gorchymyn yn rhoi manylion ynghylch cwmpas cyfranogwyr, yr uchelgais amgylcheddol a nodir gan drywydd lwfansau a'r cap sydd arnynt, gofynion o ran monitro, adrodd a dilysu, codi tâl, cydymffurfio a gorfodi, cosbau ac apeliadau, ac adolygiadau o gynlluniau.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae Rhan 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn nodi bod rhaid i gynllun masnachu allyriadau sy'n berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – fel yn yr achos hwn – gael ei sefydlu drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Rhagnodir gweithdrefn briodol ar gyfer Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn adran 48 o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Oherwydd bod y Gorchymyn yn sefydlu cynllun masnachu, bydd y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei defnyddio.

Gan y bydd Senedd y DU yn craffu ar y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ni ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei greu na'i osod yn ddwyieithog.

Mae angen deddfwriaeth ychwanegol oherwydd nid yw'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd<sup>1</sup> yn caniatáu i lwfansau allyriadau gael eu dyrannu mewn cynllun masnachu yn gyfnewid am daliad (h.y. arwerthu). Mae Llywodraeth y DU wedi gosod Bil Cyllid, ac mae cymal 93 yn hwnnw yn rhoi'r pŵer iddi sefydlu rheolau ar gyfer arwerthu mecanweithiau a lwfansau allyriadau er mwyn cefnogi sefydlogrwydd y farchnad. Ar 24 Mehefin 2020, fe wnaeth Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Senedd yn rhoi caniatâd i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ffurf cymal 93.

Bydd mân elfennau ac elfennau ychwanegol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael eu cyflwyno drwy ail offeryn a fydd yn cael ei osod gerbron y Senedd fis Tachwedd 2020. Ar ôl iddo gael ei lunio, bydd hwn yn diwygio'r offeryn gweithdrefn gadarnhaol ac yn cynnwys darpariaethau ar gyfer dyrannu am ddim a chofrestru Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Gan na ragwelir y bydd yr offeryn hwn yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau y gallent fod wedi'u cynnwys yn adran 48(3) o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd, bydd y weithdrefn negyddol yn cael ei defnyddio.

---

<sup>1</sup> Paragraff 5(4) yn Atodlen 2.



### **3. Cefndir deddfwriaethol**

Mae Adran 44 o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd yn rhoi'r pŵer i greu offeryn er mwyn rhoi cynllun masnachu ar waith sy'n ymwneud ag allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae modd i'r "awdurdod cenedlaethol presennol" (Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Gogledd Iwerddon neu'r Ysgrifennydd Gwladol) ymarfer y pŵer hwn. Mae Adran 47 o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd yn diffinio Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod cenedlaethol perthnasol ar gyfer materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; neu faterion sy'n ymwneud ag annog neu gyfyngu ar derfynau gweithgareddau yng Nghymru sy'n cynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac eithrio gweithgareddau sy'n ymwneud â chwilio am olew a nwy alltraeth ac elwa arnynt.

Mae'r weithdrefn statudol ar gyfer rhoi cynllun masnachu ar waith wedi'i nodi yn Rhan 3 o Atodlen 3 i'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Mae'n rhaid i gynllun masnachu ledled y DU gael ei sefydlu gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor (paragraff 9 o Ran 3 o Atodlen 3). Yn unol â pharagraff 11, cyn gallu argymhell bod Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor yn gwneud y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, rhaid i ddrafft o'r offeryn sy'n cynnwys y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei osod gerbron pob un o Dai'r Senedd a'r deddfwriaethau datganoledig, a chael ei gymeradwyo ganddynt. Os caiff ei gymeradwyo gan bob un o'r rhain, bydd y Gorchymyn yn mynd i'r Cyfrin Gyngor fis Tachwedd 2020 a bydd yn dod i rym ddiwrnod ar ôl iddo gael ei wneud.

### **4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Diben y Gorchymyn hwn yw sefydlu cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ledled y DU er mwyn annog sefydliadau i leihau allyriadau mewn modd cost-ffeithiol, a fydd yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau'r DU a'i nod o ran sero net. Mae llywodraethau pedair gwlad y DU wedi cytuno ar safbwyntiau polisi ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, a fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2021, ac maent wedi'u nodi yn Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar Ddyfodol Prisio Carbon, a gyhoeddwyd ar 1 Mehefin 2020.

Mae rhychwant tiriogaethol y Gorchymyn hwn yn cynnwys Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Gorchymyn yn effeithio ar ddiwydiant a'r sectorau pŵer ac awyrennau. Mae Atodlen 1 i'r Gorchymyn yn nodi'r hediadau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU a'r holl hediadau sydd wedi'u hepgor. Mae Atodlen 2 yn nodi cwmpas y gweithgareddau o fewn gosodiadau sefydlog sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Mae hwn yn disodli'r polisi cysylltiedig â chyfranogiad y DU yn System Masnachu Allyriadau'r UE, a fydd yn dod i ben ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020 (yn amodol ar rwymedigaethau'r DU yn y Cytundeb Ymadael yn unol ag Erthygl 96(2) sy'n ymwneud â chydymffurfio yn 2020 a'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon). Byddai hyn hefyd yn golygu y gallai fod yn bosibl cael cyswllt rhwng Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a System Masnachu Allyriadau'r UE, neu fod modd ystyried hynny, yn amodol ar drafodaethau Llywodraeth y DU ynghylch perthynas â'r UE yn y dyfodol.

## 5. Ymgynghoriad

Mae manylion yr ymgynghoriad wedi cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Cefndir

Mae'r Cynllun Masnachu Allyriadau yn bolisi allweddol ar gyfer lleihau allyriadau yn y sector pŵer, mewn diwydiannau ynni-ddwys, ac yn y sector awyrennau (y 'sectorau a fasnachir'). Mae angen i'r Llywodraeth ymyrryd er mwyn sicrhau bod allyriadau o sectorau sy'n dod o dan System Masnachu Allyriadau'r UE ar hyn o bryd, yn parhau i fod yn rhan o bolisi prisio carbon ar ôl i'r DU adael yr UE.

Amcan y polisi yw cymell sectorau sydd wedi'u cynnwys yn System Masnachu Allyriadau'r UE i leihau allyriadau mewn modd cost-ffeithiol, gan gydbwysu'r uchelgais hwn â pha mor gystadleuol yw diwydiant y DU.

Mae rhoi pris ar garbon yn cymell cwmnïau i leihau allyriadau mewn modd cost-ffeithiol a niwtral o ran technoleg, gan alluogi'r sector preifat i fuddsoddi mewn mesurau a thechnolegau i leihau allyriadau. Bydd sefydlu cynllun ledled y DU yn sicrhau bod polisi prisio carbon yn parhau er mwyn annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i ddatgarboneiddio. Roedd y sector a fasnachir yn gyfrifol am oddeutu 46% o allyriadau Cymru yn 2018; felly, mae hwn yn bolisi allweddol mewn cyfres o ymyriadau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru, gan reoli materion sy'n ymwneud â pha mor gystadleuol yw busnesau.

Mae llawer o'r nodweddion dylunio yn adlewyrchu System Masnachu Allyriadau'r UE, sy'n rhoi parhad i fusnesau ac yn hwyluso cysylltiadau â system yr UE. Fodd bynnag, i gydnabod yr ymrwymiad ledled y DU i symud tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050, mae'r cap sydd wedi cael ei osod 5% yn is na chyfran dybiannol y DU o gap System Masnachu Allyriadau'r UE. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ddealltwriaeth o allyriadau presennol o'u cymharu â'r cap tybiannol, a oedd yn nodi y byddai gor-gyflenwad o lwfansau pe na baem yn gostwng y cap.

Efallai y bydd angen addasu'r cap ymhellach er mwyn sicrhau ei fod yn cydfynd â'n huchelgeisiau o ran sero net. Bydd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn rhoi cyngor ar lwybr tuag at sero net ym mis Rhagfyr, ac rydyn ni wedi ymrwymo i ymgynghori ynghylch unrhyw newidiadau i'r cap cyn pen 9 mis, ac i roi'r newidiadau gofynnol ar waith erbyn 1 Ionawr 2023 os yw hynny'n bosibl, ac erbyn 1 Ionawr 2024 fan bellaf.

Gan gymryd mai bwriad y Gorchymyn hwn yw gweithredu ochr yn ochr â darnau eraill o ddeddfwriaeth er mwyn sefydlu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, nid oedd yn briodol cynnal nifer o Asesiadau Effaith Rheoleiddiol darniog

ond, yn hytrach, cynhaliwyd un asesiad effaith hollgynhwysol o'r polisi yn ei gyfanrwydd.

Cafodd asesiad effaith manwl o'r cynllun ledled y DU ei gyhoeddi ochr yn ochr ag ymateb cyfun y llywodraeth i'r ymgynghoriad, ac mae ar gael yma:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/889038/The\\_future\\_of\\_UK\\_carbon\\_pricing\\_impact\\_assessment.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/889038/The_future_of_UK_carbon_pricing_impact_assessment.pdf)

## 7. Opsiynau

Cafodd yr opsiynau canlynol eu hasesu.

### Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU sy'n sefyll ar ei ben ei hun

Fe wnaethom ni asesu'r dyluniad a nodwyd yn nogfen ymateb y llywodraeth ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, yn ystod ei flynyddoedd gweithredol cychwynnol (o 2021 i 2024). Bwriad y system hon yw cyflawni'r amcanion polisi a nodir uchod fel system sy'n sefyll ar ei phen ei hun, gan hefyd ddarparu llwyfan i negodi system gysylltiedig â System Masnachu Allyriadau'r UE, os yw hynny er budd pennaf y ddau barti.

### Y sefyllfa bresennol

Caiff yr opsiwn polisi ei gymharu â sefyllfa wrthffeithiol, sef bod y DU yn parhau i fod yn rhan o System Masnachu Allyriadau'r UE yn ystod Cam IV y system. Mae hyn yn cynrychioli'r prif bolisi a fyddai wedi mynd i'r afael ag allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y sectorau a fasnachir pe bai'r DU wedi aros yn rhan o'r UE.

Roedd cyfyngiadau sylweddol ar opsiynau pellach. Mae llywodraethau pedair gwlad y DU wedi ymrwmo i barhau â pholisi prasio carbon statudol ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae sefydlu cynllun i olyn System Masnachu Allyriadau'r UE yn un o'r meysydd fframwaith cyffredin y cytunwyd arnynt ar y cyd.

Mae polisi Cynllun Masnachu Allyriadau tymor hir, gan gynnwys cytundeb cysylltu, yn amodol ar drafodaethau sy'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth y DU a'r UE, ac felly nid yw cynnal dadansoddiad meintiol o hyn o fewn cwmpas yr Asesiad Effaith hwn.

## 8. Costau a buddion

### Costau a buddion Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ledled y system

Mae'r asesiad yn ystyried blynyddoedd cychwynnol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (2021-2024) yn seiliedig ar y dyluniad a nodwyd yn ymateb y llywodraeth:

- cap ar allyriadau sydd wedi'i seilio ar 5% o ostyngiad yng nghyfran dybiannol y DU o System Masnachu Allyriadau'r UE.

- dyraniad am ddim ar sail cyfran dybiannol y DU o System Masnachu Allyriadau'r UE;
- pris cadw ar gyfer arwerthu trosiannol, sy'n dechrau ar £15 y lwfans.

Ar gyfer y dadansoddiad isod, 2019 yw Blwyddyn y Sail Brisiau, 2019 yw Blwyddyn y Gwerth Presennol, a 6 blynedd yw'r cyfnod.

Mewn perthynas â'r sefyllfa wrthffeithiol, dyma'r costau allweddol â gwerth ariannol ledled y DU ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU:

- y gost mae cwmnïau'n ei hysgwyddo i leihau eu hallyriadau er mwyn bodloni'r cap h.y. cost 'adnoddau' (£25 i 59 miliwn);
- costau gweinyddol y cwmnïau er mwyn cydymffurfio â'r polisi newydd (£4m);
- costau gweinyddol y llywodraeth (gan gynnwys rheoleiddwyr) er mwyn sefydlu a gweinyddu'r polisi (£7m).

Gyda'i gilydd, amcangyfrifir bod ystod y costau â gwerth ariannol ar gyfer y sefyllfa wrthffeithiol rhwng £36 a 70m (gwerth presennol).

Mewn perthynas â'r sefyllfa wrthffeithiol, mae'r costau allweddol heb werth ariannol ledled y DU ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cynnwys:

- y posibilrwydd bod busnes y DU yn mynd yn llai cystadleuol mewn perthynas â chystadleuwyr rhyngwladol, os bydd costau carbon uwch yn arwain at gostau cynhyrchu uwch ac yn cael effaith sylweddol ar elw a'r gyfran o'r farchnad;
- y posibilrwydd o ollyngiadau carbon o ganlyniad i werthoedd carbon uwch;
- cynnydd posibl yn y costau i ddefnyddwyr os bydd costau carbon uwch i fusnesau yn cael eu pasio ymlaen ar ffurf prisiau uwch.

Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl i'r costau hyn ymddangos i raddau arwyddocaol gan nad ydym yn disgwyl gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y gwerthoedd carbon yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU a'r gwerthoedd yn y sefyllfa wrthffeithiol.

Mewn perthynas â'r sefyllfa wrthffeithiol, y prif fudd â gwerth ariannol yn y sefyllfa o ran polisi yw'r budd carbon, sy'n cynrychioli'r budd i gymdeithas ar ffurf allyriadau is yn y sectorau sy'n rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Ar sail dyluniad enghreifftiol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, rydyn ni'n disgwyl i allyriadau leihau mwy nag y byddent yn y sefyllfa wrthffeithiol. Amcangyfrifir mai £102 i 160m (gwerth presennol) fyddai ystod y budd â gwerth ariannol yn y sefyllfa wrthffeithiol ar gyfer y cynllun cyfan ledled y DU.

Mewn perthynas â'r sefyllfa wrthffeithiol, dyma'r prif fuddion heb werth ariannol:

- y posibilrwydd o wella ansawdd aer os bydd y polisi'n arwain at leihau gweithgareddau sy'n cynhyrchu llygryddion, yn ogystal ag allyriadau nwyon tŷ gwyr;
- y posibilrwydd o effeithiau tymor hir cadarnhaol ar ba mor gystadleuol yw busnes y DU o'i gymharu â chystadleuwyr rhyngwladol, os bydd

gwerthoedd carbon uwch yn arwain at fwy o arloesi a buddsoddi mewn prosesau a thechnolegau carbon isel newydd;

- datgarboneiddio mwy effeithlon a chost-effeithiol os bydd y polisi'n arwain at leihau allyriadau drwy ddefnyddio'r dulliau lleiaf costus;
- Buddion ehangach yn sgil twf yr economi werdd a'r economi gylchol.

**Gan ystyried popeth, yr amcangyfrif gorau o'r Budd Net (Gwerth Presennol) yw rhwng £66 miliwn a £92 miliwn.**

### **Effeithiau yng Nghymru**

Bydd cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn ystod ei gam cyntaf yr un fath â System Masnachu Allyriadau'r UE yng Ngham IV ar gyfer y sectorau sefydlog. Felly, mae'r asesiad canlynol yn seiliedig ar ddata sy'n ymwneud â chyfranogwyr presennol System Masnachu Allyriadau'r UE.

Yn 2019, roedd 72 gosodiad sefydlog yng Nghymru, o blith tua 1,000 yn y DU, yn rhan o System Masnachu Allyriadau'r UE. Ar ôl hepgor y gosodiadau sy'n debygol o optio allan o'r prif bolisi o dan gynlluniau optio allan ar gyfer allyrwyr bach a bach iawn, mae 62 gosodiad ar ôl o'r 655 sydd yn y DU i gyd yn ôl amcangyfrifon (tua 9% o'r cyfanswm sydd yn y cynllun cyfan). Mae ystod y gweithgareddau mae'r cyfranogwyr o Gymru sy'n rhan o'r cynllun yn eu cwmpasu yn cynnwys llosgi tanwyddau ffosil ac amrywiaeth o weithgareddau diwydiannol, gan gynnwys cynhyrchu haearn bwrw neu ddu, cynhyrchu neu brosesu metelau fferrus, puro olew mwynol, cynhyrchu papur neu gardfwrdd, cynhyrchu clincer sment, cynhyrchu cemegion organig mewn swp, a chynhyrchu gwlân mwynol.

Roedd allyriadau cyfranogwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gyfrifol am 46% o gyfanswm yr holl allyriadau o Gymru yn 2018, sy'n sylweddol uwch na'r lefel ledled y DU, sef tua 30%. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Cymru yn allforiwr trydan net a bod ganddi gyfran uwch o weithgarwch diwydiannol (ac allyriadau yn sgil hynny), er enghraifft, ein gweithfeydd dur mawr, purfeydd olew a gweithfeydd sment, o'i gymharu â gwledydd eraill y DU. Felly, mewn egwyddor, bydd effaith y polisi ar y llwybr lleihau allyriadau cyffredinol yn fwy yng Nghymru. Fodd bynnag, oherwydd mai diben y cynllun yw darparu datgarboneiddio cost-effeithiol ar draws holl gyfranogwyr y cynllun, ac nad yw potensial datgarboneiddio gweithredwyr unigol na'u hawydd i fuddsoddi yn hysbys, does dim modd amcangyfrif yn hyderus swm penodol ar gyfer lleihau allyriadau yng Nghymru.

Dylid nodi bod ansicrwydd sylweddol ynghylch dyfodol gweithgarwch diwydiannol ac allyriadau cysylltiedig yng Nghymru o ganlyniad i gystadleuaeth fyd-eang, ar ben effeithiau pandemig y coronafeirws. Yn ogystal â hyn, nid oes manylion ynghylch cyfleoedd atal a'r awydd i fuddsoddi ar lefel gosodiadau ar gael yn gyhoeddus. Felly, mae'r asesiad canlynol yn darlunio graddfa bosibl yr effaith ond ni ddylid ei ystyried yn amcan cadarn.

## Costau i fusnesau (cyfranogwyr y cynllun)

I raddau helaeth, bydd y costau gweinyddol i fusnesau yng Nghymru yn debyg i'r rhai y byddent eu hysgwyddo o aros yn System Masnachu Allyriadau'r UE. Mae'r llywodraeth yn talu'r gost o sefydlu system TG, ac nid yw'r gofynion adrodd yn ychwanegu costau gweinyddol. Bydd y system ganiatáu hefyd yn cael ei lliniaru i'r graddau mwyaf posibl.

Mae mecanweithiau wedi cael eu cyflwyno i'r cynllun er mwyn rheoli prisiau carbon eithafol, gan sicrhau bod cymhelliant i ddatgarboneiddio ond bod busnesau hefyd yn cael eu hamddiffyn yn erbyn costau uchel iawn. Mae hyn yn cynnwys pris cadw o £15 y lwfans ar gyfer arwerthu. Yn ogystal â hyn, caiff lwfansau am ddim eu dyrannu i rai gosodiadau diwydiannol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gystadleuol yn fyd-eang. Bydd y fethodoleg dyrannu yn adlewyrchu hynny yng nghanam 4 System Masnachu Allyriadau'r UE.

Drwy gymhwyso cyfran o gostau'r DU gyfan i gyfranogwyr o Gymru (yn seiliedig ar 9% o'r gosodiadau sydd yng Nghymru) mae graddfa ddangosol y costau ychwanegol, o'u cymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol, rhwng £2.25 miliwn a £5.31 miliwn yn ystod yr un cyfnod o 6 blynedd. Gan briodoli costau fel cyfran o gyfanswm y costau (tua 15%) mae graddfa ddangosol y costau ychwanegol, o'u cymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol, rhwng £3.75 miliwn a £8.85 miliwn yn ystod yr un cyfnod o 6 blynedd. Fodd bynnag, dangosol yn unig yw'r ffigurau hyn o ganlyniad i nifer y newidynnau sy'n effeithio ar gostau.

Bydd i ba raddau mae'r costau hyn yn arwyddocaol i fusnesau unigol yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau ac yn amrywio yn dibynnu ar nodweddion y busnes yr effeithir arno, a swm y dyraniad am ddim mae'n ei gael. Fodd bynnag, gallai costau carbon uwch yn y tymor byr gynyddu cynaliadwyedd ein sylfaen ddiwydiannol hefyd, drwy roi mwy o gymhelliant i fusnesau arloesi a buddsoddi mwy mewn technolegau carbon isel, a fydd yn eu gwneud yn fwy cystadleuol yn y tymor hir.

Felly, mae'r canlynol yn dangos cyfanswm costau cydymffurfio dwy sefyllfa ddangosol yn seiliedig ar £15 am bob tonnell o CO<sub>2</sub>e (y Pris Cadw ar gyfer Arwerthu) a £32 am bob tonnell o CO<sub>2</sub>e. Ar sail y 8.06 miliwn o lwfansau yr oedd gofyn i'r cyfranogwyr o Gymru oedd yn rhan o System Masnachu Allyriadau'r UE eu prynu yn 2019, byddai'r gost flynyddol i fusnesau rhwng £120.9 miliwn a £257.93 miliwn. Dylid nodi bod allyriadau'r System Masnachu Allyriadau yn 2018 a 2019 yn debyg ar y cyfan, ar ôl gweld gostyngiad o 3.5 miliwn o dunelli rhwng 2017 a 2018 o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys allbwn sylweddol is o orsaf bŵer Aberddawan.

Mae nifer y lwfansau y bydd angen i fusnesau o Gymru eu prynu yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, a gall newidiadau yng nghynhyrchiant rhai o'n prif safleoedd – ac a yw'r safleoedd yn cael lwfansau am ddim – effeithio ar hyn, yn ogystal â'r tywydd (mae angen mwy o allbwn o'n gorsafoedd pŵer tanwydd ffosil yn ystod gaeafau oer a llonydd) a rhoi mesurau effeithlonrwydd ynni a mesurau datgarboneiddio eraill ar waith. Gan ystyried nifer y newidynnau, a'r effaith fawr

y bydd penderfyniadau masnachol rhai busnesau penodol yn ei chael ar gyfanswm yr allyriadau, does dim modd amcangyfrif yn fanwl.

Mae cydbwysu mesurau lliniaru yn nyluniad y cynllun a phennu pris cadw cymharol geidwadol ar gyfer arwerthu yn sicrhau bod busnesau'n gallu pontio'n esmwyth a bod dim gormod o gostau ychwanegol.

### Costau i Lywodraeth Cymru

Y prif gostau fydd y llywodraeth yn eu hwynebu yn sgil sefydlu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fydd costau systemau TG – cofrestrfa i gadw lwfansau allyriadau a system ar gyfer caniatáu, monitro, adrodd a dilysu (PMRV). Bydd y ddwy system yn disodli systemau cyfatebol yr UE y mae'r DU yn cael mynediad atynt ar hyn o bryd.

Mae'r rhan fwyaf o'r gost ar gyfer y ddwy system hyd yn hyn wedi cael ei hariannu drwy gronfa Llywodraeth y DU ar gyfer ymadael â'r UE. Fodd bynnag, o 2021/22 ymlaen, bydd disgwyl i bob llywodraeth gyfrannu at y costau o ddatblygu'r system PMRV, a thuag at wella'r ddwy system yn y dyfodol. Gan ddefnyddio fformiwla Barnett, amcangyfrifir y bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu rhwng £80,000 a £120,000 o gostau yn 2021/22. Ar ôl hynny, rhagwelir y bydd y costau'n sylweddol is.

Mae costau eraill yn cynnwys costau staff yn Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Does dim disgwyl i'r cynllun arwain at unrhyw gostau staff ychwanegol o'i gymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol (sef aros yn System Masnachu Allyriadau'r UE).

### Buddion – trosglwyddiadau i gronfeydd cyhoeddus

Bydd y sector cyhoeddus yn cael budd o unrhyw refeniw adwerthu sy'n deillio o'r cynllun; felly, gan ddefnyddio'r ddwy sefyllfa ddangosol ar sail £15 am bob tonnell o CO<sub>2</sub>e (y pris cadw ar gyfer arwerthu) a £32 am bob tonnell o CO<sub>2</sub>e, yn ogystal â'r 8.06 o lwfansau roedd gofyn i gyfranogwyr o Gymru oedd yn rhan o System Masnachu Allyriadau'r UE eu prynu yn 2019, a gan dybio y byddai'r holl lwfansau'n cael eu prynu mewn arwerthiant, byddai'r trosglwyddiad blynyddol i'r sector cyhoeddus rhwng £120.9 miliwn a £257.93 miliwn. Nid yw'r arian hwn yn cael ei neilltuo o dan yr arferion presennol; yn hytrach, mae'n cyfrannu at goffrau cyffredinol y Trysorlys. Dull arall mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi, fodd bynnag, yw sefydlu cronfa datgarboneiddio diwydiannol i ailgylchu derbyniadau arwerthiannau i greu pecynnau cyllid er mwyn datgarboneiddio ein diwydiannau ar lefel ddwys.

Bydd y costau a'r buddion heb werth ariannol yn berthnasol yng Nghymru, yn amodol ar benderfyniadau busnesau i fuddsoddi mewn mesurau datgarboneiddio at ddibenion cydymffurfio.

## 9. Ymgynghoriad

Rhwng 2 Mai 2019 a 12 Gorffennaf 2019, fe wnaeth Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig gynnal ymgynghoriad cyhoeddus 10 wythnos yn gofyn am safbwyntiau ar bolisi prasio carbon y DU yn y dyfodol. Ar ben hynny, cynhaliwyd dau ddigwyddiad i randdeiliaid yng Nghymru er mwyn casglu safbwyntiau partïon â diddordeb, gan gynnwys darpar gyfranogwyr y cynllun.

Nododd yr ymgynghoriad mai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU sy'n gysylltiedig â System Masnachu Allyriadau'r UE yw'r polisi prasio carbon mae Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn ei ffafrio. Os na fydd modd sicrhau hynny, roedd yr opsiynau amgen yn cynnwys cynllun masnachu allyriadau ar gyfer y DU sy'n sefyll ar ei ben ei hun, treth allyriadau carbon, neu aros yng Ngham IV System Masnachu Allyriadau'r UE. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi cynigion polisi ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ac yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar y cynigion hyn.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, aeth y llywodraethau ati i gomisiynu Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ar y cyd, i gael cyngor ar wahanol fathau o gynlluniau masnachu allyriadau ar gyfer y DU – un cysylltiedig ac un sy'n sefyll ar ei ben ei hun.

Cafwyd dros 130 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys rhai sy'n rhan o System Masnachu Allyriadau'r UE ar hyn o bryd a chyrrff anllywodraethol, gyda'r mwyafrif yn cefnogi'r rhan fwyaf o gynigion ar gyfer dyluniad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roedd cyfran fawr o'r rhanddeiliaid yn mynegi y byddai'n well ganddynt gysylltu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU â System Masnachu Allyriadau'r UE.

Fodd bynnag, codwyd pryderon gan y diwydiant, yn enwedig yng nghyswllt yr angen am ddull teg, cymesur ac ystyriol o wneud gwelliannau posibl i ddyraniadau am ddim. Er na fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i ddyraniadau am ddim ar ddechrau'r cynllun, oherwydd y diffyg data dibynadwy a chadarn i gefnogi dull arall ar hyn o bryd, byddwn yn dechrau adolygiad llawn o newidiadau posibl ar gyfer y dyfodol yn ystod y misoedd nesaf.

Cyhoeddwyd ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad, gan gynnwys crynodeb o ymatebion, ar 1 Mehefin 2020.

Mae manylion llawn yr ymgynghoriad ar gael yn: <https://llyw.cymru/prasio-carbon-y-du-yn-y-dyfodol>



## 10. Aseu'r Gystadleuaeth

Gan gymryd y bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn sefydlu marchnad garbon, mae'r termau "marchnad" a "cyfran y farchnad" yma yn ymwneud ag allyriadau neu lwfansau a ddelir. Goruchafiaeth ambell gyfranogwr yn y cynllun sydd â'r potensial i effeithio ar gystadleuaeth, yn hytrach na goruchafiaeth busnesau yn eu sectorau diwydiannol eu hunain.

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth  |                 |
|--|-----------------|
| Cwestiwn   | Ateb<br>✓ neu X |
| <b>C1:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% o'r farchnad?                     | X               |
| <b>C2:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 20% o'r farchnad?                     | X               |
| <b>C3:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o leiaf 50% o'r farchnad?  | X               |
| <b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio'n sylweddol fwy ar rai cwmnïau nag eraill?  | ✓               |
| <b>C5:</b> Ydy'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau?   | X               |
| <b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer darpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?   | X               |
| <b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch ar gyfer darpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | X               |
| <b>C8:</b> Ydy newid technolegol cyflym yn nodwedd amlwg yn y sector?  | X               |
| <b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch?  | X               |

Mae dyluniad y polisi, yn enwedig yng nghyswllt lwfansau am ddim, wedi'i lunio i amddiffyn y busnesau sy'n wynebu'r risg fwyaf o fod dan anfantais gystadleuol. Felly, bydd costau mwy yn effeithio ar rai o gyfranogwyr y cynllun yn fwy nag eraill. Fodd bynnag, gan ystyried y bydd dyraniad am ddim yn seiliedig ar weithgareddau a meincnodau, ni ddylai'r farchnad gael ei hystumio.

## **11. Adolygu ar ôl gweithredu**

Mae'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer llywodraethau pedair gwlad y DU, sef awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gyda'i gilydd, i gynnal dau adolygiad o weithrediad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn ystod y cyfnod o 10 mlynedd. Rhaid i awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r adolygiad. Rhaid i'r adolygiad o'r cyfnod cynnar gael ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2023, a rhaid cwblhau'r adolygiad hwyrach erbyn 31 Rhagfyr 2028.

Rhaid i'r adroddiadau adolygu gweithrediad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (gan asesu i ba raddau mae diben y Cynllun yn cael ei gyflawni) a gwneud unrhyw argymhellion y mae awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn eu hystyried yn briodol yng nghyswllt gweithrediad a diben y Cynllun yn y dyfodol.



Ein cyf/Our ref: MA-LG-2248-20

Mike Hedges AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig

15 Gorffennaf 2020

Annwyl Mike

Yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 1 Mehefin, ymrwymais i ddiweddarau pwyllgorau'r Senedd ar y cynnydd wnaed ar ddyfodol prisio carbon yn y DU ar ôl ymadael â'r UE a'r safbwynt polisi ar y cyd a drafodwyd rhwng y Llywodraeth a phedair cenedl y DU. Byddaf yn esbonio'r broses o ddatblygu'r polisi, yn darparu trosolwg o'i ddyluniad gan gynnwys y ddeddfwriaeth a'r strwythurau llywodraethu a fydd yn sail iddo, ac yn awgrymu sut y gall fy swyddogion a minnau helpu pwyllgorau'r Senedd i graffu ar y polisi hwn.

Mae diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys lleihau allyriadau a newid hinsawdd, yn faterion datganoledig. O ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, roedd angen sicrhau ein bod yn parhau i gymell datgarboneiddio diwydiannol. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Gweinidogion cyfatebol eraill ar draws y DU i ddatblygu Fframwaith Cyffredin i ddisodli System Masnachu Allyriadau (ETS) yr UE. Nid yw Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 yn darparu pwerau digonol i sefydlu system ddeddfwriaethol newydd. Felly, penderfynodd y pedair Llywodraeth i gyd-sefydlu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU) gan ddefnyddio'r pwerau presennol o dan Ran 3 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.

Roedd ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y cyd yn 2019 wedi ceisio barn ar gynigion i gymhwyso ETS y DU ar ôl y cyfnod pontio, gyda'r cyfnod deng mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Ionawr 2021. Bydd yn adlewyrchu dyluniad ETS yr UE, i sicrhau bod busnesau yn gallu trosglwyddo'n ddiraffferth ac yn hwyluso cysylltiad ag ETS yr UE cyn gynted â daethpwyd i gytundeb yn y trafodaethau rhwng y DU a'r UE. Roedd ymateb rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad o blaid ETS y DU, yn enwedig un sy'n gysylltiedig ag ETS yr UE. Roedd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn cefnogi sefydlu cynllun masnachu cysylltiedig hefyd.

Ers yr ymgynghoriad, mae'r pedair Llywodraeth wedi parhau i ddatblygu'r agweddau technegol ar ddyluniad polisi ETS y DU a ddisgrifir yn yr Ymateb Llywodraethol ar y Cyd a gyhoeddwyd ar 1 Mehefin. Mae dyluniad y polisi yn taro cydbwysedd rhwng yr heriau o ran sicrhau integreidd amgylcheddol a rheoli materion o ran cystadleurwydd busnesau. Mae hyn yn hanfodol bwysig yng Nghymru gan fod y sector masnachu yn gyfrifol am ryw 46% o'n hallyriadau ac yn cynnwys rhai o'n cyflogwyr mwyaf. Mae'r ddogfen i'w gweld yma: <https://gov.wales/future-uk-carbon-pricing>.

Bydd ETS y DU yn cyd-fynd yn agos ag ETS yr UE ar y cychwyn. Mae'n berthnasol i'r un sectorau masnachu ac mae'n gosod yr un rhwymedigaethau ar gyfranwyr i fonitro allyriadau ac adrodd arnynt, ac ildio nifer cyfwerth o lwfansau. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer dyraniad am ddim sy'n dilyn dull a meini prawf cymhwysra'r UE, a sicrhau bod rôl cydymffurfio a gorfodi rheoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau.

Mae gwahaniaethau, fodd bynnag, rhwng ETS y DU a system yr UE. Bydd cap cychwynnol ETS yr UE yn cael ei osod 5% yn llai na chyfran tybiannol y DU o gap ETS yr UE, a bydd yn cael ei adolygu ar ôl cael cyngor pellach ar y llwybr i 2050, i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'n nod cyffredin o gyflawni allyriadau sero net ar draws y DU erbyn 2050. Bydd hefyd fecanweithiau i reoli prisiau hynod o uchel ac isel, gan gynnwys pris cadw arwerthiant wedi'i osod yn £15 y lwfans.

Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020, sy'n sefydlu ETS y DU ac yn cynnwys darpariaethau ar gyfer elfennau allweddol o'r polisi, yn cael ei osod gerbron y Senedd heddiw a bydd y pedair deddfwrfa yn craffu arno o fewn yr un cyfnod amser. Rhaid i'r Gorchymyn cael ei gymeradwyo gan y Senedd, a bydd dadl yn cael ei threfnu ar gyfer wythnos gyntaf mis Tachwedd. Bydd Gorchymyn pellach a ddefnyddia'r weithdrefn negyddol, sy'n mynd i'r afael â rhai o fanylion technegol y cynllun, yn cael ei ddwyn ymlaen tuag at ddiwedd 2020.

Yn ddiweddar, gwnaeth y Senedd gydsynio i bwerau sy'n galluogi arwerthu lwfansau allyriadau sydd wedi'u cynnwys ym Mil Cyllid Llywodraeth y DU<sup>1</sup>. Bydd Llywodraeth y DU yn dwyn ymlaen is-ddeddfwriaeth maes o law i sefydlu'r trefniadau manwl ar gyfer arwerthu.

Mae ETS y DU yn rhan o Raglen y Fframwaith Cyffredin a oruchwylir y Cyd-bwyllgor Gweinidogol ar Drafodaethau'r UE (JMC(EN)) ac fe'i datblygwyd gan ddefnyddio'r egwyddorion a nododd ym mis Hydref 2017. Bydd Cytundeb Amlinellol yn nodi'r sail resymegol dros sefydlu'r fframwaith a'r trefniadau gwneud penderfyniadau a llywodraethu. Bydd concordat rhwng Gweinidogion y pedair llywodraeth yn mynd gydag ef. Byddaf yn rhannu'r dogfennau hyn gyda'r Pwyllgor pan fyddant yn barod a chyn y cânt eu cyflwyno i'r JMC(EN) er mwyn iddo graffu arnynt.

Rwy'n awyddus i gefnogi'r gwaith craffu ar y ddeddfwriaeth a'r fframwaith ehangach, a byddaf yn barod iawn i ddarparu tystiolaeth. Mae fy swyddogion hefyd ar gael i ddarparu trosolwg technegol o'r fframwaith a manylion y ddeddfwriaeth pe bai hynny'n ddefnyddiol ichi.

---

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt i ychwanegu Cuba a Singapore at y rhestr, ac i hepgor Gweriniaeth Tsiec, Jamaica a'r Swistir. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu digwyddiad arall at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 y mae'r rhai sy'n cymryd rhan ynddynt naill ai wedi'u hesemptio neu wedi'u hesemptio rhag y gofynion ynysu.

### Gweithdrefn

Negyddol.

### Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau a ganlyn wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

#### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol bod angen cyfnod o 21 diwrnod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a bod Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, wedi esbonio'r rheswm dros hyn mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Awst 2020.



Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn dweud:

*“mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.”*

## **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Rheoliadau 3 a 5 hyn hefyd yn gwneud darpariaethau trosiannol yn ymwneud â newid statws y gwledydd a'r gofyniad i ynysu. Credwn y byddai'n ddefnyddiol i'r cyhoedd pe bai Llywodraeth Cymru yn esbonio'r darpariaethau trosiannol hyn yn ei chanllawiau **Teithwyr sy'n esempt rhag rheolau ffiniau Cymru: coronavirus (COVID-19)**.

## **Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Dim.

## **Ymateb y Llywodraeth**

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r ail bwynt rhinweddau.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**8 Medi 2020**





---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 917 (Cy. 205)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 7) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Cuba a Singapore at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor Jamaica, y Swistir a'r Weriniaeth Tsiec o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliadau 3 a 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliadau 2 a 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon.

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu digwyddiad arall at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 917 (Cy. 205)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 7) 2020

*Gwnaed* am 12.15 p.m. ar 28 Awst 2020

*Gosodwyd* gerbron *Senedd*  
*Cymru* am 4.30 p.m. ar 28 Awst 2020

*Yn dod i rym* am 4.00 a.m. ar 29 Awst 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**RHAN 1**

**Cyffredinol**

**Enwi, dod i rym a dehongli**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 29 Awst 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)  
2020(1).

## RHAN 2

Diwygio'r rhestr o wledydd esempt yn Atodlen  
3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### **Ychwanegiadau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

2. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“Cuba”

“Singapore”.

### **Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2**

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 29 Awst 2020—

- (a) oedd person (“P”) yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith iddo gyrraedd Cymru o wlad a restrir yn rheoliad 2, neu ar ôl bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 2, a
- (b) diwrnod olaf ynysiad P yw 29 Awst 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Nid yw ychwanegu'r gwledydd a restrir yn rheoliad 2 at Ran 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 29 Awst 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 2 o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(4) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt neu ar ôl bod mewn gwlad

---

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190) ac O.S. 2020/886 (Cy. 196).

neu diriogaeth o'r fath i'w bennu, mewn perthynas â gwlad a restrir yn rheoliad 2, drwy gyfeirio at ba un a oedd y wlad yn wlad nad yw'n esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y wlad pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

#### **Hepgor gwledydd o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

4. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

“Jamaica”

“Y Swistir”

“Y Weriniaeth Tsiec”.

#### **Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 4**

5.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 29 Awst 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 4 ddiwethaf—
  - (i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a
  - (ii) cyn 4.00 a.m. ar 29 Awst 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yn y wlad honno, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

### **RHAN 3**

Diwygiadau i'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

#### **Diwygiadau i Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig)**

6.—(1) Mae Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 14—

- (a) ar ddiwedd is-baragraff (c), yn lle'r atalnod llawn rhodder “;”;
- (b) ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—
  - “(d) Matchroom Fight Camp - Gornestau Pencampwriaeth Bocsio.”

*Vaughan Gething*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,

un o Weinidogion Cymru

Am 12.15 p.m. ar 28 Awst 2020

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020.

**Vaughan Gething**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

28 Awst 2020

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn gweithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Biaddiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel y bo'n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

### *Dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau'n dod i rym lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl cael eu gosod gerbron y Senedd.

Mae Rheoliadau diwygio tebyg hefyd yn cael eu cyflwyno yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel rhan o ddull ar gyfer y DU gyfan o fynd ati i osgoi lledaenu haint neu halogiad COVID-19 drwy unrhyw heintiau a gludir i'r wlad gan deithwyr.

### *Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr.



Mae Rhan 2A o Ddeddf 1984, fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, yn darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus neu halogiad gan gemegau neu ymbelydredd, ac mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar bobl, ac mewn perthynas â gwrthrychau a mangreoedd, i'w defnyddio o dan amgylchiadau prin lle na ellir sicrhau cydweithrediad gwirfoddol. Yn gyffredinol, mae Deddf 1984 fel y'i diwygiwyd yn gosod fframwaith ar gyfer diogelu iechyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gryn dipyn o'r darpariaethau manwl gael eu gwneud drwy reoliadau.

Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae adran 45B o Ddeddf 1984 yn darparu pŵer i'r Gweinidog priodol (a ddiffinnir yn adran 45T fel Ysgrifennydd Gwladol Lloegr, neu Weinidogion Cymru yng Nghymru) wneud rheoliadau i atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i gerbydau (neu'r personau neu'r gwrthrychau a gludir yn y cerbydau hynny) yn cyrraedd unrhyw fan neu i atal lledaenu haint neu halogiad gan gerbydau sy'n gadael unrhyw fan. Mae hefyd yn darparu pŵer i reoliadau roi effaith i gytundebau rhyngwladol neu drefniadau rhyngwladol, er enghraifft argymhellion Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae adran 45P(2) o Ddeddf 1984 yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan Ran 2A o Ddeddf 1984 yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol, neu bobl wahanol neu ardaloedd gwahanol, gan gynnwys y pŵer i wneud darpariaeth wahanol ar sail diben yr achos.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r manau hynny – yn fwyaf diweddar ar 22 Awst 2020.

Mae'r cyngor a gafwyd bellach gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws yn y Weriniaeth Tsiec, Jamaica a'r Swistir. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ailgyflwyno gofynion ynysu yn awr ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o'r gwledydd a'r tiriogaethau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ychwanegu Cuba a Singapôr at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 2 ar y sail bod y data sydd wedi dod i law oddi wrth y Cydganolfan Bioddiogelwch wedi nodi bod y risg i iechyd y cyhoedd a berir gan bobl sy'n cyrraedd o'r gwledydd hynny wedi lleihau ac felly dylid eithrio'r bobl hynny rhag y gofynion ynysu.

Mae diwygiad yn cael ei gwneud hefyd i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu digwyddiad chwaraeon arall at y rhestr yn Atodlen 4 y mae'r rhai sy'n cymryd rhan ynddynt yn cael eu heithrio rhag y gofynion ynysu.

Bydd y diwygiadau yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o'r gwledydd neu diriogaethau hyn am 4:00am neu wedi hynny ar 29 Awst 2020, ac yn yr un modd y diwygiad ar ddigwyddiadau chwaraeon. Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn, yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## **5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## **6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Ein cyf/Our ref: MA/VG/2819/20

Elin Jones, AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

28 Awst 2020

Annwyl Llywydd,

### **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020**

Yn unol ag adrannau 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym cyn iddo gael ei osod ac felly nid yw'n cadw at y confensiwn 21 diwrnod arferol. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau i'w cael ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach i ddileu'r gwledydd a ganlyn o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio:

- Y Weriniaeth Tsiec
- Jamaica
- Y Swistir

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu'r gwledydd a ganlyn at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

- Cuba
- Singapôr

Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd mewn risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r lleoliadau hynny.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiad pellach mewn perthynas ag ychwanegu digwyddiad chwaraeon ychwanegol yn Atodlen 4.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd



---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG

### GAN

## LYWODRAETH CYMRU

---

|                |  |
|----------------|--|
| <b>TEITL</b>   | <b>Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)</b> |
| <b>DYDDIAD</b> | <b>27 Awst 2020</b>  |
| <b>GAN</b>     | <b>Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</b>               |

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi gwneud darpariaeth i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig o wledydd tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ddydd Llun 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i ynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i ynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth teithwyr.

Ers hynny, mae'r rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Cefais gyfarfod heddiw gyda Gweinidogion o bob un o bedair llywodraeth genedlaethol y DU i drafod y newidiadau posibl i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, rwyf wedi penderfynu ychwangu Cuba a Singapôr at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio, a thynnu'r Weriniaeth Tsiec, Jamaica a'r Swistir o'r rhestr. Yfory byddaf yn gosod y rheoliadau angenrheidiol a fydd yn dod i rym am 04:00 ddydd Sadwrn, 29 Awst.

Caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Os bydd yr Aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

## SL(5)604 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

### Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ('Rheoliadau 2019').

Oherwydd pandemig y coronafirws efallai y bydd myfyriwr newydd sy'n ymgymryd â chwrs Meistr ôl-raddedig dysgu o bell yng Nghymru yn methu â bod yn bresennol yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf, yn unol â'r gofyniad yn Rheoliadau 2019, heb fod unrhyw fai arno ef. Mae Rheoliadau 2019 wedi'u diwygio i alluogi myfirwyr newydd i gael cymorth ar gyfer eu cwrs dysgu o bell os yw rhesymau sy'n gysylltiedig â phandemig y coronafeirws yn eu hatal rhag bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd. Mae hyn yn gymwys mewn perthynas â chyrtsiau y mae blwyddyn gyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2020 neu ar ôl hynny.

### Gweithdrefn

Negyddol.

### Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

#### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Awst 2020.

*"Bydd y Rheoliadau fel y'u gwnaed yn dod i rym cyn i 21 diwrnod fynd heibio. Mae hyn oherwydd ei bod yn hwyr yn y flwyddyn. Mae angen i'r Rheoliadau fod mewn grym erbyn 1 Medi (diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd) i alluogi myfirwyr sy'n dechrau ar eu cwrs ar y dyddiad hwnnw i barhau i fod yn gymwys i gael cymorth, gan na ellir gwneud*



*newidiadau'n ôl-weithredol. Mae hyn yn sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwyr dan anfantais oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth."*

Er ein bod yn cydnabod y bu'n rhaid rhoi nifer o fesurau ar waith ar frys yn ystod Pandemig y Coronafeirws, nid yw'n glir i ni pam y bu'n rhaid i'r Rheoliadau hyn yn benodol ddod i rym ar gymaint o frys fel eu bod yn torri'r rheol 21 diwrnod er bod Gweinidogion Cymru wedi bod â'r pŵer i wneud y Rheoliadau hyn mewn da bryd.

## **Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Dim.

## **Ymateb y Llywodraeth**

Nid oes angen ymateb Llywodraeth Cymru gan fod yr esboniad am dorri'r rheol 21 diwrnod eisoes wedi'i ddarparu yn y Memorandwm Esboniadol a'r llythyr a anfonwyd at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor fel y nodwyd uchod.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**7 Medi 2020**



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament **Tudalen y pecyn 158**

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 918 (Cy. 206)**

**ADDYSG, CYMRU**

**Rheoliadau Addysg (Cymorth i  
Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-  
raddedig) (Cymru) (Diwygio)  
(Coronafeirws) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac maent yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae Rheoliadau 2019 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau gradd feistr ôl-raddedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019.

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 10(1) o Rheoliadau 2019 (myfyrwyr cymwys – eithriadau) i ddileu'r gofyniad i fyfyrwr sy'n ymgymryd â chwrs dysgu o bell fod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs hwnnw, mewn achosion pan fo'r absenoldeb yn ymwneud â'r coronafeirws.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 918 (Cy. 206)**

**ADDYSG, CYMRU**

**Rheoliadau Addysg (Cymorth i  
Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-  
raddedig) (Cymru) (Diwygio)  
(Coronafeirws) 2020**

*Gwnaed*                      *am 9.20 a.m. ar 28 Awst 2020*

*Gosodwyd*                      *gerbron*                      *Senedd*  
*Cymru*                      *am 3.00 p.m. ar 28 Awst 2020*

*Yn dod i rym*                      *1 Medi 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(1), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2020.

---

(1) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(2)(a) gan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 86. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Mae adran 22(2)(a) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn gyfredol â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru uchod i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr)  
(Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019**

2.—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(1) wedi eu diwygio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 10(1) (myfyrrwyr cymwys – eithriadau), yn eithriad 10—

(a) ar ôl “nid yw'r eithriad hwn yn gymwys pan—” dechreuwr llinell newydd a mewnosod y pennawd “*Achos 1*”;

(b) ar ddiwedd is-baragraff (c), yn lle'r atalnod llawn rhodder “; neu”;

(c) ar ddiwedd eithriad 10 mewnosoder—

“*Achos 2*

(a) bo diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2020; a

(b) na fo P yn gallu bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws.”

(3) Yn Atodlen 1 (dehongli), ym mharagraff 3(1), yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “coronafeirws” (“*coronavirus*”) yw coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);”.

(4) Yn Atodlen 4 (mynegai o dermau wedi eu diffinio), yn Nhabl 3, yn y lle priodol mewnosoder—

““coronafeirws” Atodlen 1, paragraff 3(1)”

*Kirsty Williams*

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

Am 9.20 a.m. ar 28 Awst 2020

---

(1) O.S. 2019/895 (Cy. 161). Mae diwygiadau i O.S. 2019/895 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

## **Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

### **Datganiad y Gweinidog Addysg**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Kirsty Williams  
Y Gweinidog Addysg  
28 Awst 2020

## Rhan 1

### 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019")

Mae'r Rheoliadau'n diwygio darpariaeth yn Rheoliadau 2019 i alluogi myfyrrwyr i gael cymorth ar gyfer cyrsiau dysgu o bell os yw'r coronafeirws yn eu rhwystro rhag bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd cyntaf y cwrs (1 Medi 2020).

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Medi 2020, cyn i 21 diwrnod fynd heibio ers y dyddiad y cawsant eu gosod. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi ysgrifennu at y Llywydd, fel sy'n ofynnol gan adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946. Bydd y dyddiad dod i rym yn sicrhau bod myfyrrwyr yn parhau i fod yn gymwys am gymorth yn ystod cyfnod o bandemig byd-eang.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud o dan adrannau 22(2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998"). Mae adran 22 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn awdurdodi talu neu'n ei gwneud yn ofynnol i dalu cymorth ariannol i fyfyrrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg bellach neu gyrsiau addysg uwch sy'n cael eu rhagnodi gan y rheoliadau hynny neu odanynt. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymysg pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath.

Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004") yn darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu ar gyfer bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 yn arferadwy ar y cyd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

Trosoglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Bob blwyddyn, mae nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru a geir mewn rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 22 o Ddeddf 1998 yn cael eu dirprwyo i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.

Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau i roi sail ar gyfer y system cymorth ariannol i fyfirwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac i fyfirwyr o'r Undeb Ewropeaidd sy'n astudio yng Nghymru ac yn ymgymryd â chyrsgiau addysg uwch dynodedig. Mae Rheoliadau 2019 yn darparu bod cymorth ariannol ar gael i fyfirwyr sy'n ymgymryd â chyrsgiau graddau Meistr ôl-raddedig sy'n dechrau ar 1 Medi 2019 neu ar ôl hynny.

Mae pandemig y coronafeirws yn parhau i gael effaith ar bob agwedd ar fywyd. Gallai myfirwyr newydd sy'n ymgymryd â chwrs gradd Meistr ôl-raddedig o bell yng Nghymru ganfod na allant fod yn bresennol yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd gyntaf, fel sy'n ofynnol o dan Rheoliadau 2019, a hynny heb fod bai o gwbl arnynt. Mae Rheoliadau 2019 yn cael eu diwygio er mwyn caniatáu i fyfirwyr newydd gael cymorth ar gyfer eu cyrsiau dysgu o bell os oes resymau sy'n gysylltiedig â phandemig y coronafeirws yn eu hatal rhag bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd gyntaf. Mae hyn yn gymwys mewn perthynas â chyrsgiau y mae blwyddyn gyntaf y flwyddyn academiaidd gyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2020 neu ar ôl hynny.

Mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau nad oes unrhyw fyfirwyr dan anfantais oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

#### **5. Ymgynghori**

Nid oes ymgynghoriad wedi'i gynnal.

#### **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal ar gyfer y Rheoliadau hyn.

#### **Yr opsiynau**

### *Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

Os na wneir y Rheoliadau, ni fydd myfyrwyr dysgu o bell nad ydynt yn gallu teithio oherwydd rhesymau sy'n gysylltiedig â phandemig y coronafeirws yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, yn groes i bolisi a'r darpariaethau cymhwysedd presennol.

### *Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

Mae gwneud y Rheoliadau yn sicrhau bod y goblygiad a nodir uchod yn cael ei osgoi gan arwain at fframwaith deddfwriaethol sy'n adlewyrchu polisi Gweinidogion Cymru ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn gywir, gan sicrhau bod pob myfyriwr yn gallu cael cymorth priodol.

## **Costau a manteision**

### *Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer opsiwn un. Efallai y bydd arbediad ariannol bychan os na all myfyrwyr fod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf a'u bod felly'n anghymwys i gael cymorth i fyfyrwyr.

### *Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

Byddai dysgwyr o bell y mae'r coronafeirws yn effeithio ar eu gallu i deithio i Gymru ar gyfer diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn gymwys i gael cymorth. Mae'r gwelliant yn cadw'r bwriad polisi presennol ac nid yw'n golygu unrhyw gostau ychwanegol. Y fantais i'r myfyriwr yw ei fod yn gallu cael cymorth, yn ôl y disgwyl, i ddilyn ei gwrs.

## **Asesu'r gystadleuaeth**

Nid yw gwneud y Rheoliadau'n cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

## **Adolygu ar ôl gweithredu**

Caiff y rheoliadau sy'n llywodraethu'r system cymorth i fyfyrwyr eu diwygio'n flynyddol a'u hadolygu'n fanwl yn barhaus gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflawni wrth iddynt weithredu'r rheoliadau'n ymarferol.

## **Crynodeb**

Mae angen gwneud y Rheoliadau er mwyn diweddarau agweddau ar y system cymorth i fyfyrwyr addysg uwch ar gyfer myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru a

myfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd sy'n astudio yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.



Ein cyf/Our ref MA/KW/2777/20

Elin Jones AS  
Y Llywydd  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

28 Awst 2020

Annwyl Lywydd,

### **Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod o ddyddiad ei osod. Rwy'n atodi'r Memorandwm Esboniadol er gwybodaeth i chi.

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae'r rheoliadau cymorth i fyfyrrwyr, a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1988, yn sail i'r system cymorth ariannol i fyfyrrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac yn ymgymryd â chysiau addysg uwch dynodedig.

Bydd y Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2019 i alluogi myfyrrwyr newydd sy'n dysgu o bell nad ydynt yn gallu bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf eu blwyddyn academaidd gyntaf, oherwydd na allant deithio am unrhyw reswm sy'n gysylltiedig â phandemig y Coronafeirws, i barhau i fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrrwyr. Mae'r offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

Fel y nodwyd, bydd y Rheoliadau fel y'u gwnaed yn dod i rym cyn i 21 diwrnod fynd heibio. Mae hyn oherwydd ei bod yn hwyr yn y flwyddyn. Mae angen i'r Rheoliadau fod mewn grym erbyn 1 Medi (diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd) i alluogi myfyrrwyr sy'n dechrau ar eu cwrs ar y dyddiad hwnnw i barhau i fod yn gymwys i gael cymorth, gan na ellir gwneud newidiadau'n ôl-weithredol. Mae hyn yn sicrhau nad oes unrhyw fyfyrrwyr dan anfantais oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac wedi osod gerbron y Swyddfa Gyflwyno, ar y cyd â'r Rheoliadau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in cursive script that reads "Rebecca Evans".

**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

## **SL(5)599 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020**

### **Cefndir a diben**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") a'r cyfyngiadau yn sgil y coronafeirws yng Nghymru. Yn benodol, mae'r Rheoliadau yn caniatáu:

- i hyd at bedair aelwyd uno â'i gilydd mewn aelwyd estynedig. Gallai hyn olygu bod dwy aelwyd estynedig bresennol yn uno â'i gilydd, neu fod pedair aelwyd nad ydynt eisoes mewn trefniant o'r fath yn ffurfio aelwyd estynedig (neu'n ymuno ag aelwyd estynedig bresennol).
- i bobl ymgynnull o dan do (mewn grŵp o hyd at 30 o bobl) ar gyfer derbyniad priodas bach, te angladd neu wylnos, yn gysylltiedig â seremoni briodas neu bartneriaeth sifil neu angladd a gynhelir ar neu ar ôl 22 Awst 2020.
- i nifer fach o ddigwyddiadau awyr agored ar gyfer hyd at 100 o wylwyr gael eu cynnal fel rhan o gynllun peilot, gyda chytundeb penodol Gweinidogion Cymru.

Yn ogystal, diwygio reoliad 18(9B) (Camau Gorfodi) o'r prif Reoliadau i'w gwneud yn glir nad yw gwybodaeth ac atebion a roddir o dan reoliad 18(7A) yn dderbyniol mewn unrhyw achos ac eithrio achos o dan y prif Reoliadau.

### **Gweithdrefn**

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

### **Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **Rhinweddau: craffu**

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



## **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi "o ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys...ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn" a bod y "Prif Weinidog, ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau". "Nododd y Prif Weinidog, yn ei gynhadledd i'r wasg ar 14 Awst, y bwriad i wneud y newidiadau a gyflawnir drwy'r Rheoliadau a wneir heddiw, os byddai'r amgylchiadau'n caniatáu hynny. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang wedyn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn ei gynhadledd i'r wasg ar 21 Awst."

## **Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Dim.

## **Ymateb y Llywodraeth**

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**26 Awst 2020**



*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 884 (Cy. 195)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6)  
2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

- (a) yn caniatáu i aelodau hyd at bedair aelwyd (yn lle dwy) gytuno i gael eu trin fel un aelwyd (estynedig), sy'n golygu y gall aelodau o'r aelwydydd hynny ryngweithio â'i gilydd fel pe baent yn aelodau o un aelwyd;
- (b) yn darparu bod gan bobl esgus rhesymol (o dan reoliad 14 o'r prif Reoliadau) i ymgynnull

o dan do, mewn mangreuedd penodol, mewn grŵp o hyd at 30 o bobl—

- i ddathlu gweinyddiad priodas, neu ffurfiad partneriaeth sifil, sy'n digwydd ar neu ar ôl 22 Awst 2020, neu
- i ddathlu bywyd person sydd wedi marw ac y mae ei angladd yn digwydd ar neu ar ôl 22 Awst 2020.

(c) yn darparu, fel eithriad i'r rheol sy'n gwahardd pobl rhag cymryd rhan mewn cynullïadau awyr agored o fwy na 30 o bobl, y caiff digwyddiad awyr agored mwy ddigwydd cyhyd ag y bo—

- wedi ei drefnu yn unol â thelerau'r eithriad,
- wedi ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru,
- dim mwy na 100 o bobl yn bresennol (heb gynnwys personau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo), ac
- wedi ei gynnal yn unol ag unrhyw amodau a bennir gan Weinidogion Cymru.

(d) yn egluro bod rheoliad 18(9B) o'r prif Reoliadau (derbynioldeb tystiolaeth) yn gymwys i unrhyw achos ac eithrio achos o dan y prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 884 (Cy. 195)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6)  
2020**

*Gwnaed am 11.00 a.m. ar 21 Awst 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru am 3.30 p.m. ar 21 Awst 2020*

*Yn dod i rym 22 Awst 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 a deuant i rym ar 22 Awst 2020.

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020<sup>(1)</sup> wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, hepgorer paragraffau (4) i (7).

(3) Ar ôl rheoliad 2, mewnosoder—

#### “Aelwydydd estynedig

2A.—(1) Caiff hyd at bedair aelwyd gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig, rhaid i bob oedolyn yn yr aelwydydd o dan sylw gytuno.

(3) Pan fo aelwydydd yn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn (ac eithrio yn y rheoliad hwn) at “aelwyd” i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys yr aelwydydd sydd wedi cytuno felly.

(4) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai mewn un aelwyd estynedig.

(5) Mae aelwyd yn peidio â cael ei thrin fel pe bai mewn aelwyd estynedig os yw unrhyw oedolyn yn yr aelwyd yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai yn yr aelwyd estynedig.

(6) Os yw aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai mewn aelwyd estynedig, ni chaiff yr

---

(1) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/752 (Cy. 169)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/803 (Cy. 176)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/820 (Cy. 180)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/843 (Cy. 186)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/867 (Cy. 189)).

aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai mewn aelwyd estynedig gydag unrhyw aelwyd arall.

(7) Mae paragraff (8) yn gymwys pan fo dwy aelwyd—

- (a) wedi cytuno i gael eu trin fel un aelwyd (estynedig) at ddibenion y Rheoliadau hyn cyn 22 Awst 2020, neu
- (b) wedi eu trin fel pe baent wedi gwneud hynny yn unol â rheoliad 2(7) o'r Rheoliadau hyn cyn y dyddiad hwnnw.

(8) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, o ran yr aelwydydd—

- (a) maent i'w trin fel pe baent wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig yn unol â'r rheoliad hwn, a
- (b) cânt gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig gyda hyd at ddwy aelwyd arall yn unol â'r rheoliad hwn.”

(4) Yn rheoliad 14, ar ôl paragraff 2(h) mewnosoder—

“(hza)cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 30 o bobl mewn mangre agored—

- (i) i ddathlu gweinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil sy'n digwydd ar neu ar ôl 22 Awst 2020,
- (ii) i ddathlu bywyd person ymadawedig y cynhelir ei angladd ar neu ar ôl 22 Awst 2020;”.

(5) Yn rheoliad 14A, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Ond nid yw'r cyfyngiad ym mharagraff (1) yn gymwys i ddigwyddiad awyr agored wedi ei drefnu—

- (a) sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru,
- (b) nad yw mwy na 100 o bobl yn bresennol ynddo (heb gynnwys personau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo), ac
- (c) sydd wedi ei gynnal yn unol ag unrhyw amodau a bennir yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru.

(4) At ddibenion paragraff (3)(a), mae digwyddiad yn “digwyddiad awyr agored wedi ei drefnu”—

- (a) os yw'n digwydd yn yr awyr agored,
- (b) os yw wedi ei drefnu gan—
  - (i) busnes,



- (ii) corff cyhoeddus neu sefydliad elusennol, llesiannol neu ddyngarol,
  - (iii) clwb neu sefydliad gwleidyddol, neu
  - (iv) corff llywodraethu cenedlaethol camp neu weithgaredd arall, ac
- (c) os yw'r person sy'n ei drefnu wedi—
- (i) cynnal asesiad risg a fyddai'n bodloni gofynion rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999<sup>(1)</sup>, pa un a yw'r person yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hynny ai peidio, a
  - (ii) wedi cydymffurfio â gofynion rheoliadau 12(2) a 13(1).
- (5) At ddibenion paragraff (4)(c)—
- (a) mae rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn gymwys fel pe bai'r digwyddiad yn ymgymeriad a wneir gan y person sy'n ei drefnu;
  - (b) mae rheoliad 12(2) o'r Rheoliadau hyn yn gymwys fel pe bai'r man lle y mae'r digwyddiad yn digwydd yn fangre agored y mae'r person sy'n trefnu'r digwyddiad yn gyfrifol amdani.”

(6) Yn rheoliad 18(9B), yn lle “achos o dan unrhyw ddeddfiad ac eithrio'r” rhodder “unrhyw achos ac eithrio achos o dan y”.

### **Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol**

3. Mae rheoliadau 20 ac 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai'r diwygiadau hynny wedi eu gwneud.

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

Am 11.00 a.m. ar 21 Awst 2020

---

(1) O.S. 1999/3242. Diwygiwyd rheoliad 3 gan O.S. 2005/1541, O.S. 2015/21 ac O.S. 2015/1637.

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020.

**Vaughan Gething**

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

21 Awst 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Yn benodol, maent o'r farn y dylid llacio'r cyfyngiadau a geir yn y prif reoliadau cyn gynted ag y bernir nad yw bellach yn angenrheidiol nac yn gymesur eu cadw ar eu ffurf bresennol.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

### Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu'r gofynion a wnaed drwy'r Rheoliadau gwreiddiol yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

##### **1. Aelwydydd Estynedig**

Ers 6 Gorffennaf, mae dwy aelwyd ar wahân yng Nghymru wedi gallu uno i ffurfio un aelwyd estynedig. Mae hyn yn caniatáu i bobl yn yr aelwydydd hynny gael yr un rhyddid cyfreithiol ag sydd gan bobl sy'n byw mewn aelwydydd unigol ar hyn o bryd – megis gallu cwrdd â'i gilydd o dan do, cael cyswllt corfforol, mynd i leoedd gyda'i gilydd ac aros yng nghartrefi ei gilydd.

Bydd y diwygiadau yn caniatáu i hyd at bedair aelwyd uno â'i gilydd mewn aelwyd estynedig. Gallai hyn olygu dwy aelwyd estynedig bresennol yn uno â'i gilydd neu bedair aelwyd nad ydynt mewn trefniant aelwyd estynedig yn barod i ffurfio un aelwyd estynedig (neu ymuno ag aelwyd estynedig bresennol).

##### **2. Ymgynnull o dan do**

Bydd y diwygiadau yn caniatáu i bobl ymgynnull o dan do ar gyfer derbyniad priodas bach neu de angladd sy'n gysylltiedig â phriodas, seremoni partneriaeth sifil neu angladd sydd wedi digwydd ar neu ar ôl 22 Awst 2020. Diben hyn yw caniatáu i'r digwyddiadau bywyd pwysig hyn gael eu nodi. Y bwriad yw y bydd canllawiau yn nodi sut y gellir cynnal y cynulliadau hyn yn ddiogel, er enghraifft drwy wahardd canu a dawnsio.

##### **3. Ymgynnull yn yr awyr agored**

Bydd y diwygiad i'r prif Reoliadau yn caniatáu i beilot o nifer bach o ddigwyddiadau ar gyfer hyd at 100 o wylwyr gael eu cynnal, gyda chytundeb penodol Llywodraeth Cymru.

Er nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu caniatáu i ddigwyddiadau awyr agored gael eu cynnal yn gyffredinol eto, drwy gymryd y camau hyn, darperir cyfle i ddysgu sut y gall lliniaru weithio'n effeithiol ac adlewyrchu ar hynny.

Mae'r dull hwn yn cynnig hyblygrwydd i'r digwyddiadau gael eu diwygio pe bai anawsterau'n codi gyda'r rhai a nodwyd, a phe bai gweithgareddau peilot eraill yn cael eu nodi, gallai Gweinidogion gytuno iddynt heb orfod gwneud diwygiadau pellach i'r rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio rheoliad 18(9B) o'r prif Reoliadau i'w gwneud yn glir nad yw gwybodaeth ac atebion a roddir o dan reoliad 18(7A) yn dderbyniol mewn unrhyw achos ac eithrio achos o dan y prif Reoliadau. Mae hyn yn ymateb i bwynt craffu technegol a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei adroddiad drafft ar ddiwygiadau a wnaed gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020.

Daw'r Rheoliadau i rym ddechrau dydd Sadwrn, 22 Awst 2020.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Aseiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod llacio ac addasu'r cyfyngiadau drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## **5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â'r ymateb hwnnw, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau yn y Rheoliadau gwreiddiol drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU.

Mae'r Prif Weinidog, ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Nododd y Prif Weinidog, yn ei gynhadledd i'r wasg ar 14 Awst, y bwriad i wneud y newidiadau a gyflawnir drwy'r Rheoliadau a wneir heddiw, os byddai'r amgylchiadau'n caniatáu hynny. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoedduswydd eang wedyn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn ei gynhadledd i'r wasg ar 21 Awst.

## **6. Aseiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill**

Ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi<sup>1</sup>. I grynhoi, dylai'r Rheoliadau hyn gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb o ystyried eu bod yn caniatáu i nifer mwy o bobl ymgynnull mewn amrywiol amgylchiadau, sy'n bwysig ar gyfer llesiant llawer o wahanol gategorïau o bobl sydd wedi ei chael hi'n anodd yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau.

---

<sup>1</sup> Bydd ar gael yn <https://llyw.cymru/asesiadau-or-ffaith-ar-gydraddoldeb-coronafeirws>



Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

21 Awst 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 22 Awst 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 11 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn sesiwn adalw'r Cyfarfod Llawn ar 22 Medi 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Adolygiad o'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau  
Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

**DYDDIAD** 21 Awst 2020

**GAN** Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn gosod cyfres o gyfyngiadau ar gynulliadau a symudiadau gan bobl, ac ar weithredoedd busnesau, gan gynnwys eu cau. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sydd ar agor gymryd camau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Eu nod yw diogelu pobl rhag lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y gofynion a'r cyfyngiadau yn y rheoliadau, a pha mor gymesur ydynt, bob 21 o ddiwrnodau.

Mae'r cyngor gwyddonol a meddygol yn parhau i ddangos bod lefelau trosglwyddo'r coronafeirws yn isel yn Nghymru. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn nifer yr achosion yn ardaloedd eraill y DU a thu hwnt yn dal i'n hatgoffa nad yw'r feirws wedi diflannu. Rydym yn dysgu gwersi o'r hyn sy'n digwydd yn y lleoedd hynny, sy'n awgrymu bod cynulliadau o bobl dan do yn parhau i fod yn risg sylweddol.

Mae'n flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru y dylai ysgolion yng Nghymru allu agor ym mis Medi yn ôl y bwriad. Mae'r holl lacio yr ydym yn ei wneud i'r cyfyngiadau yn cael effaith ar y cyfraddau trosglwyddo a'r hyblygrwydd sydd ar gael inni. Byddwn yn defnyddio'r hyblygrwydd sydd gennym i sicrhau y gall plant ailafael yn eu haddysg fis nesaf.

Yn unol â'r cyngor a gafwyd gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a'r dystiolaeth wyddonol am y risgiau o leoliadau dan do, nid yw'r amodau yn caniatáu imi lacio'r cyfyngiadau cyffredinol ar allu pobl i gwrdd o dan do ar hyn o bryd. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd newidiadau'n cael eu gwneud pan fydd hynny'n ddiogel.



Mae hyn yn dal i olygu bod rhaid inni beidio ag ymweld â phobl eraill yn eu cartrefi oni bai ein bod yn rhan o aelwyd estynedig gyda nhw neu'n darparu gofal. Mae hefyd yn golygu na allwn ond ymweld â busnes neu safle y tu mewn, megis tafarn neu fwyty, gydag aelodau o'n haelwyd ein hunain neu'n haelwyd estynedig. Mae'n bosibl, wrth gwrs, cyfarfod â gwahanol bobl yn yr awyr agored gan gofio cadw pellter cymdeithasol.

Rwy'n gwerthfawrogi pa mor anodd yw'r cyfyngiadau parhaus hyn a'r effeithiau negyddol y gallent eu cael ar les pobl. Felly, yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn, rwy'n awyddus i lacio cyfyngiadau i gydnabod y pwysigrwydd y mae pawb yn ei roi ar y gallu i dreulio amser gyda theulu a ffrindiau.

Gallaf gadarnhau y bydd hyd at bedair aelwyd yn gallu uno â'i gilydd i greu aelwyd estynedig o ddydd Sadwrn 22 Awst. Gall aelwyd estynedig o'r math hwn fod ar ffurf dwy aelwyd estynedig sy'n bodoli eisoes, neu aelwydydd nad ydynt eisoes wedi creu aelwyd estynedig yn uno ag aelwyd estynedig newydd neu bresennol.

Mae creu aelwydydd estynedig wedi galluogi i deuluoedd ailuno ac wedi helpu'r rheini sy'n dioddef unigrwydd ac arwahanrwydd. Maent hefyd wedi cefnogi trefniadau gofalu. Fodd bynnag, rwy'n gwybod bod teuluoedd wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd wrth benderfynu pwy i greu aelwyd estynedig â nhw.

Bydd y newid hwn o fudd i'r rhai nad oeddent wedi gallu ffurfio aelwyd estynedig cyn hyn yn ogystal â chynnig cyfleoedd i bobl gwrdd â mwy o ffrindiau a theulu. Bydd mwy o bobl yn gallu ymweld â'i gilydd o dan do, mynd allan a gwneud pethau gyda'i gilydd, ac aros dros nos heb gadw pellter cymdeithasol.

Bydd newidiadau hefyd yn cael eu gwneud i'r rheoliadau i ganiatáu ar gyfer cynnal rhai dathliadau dan do cyfyngedig yn dilyn priodas, partneriaeth sifil, neu angladd ar gyfer hyd at 30 o bobl o 22 Awst. Ar hyn o bryd, bydd y rhain yn gyfyngedig o ran cwmpas, megis pryd o fwyd wedi'i drefnu mewn gwesty neu fwyty, a rhaid iddynt ddigwydd mewn lleoliad a reoleiddir. Bydd hyn yn sicrhau bod pob mesur rhesymol yn cael ei gymryd i gyfyngu ar y risg o haint a lledaenu coronafeirws. Byddwn yn dysgu gwersi o'r llacio hwn i ystyried sut y gellid eu cymhwyso i ddigwyddiadau eraill yn y dyfodol.

Mae'r risg o ddal coronafeirws yn llawer is yn yr awyr agored, sydd wedi golygu ein bod wedi gallu llacio cyfyngiadau'n gyflymach yn y lleoliadau hynny. Ein hymagwedd drwy gydol y broses hon fu cynllunio, cynnal gweithgareddau peilot pan fo angen er mwyn dysgu gwersi, ac yna llacio cyfyngiadau ymhellach. Dros yr wythnosau nesaf, byddwn yn cynnal rhai digwyddiadau peilot yn yr awyr agored i hyd at 100 o bobl.

Ein nod yw gwneud hyn drwy gynigion sy'n cael eu datblygu ar gyfer:

- Digwyddiadau theatr awyr agored a drefnir gan Theatr Clwyd (dros benwythnosau yn dechrau dydd Gwener 27 Awst);
- Rali ceir ar raddfa fach yn Nhrac Môn, Ynys Môn;
- Cystadleuaeth 'dychwelyd i rasio' Triathlon Cymru ym Mharc Gwledig Pen-bre.

I fod yn glir, ni fydd unrhyw ddigwyddiadau awyr agored eraill o'r math hwn yn cael eu caniatáu yn ystod y tair wythnos nesaf. Mae'r digwyddiadau peilot hyn yn cael eu treialu er mwyn ein galluogi ni i ddysgu gwersi yn y gobaith y gallwn ganiatáu rhagor o ddigwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.

Gan edrych ymlaen at weddill y cyfnod adolygu tair wythnos, byddwn yn defnyddio'r amser hwn i edrych ar sut y gallwn ailddechrau cynnal mwy o weithgarwch dan do yn ddiogel. Mae hyn yn baratoad pwysig ar gyfer yr hydref a'r gaeaf pan fydd llai o opsiynau i gwrdd yn yr awyr agored.

Mae nifer o bobl, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn, wedi mynegi pryder cynyddol am yr effaith y mae'r cyfyngiadau ar ymweld â chartrefi gofal yn ei chael ar iechyd emosiynol, iechyd meddwl a hyd yn oed iechyd corfforol pobl. Rwy'n deall y trallod y mae hyn yn ei achosi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i ddatblygu canllawiau sy'n amlinellu'r ystyriaethau caeth y dylai darparwyr cartrefi gofal gadw atynt er mwyn gallu ailddechrau caniatáu ymweliadau dan do yn ddiogel. Mae pawb yn awyddus i sicrhau ein bod yn atal y feirws rhag lledaenu ymysg y dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed.

Ein bwriad yw trefnu i ymweliadau dan do ailddechrau o ddydd Sadwrn 29 Awst os yw'r amodau'n parhau i fod yn ffafriol ac y cedwir at y rheolau caeth yn y canllawiau.

Ar yr amod bod y gwaith paratoi terfynol wedi'i gwblhau, fe fydd casinos yng Nghymru hefyd yn gallu ailagor ar ddydd Sadwrn 29 Awst.

Unwaith eto, rwy'n ddiolchgar i bobl Cymru am eu cefnogaeth wrth i ni Ddiogelu Cymru gyda'n gilydd.

# Eitem 3.5

## **SL(5)602 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020**

### **Cefndir a diben**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau:

- yn darparu na chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiadau cerddorol penodol sydd heb eu trwyddedu (o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 14B o'r prif Reoliadau fel y'i mewnosodir gan reoliad 2(7) o'r Rheoliadau hyn). Mae person sy'n methu â chydymffurfio â'r cyfyngiad yn cyflawni trosedd o dan reoliad 20(1)(b) o'r prif Reoliadau, a chaiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad cosb benodedig gwerth £10,000 o dan reoliad 21 i unrhyw un y mae'r swyddog yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni'r drosedd,
- yn darparu bod gan bobl esgus rhesymol (o dan reoliad 14 o'r prif Reoliadau) i ymgynnull o dan do i ymweld â phreswlydd mewn cartref gofal, hosbis, neu lety diogel i blant,
- yn egluro bod gan bobl hefyd esgus rhesymol i ymgynnull i gael gafael ar wasanaethau addysgol (o dan do fel esgus rhesymol o dan reoliad 14 o'r prif Reoliadau, ac yn yr awyr agored fel esgus rhesymol o dan reoliad 14A o'r Rheoliadau hynny, fel ei gilydd),
- yn caniatáu i gasinos agor, ond rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre.
- yn gwneud newidiadau technegol eraill, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ganlyniadol ar y diwygiadau eraill a wneir gan y Rheoliadau hyn.

### **Gweithdrefn**

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.



## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nii fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai'r rheswm am hyn yw'r "bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â'r ymateb hwnnw".

Ymhellach, esbonir "yn ehangach, [y] cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau yn y Rheoliadau gwreiddiol drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a'r Prif Weinidog. Wrth wneud y Rheoliadau yr wythnos hon cafwyd trafodaethau parhaus â'r Prif Gwnstabiliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru ynghylch y tebygolrwydd y bydd digwyddiadau cerddoriaeth didrwydded yn cael eu cynnal yng Nghymru, a'r risg y bydd trefnwyr yn symud digwyddiadau o Loegr i Gymru pe na bai darpariaeth gyfatebol yn cael ei gwneud ar gyfer Cymru. Mae pob un o'r pedwar heddlu o blaid cyflwyno'r drosedd newydd drwy Reoliadau'r wythnos hon."

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i lunio ac y bydd yn cael ei gyhoeddi.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**8 Medi 2020**





Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Tudalen y pecyn 188**

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 912 (Cy. 204)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7)  
2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

- (a) yn darparu na chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiadau cerddorol penodol sydd heb eu trwyddedu (o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 14B o'r prif Reoliadau fel y'i mewnosodir gan reoliad 2(7) o'r Rheoliadau hyn). Mae person sy'n methu â chydymffurfio

â'r cyfyngiad yn cyflawni trosedd o dan reoliad 20(1)(b) o'r prif Reoliadau, a chaiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad cosb benodedig o dan reoliad 21 i unrhyw un y mae'r swyddog yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni'r drosedd,

- (b) yn darparu bod gan bobl esgus rhesymol (o dan reoliad 14 o'r prif Reoliadau) i ymgynnull o dan do i ymweld â phreswlydd mewn cartref gofal, hosbis, neu lety diogel i blant,
- (c) yn egluro bod gan bobl hefyd esgus rhesymol i ymgynnull i gael gafael ar wasanaethau addysgol (o dan do fel esgus rhesymol o dan reoliad 14 o'r prif Reoliadau, ac yn yr awyr agored fel esgus rhesymol o dan reoliad 14A o'r Rheoliadau hynny, fel ei gilydd),
- (d) yn caniatáu i gasinos agor, ond rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre,
- (e) yn gwneud newidiadau technegol eraill, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ganlyniadol ar y diwygiadau eraill a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 912 (Cy. 204)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7)  
2020**

*Gwnaed* 27 Awst 2020

*Yn dod i rym* am 12.01 a.m. ar 28 Awst 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru* am 11.00 a.m. ar 28 Awst 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.



â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 a deuant i rym am 12.01 a.m. ar 28 Awst 2020.

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), ar ôl is-baragraff (n) mewnosoder—

- “(o) ystyr “cartref gofal” yw mangre y mae “gwasanaeth cartref gofal” o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(2) yn cael ei ddarparu ynddi;
- (p) ystyr “hosbis” yw mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu gofal lliniarol i bersonau sy'n dioddef o glefyd sy'n gwaethygu ac sydd yn ei gyfnodau olaf, gan neu ar ran sefydliad y mae darparu gofal o'r fath yn brif swyddogaeth iddo;
- (q) ystyr “llety diogel” yw mangre y mae “gwasanaeth llety diogel” o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac

- 
- (1) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/752 (Cy. 169)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/803 (Cy. 176)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/820 (Cy. 180)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/843 (Cy. 186)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/867 (Cy. 189)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/884 (Cy. 195)).
  - (2) 2016 decc 2, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2017/1326 (Cy. 299) ac O.S. 2018/195 (Cy. 44).

Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)  
2016 yn cael ei ddarparu ynddi.”

(3) Yn rheoliad 7(2)(a), yn lle “2, 5 neu 6” rhodder  
“2 neu 5”.

(4) Yn rheoliad 12(2A)—

(a) yn lle'r geiriau o flaen is-baragraff (a) rhodder  
“Mae mesurau y gellir eu cymryd o dan  
baragraff (2) hefyd yn cynnwys—”,

(b) yn is-baragraff (c), yn lle “Weinidogion  
Cymru neu i swyddog iechyd cyhoeddus ar  
gais y naill neu'r llall” rhodder

“unrhyw un o'r canlynol, ar ei gais—

(i) Gweinidogion Cymru,

(ii) swyddog iechyd cyhoeddus,

(iii) person a ddynodir gan yr  
awdurdod lleol y mae'r fangre yn  
ei ardal i brosesu gwybodaeth at  
ddibenion cysylltu â phersonau a  
all fod wedi dod i gysylltiad â'r  
coronafeirws”.

(5) Yn rheoliad 14(2)—

(a) ar ôl is-baragraff (ja) mewnosoder—

“(jb)cael gwasanaethau addysgol;”,

(b) ar ôl is-baragraff (p) mewnosoder—

“(q) ymweld â pherson sy'n preswyllo  
mewn cartref gofal, hosbis, neu lety  
diogel.”

(6) Yn rheoliad 14A(2), ar ôl is-baragraff (e)  
mewnosoder—

“(f) cael gwasanaethau addysgol.”

(7) Ar ôl rheoliad 14A mewnosoder—

**“Cyfyngiad ar drefnu digwyddiadau  
cerddorol penodol sydd heb eu trwyddedu**

**14B.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus  
rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiad  
cerddorol perthnasol sydd heb ei drwyddedu.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr  
“digwyddiad cerddorol perthnasol sydd heb ei  
drwyddedu” yw digwyddiad—

(a) sy'n cynnwys mwy na 30 o bobl,

(b) lle y mae pobl yn ymgynnull yn groes i  
reoliad 14(1) neu 14A(1),

(c) lle y mae cerddoriaeth yn cael ei  
chwarae neu ei pherfformio at ddiben  
adloniant, neu at ddibenion sy'n  
cynnwys y diben hwnnw, a

(d) lle o ran chwarae neu berfformio  
cerddoriaeth—

(i) y mae'n weithgarwch trwyddedadwy (o fewn ystyr Deddf Trwyddedu 2003(1)), a

(ii) nas cynhelir o dan nac yn unol ag awdurdodiad (o fewn yr ystyr a roddir i "authorisation" gan adran 136(5) o'r Ddeddf honno).

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, nid yw person yn ymwneud â threfnu digwyddiad cerddorol perthnasol sydd heb ei drwyddedu os nad yw'r person ond yn ymwneud â'r digwyddiad, neu na fyddai ond yn ymwneud â'r digwyddiad, drwy fynd iddo.

(4) At ddibenion paragraff (1), mae esgus rhesymol yn cynnwys pan fo'r person wedi cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau nad oedd pobl yn ymgynnull yn y digwyddiad yn groes i reoliad 14(1) neu 14A(1)."

(8) Yn rheoliad 18, ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(5A) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person yn torri, neu ar fin torri, rheoliad 14B(1), caiff y swyddog—

(a) cyfarwyddo'r person i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i stopio neu atal y toriad;

(b) mynd â'r person o leoliad neu leoliad arfaethedig y digwyddiad y mae'r swyddog yn amau ei fod yn cael ei drefnu, neu'n amau ei fod ar fin cael ei drefnu, yn groes i reoliad 14B(1) (a chaiff y swyddog ddefnyddio grym rhesymol i wneud hynny)."

(9) Yn rheoliad 20—

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "14(1) neu 14A(1)" rhodder "14(1), 14A(1) neu 14B(1)",

(b) ym mharagraff (6), yn lle "baragraff 20(1)" rhodder "y Rheoliadau hyn".

(10) Yn rheoliad 21—

(a) ar ôl paragraff (7) mewnosoder—

"(7A) Pan ddyroddir yr hysbysiad mewn cysylltiad â throedd honedig o dorri rheoliad 14B(1), rhaid i'r swm a bennir o dan baragraff (7)(c) fod yn £10,000 (ac nid yw paragraffau (9) a (10) yn gymwys).";

(b) ym mharagraff (8), yn lle "Rhaid" rhodder "Mewn unrhyw achos arall, rhaid";

---

(1) 2003 p. 17.

(c) ym mharagraff (11), ar ôl “ystyriaeth” mewnosoder “, ond nid oes unrhyw ystyriaeth i’w rhoi i unrhyw hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir i’r person hwnnw mewn cysylltiad â throedd honedig o dorri rheoliad 14B(1)”.

(11) Yn Atodlen 2, hepgorer paragraff 6.

(12) Yn Atodlen 4, ar ôl paragraff 44 mewnosoder—

“45. Casinos”

**Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol**

3. Mae rheoliadau 20 ac 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i’r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai’r diwygiadau hynny wedi eu gwneud.

*Vaughan Gething*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,

un o Weinidogion Cymru

27 Awst 2020

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020.

**Vaughan Gething**

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

28 Awst 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i drafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir rhoi mesurau iechyd y cyhoedd ar waith er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Yn benodol, maent o'r farn y dylid llacio'r cyfyngiadau a geir yn y prif Reoliadau cyn gynted ag y bernir nad yw bellach yn angenrheidiol nac yn gymesur eu cadw ar eu ffurf bresennol.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

### Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu'r gofynion a wnaed drwy'r Rheoliadau gwreiddiol yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae llacio cyfyngiadau penodol ar ymweliadau â chartrefi gofal, hosbisau a llety diogel yn cael effaith gadarnhaol ar hawl Erthygl 8 i barch at fywyd preifat a theuluol. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn gymesur ymateb i'r lefel bresennol o fygythiad drwy lacio'r cyfyngiadau hynny, ar y cyd â'r mesurau diogelu a nodir mewn canllawiau ategol.

Nid yw ailagor casinos yn codi unrhyw faterion newydd o ran hawliau dynol newydd, ac ystyrir ei fod yn gymesur o safbwynt iechyd y cyhoedd oherwydd y drefn arolygu a gorfodi sy'n bodoli.

Mae'r risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â digwyddiadau cerddorol heb drwydded, ynghyd â'r tebygolrwydd yn ôl cyngor y pedwar heddlu yng Nghymru y bydd y digwyddiadau hyn yn mynd rhagddynt, yn gwneud y drosedd newydd yn gam angenrheidiol a chymesur i'w gymryd yn awr. Mae'r diwygiadau hefyd yn caniatáu i'r heddlu gymryd camau ataliol i atal y digwyddiadau hyn rhag cael eu trefnu cyn iddynt ddechrau. Nid yw'n hawdd gwneud hyn o dan y ddeddfwriaeth drwyddedu bresennol ond ystyrir ei bod yn agwedd bwysig a chymesur sy'n gyson â'r nod cyffredinol o ddiogelu iechyd y cyhoedd

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn digwygio'r prif Reoliadau er mwyn:

- rhoi hawl penodol i ymweld (o dan do) â phreswylwyr a chleifion mewn cartrefi gofal, hosbisau a llety diogel. Cyn y newidiadau hyn ni fyddai wedi bod yn glir a oedd ymgynnull o dan do at ddibenion ymweld â theulu a ffrindiau mewn cartrefi gofal a lleoliadau tebyg yn esgus rhesymol. Er bod nifer o gartrefi gofal yn caniatáu ymweliadau mewn amgylchiadau cyfyngedig ac yn yr awyr agored yn gyffredinol, mae'n bwysig sicrhau bod cysylltiadau teuluol a chymdeithasol hanfodol yn cael eu cynnal. Mae'r amgylchiadau bellach yn caniatáu ar gyfer hyn, ac felly mae'r diwygiadau i'r prif Reoliadau yn creu esgus rhesymol newydd penodol dros ymgynnull o dan do, at ddibenion ymweld â chartref gofal, hosbis neu safle sy'n darparu llety diogel.
- ailagor casinos. Nid yw lleoliadau o'r fath wedi cael agor ers diwedd mis Mawrth 2020, ac mae gwaith wedi bod ar y gweill gyda'r sector i'w galluogi i agor yn ddiogel. Mae'r Cyngor Betio a Hapchwarae (corff ymbarél y sector) wedi datblygu canllawiau aelodaeth (ar lefel y DU) sy'n nodi gweithgarwch iechyd a rheoli risg sy'n benodol i'w gweithrediadau, gyda'r nod o gadw'u gweithwyr a'u cwsmeriaid yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys canllawiau penodol i Gymru sydd wedi'u datblygu i adlewyrchu gofynion y prif Reoliadau.

- creu trosedd newydd o drefnu (neu o ymwneud â chynnal) digwyddiad cerddorol heb ei drwyddedu sy'n groes i reoliad 14(1) neu 14A(1) o'r prif Reoliadau. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod digwyddiadau'n cael eu trefnu mewn gwahanol rannau o Gymru yn groes i'r prif Reoliadau, a rhywfaint o risg bod diffyg cosbau cymaradwy am drefnu'r digwyddiadau hyn yng Nghymru a Lloegr yn golygu y gallai fod cymhelliad i drefnwyr y digwyddiadau eu trefnu yng Nghymru. Er bod cymryd rhan mewn digwyddiadau o'r fath eisoes yn anghyfreithlon, nid oedd modd hyd yma osod unrhyw sancsiwn penodol ar y rhai sy'n peryglu iechyd y cyhoedd drwy drefnu'r digwyddiadau hyn. Mae'r drosedd newydd yn sicrhau y gellir cymryd camau yn erbyn y rhai sy'n trefnu digwyddiadau a daeth i rym cyn Gŵyl Banc mis Awst, gan fod hwn yn gyfnod sy'n gallu bod yn un hynod o brysur ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth heb ei drwyddedu.

Mae cyflawni'r drosedd yn ddarostyngedig i fod ag esgus rhesymol. Mae hyn yn gyson â'r modd yr ymdriniwyd â throseddau o dan y prif Reoliadau hyd yma.

Gellir rhoi hysbysiad cosb benodedig o £10,000 o dan reoliad 20, mewn perthynas â'r drosedd newydd hon.

Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud yn darparu hefyd bod modd i'r drosedd gael ei chyflawni gan gorff corfforaethol (drwy ddiwygio rheoliad 20(6)). Cydnabyddir y gallai corff corfforaethol hefyd gyflawni troseddau o dan Atodlen 5 i'r Rheoliadau (h.y. peidio â chydymffurfio â hysbysiad cau), ac felly mae'r diwygiad sy'n cael ei wneud yn awr yn adlewyrchu hynny hefyd.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud newidiadau technegol a chanlyniadol amrywiol i'r prif Reoliadau, yn arbennig –

- ychwanegu esgus rhesymol pellach i ymgynnull o dan do, h.y. "am resymau addysgol". Mae hyn er mwyn cadarnhau y tu hwnt i amheuaeth y caiff unigolion sy'n defnyddio rhai gwasanaethau addysgol (er enghraifft, ysgolion preifat a rhai sefydliadau addysg bellach/addysg uwch) ymgynnull o dan do at y dibenion hynny.
- darparu bod casglu gwybodaeth wrth olrhain cysylltiadau yn digwydd nid yn unig i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws ar y safle ond hefyd (ac yn fwy priodol) i leihau'r risg o ledaenu'r feirws. Ymhellach, er mwyn adlewyrchu nad Gweinidogion Cymru a phersonau a ddynodwyd yn swyddogion iechyd y cyhoedd o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn unig sy'n casglu ac yn prosesu gwybodaeth olrhain cysylltiadau, mae'r darpariaethau bellach yn cyfeirio at bersonau a ddynodwyd gan awdurdod lleol at y diben hwn.

Daw'r Rheoliadau i rym ddechrau dydd Gwener, 28 Awst 2020.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol



Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod llacio ac addasu'r cyfyngiadau drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## **5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â'r ymateb hwnnw, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau yn y Rheoliadau gwreiddiol drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU. Wrth wneud y Rheoliadau yr wythnos hon cafwyd trafodaethau parhaus â'r Prif Gwnstabiliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru ynghylch y tebygolrwydd y bydd digwyddiadau cerddoriaeth didrwydded yn cael eu cynnal yng Nghymru, a'r risg y bydd trefnwyr yn symud digwyddiadau o Loegr i Gymru pe na bai darpariaeth gyfatebol yn cael ei gwneud ar gyfer Cymru. Mae pob un o'r pedwar heddlu o blaid cyflwyno'r drosedd newydd drwy Reoliadau'r wythnos hon.

Mae'r Prif Weinidog, ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Nododd y Prif Weinidog, yn ei gynhadledd i'r wasg ar 21 Awst, y bwriad i wneud rhai o'r newidiadau a gyflawnir drwy'r Rheoliadau a wneir heddiw, o ran casinos ac ymweliadau â chartrefi gofal, os byddai'r amgylchiadau'n caniatáu hynny. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang wedyn.

## **6. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i lunio a bydd yn cael ei gyhoeddi.

Ni chredir bod y Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effeithiau anghymesur o negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Disgwylir y bydd y mesurau sy'n caniatáu ymweliadau o dan do â phreswylwyr cartrefi gofal, hosbisau a llety diogel yn cael effeithiau dosbarthiadol cadarnhaol o ran yr henoed, pobl ag anableddau (yn enwedig y rhai â dementia), a phlant. Bydd y llacio arfaethedig yn golygu bod modd

ymdrin â theimladau o unigrwydd ymhlith pobl sydd mewn gofal a gwella eu llesiant hwy a'u teuluoedd/ffrindiau.



Elin Jones, AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

27 Awst 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y ddechrau ar 28 Awst 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 11 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn sesiwn adalw'r Cyfarfod Llawn ar 22 Medi 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Vaughan Gething AS/MS**  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 202**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

|                |   |
|----------------|---|
| <b>TEITL</b>   | <b>Adolygiad Interim o'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020</b> |
| <b>DYDDIAD</b> | <b>27 Awst 2020</b>   |
| <b>GAN</b>     | <b>Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</b>                               |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn gosod cyfres o gyfyngiadau ar gynulladau a symudiadau gan bobl, ac ar weithredoedd busnesau, gan gynnwys eu cau. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sydd ar agor gymryd camau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Eu nod yw diogelu pobl rhag lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y gofynion a'r cyfyngiadau yn y rheoliadau, a pha mor gymesur ydynt, bob 21 o ddiwrnodau. Cynhaliwyd yr adolygiad llawn diwethaf – y seithfed – ar 20 Awst ac amlinellwyd y newidiadau a gynlluniwyd ar gyfer yr wythnos hon gan gymryd bod yr amodau'n parhau i fod yn ffafriol.

Mae'r cyngor gwyddonol a meddygol yn dangos, yn gyffredinol, bod trosglwyddiad coronafeirws yng Nghymru yn isel. Rydym yn parhau i fod yn bryderus am y sefyllfaoedd sy'n datblygu ar draws y DU a gweddill y byd.

Rydym yn gwneud newidiadau i'r rheoliadau ddydd Gwener 28 Awst a fydd yn caniatáu ar gyfer ymweliadau â phreswylwyr mewn cartrefi gofal (oedolion a phlant), hosbisau, neu wasanaethau llety diogel i blant. Paratowyd canllawiau gyda'r diwydiant i reoli'r risgiau a bydd pob lleoliad yn rhoi eu trefniadau eu hunain ar waith ar gyfer ymweliadau. Mae'r newid hwn yn esbonio y caniateir ymweliadau yn unol â'r rheolau ond mai'r sefydliadau unigol fydd yn penderfynu pa bryd y byddant yn gallu hwyluso gweithgarwch o'r fath. Oherwydd y manteision i lesiant y preswylwyr, rwy'n gobeithio y gall llawer o gartrefi ddiweddarau eu gweithdrefnau'n gyflym i alluogi cynnal ymweliadau dan do yn ddiogel. Fodd bynnag, rwy'n gwerthfawrogi pryder rhai

darparwyr am y newid sylweddol hwn, ac y bydd angen mwy o amser ar rai ohonynt i roi'r trefniadau ar waith.

Caniateir i gasinos agor hefyd, wedi iddynt roi mesurau lliniaru ac addasiadau ar waith i leihau'r risgiau. Bydd manylion cyswllt yn cael eu casglu a chyfyngir ar y nifer o bobl a ganiateir ym mhob lleoliad ar unwaith.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r heddlu, rydym hefyd yn diwygio'r rheoliadau i wahardd trefnu digwyddiadau cerddoriaeth heb drwydded (sef digwyddiad nad yw wedi'i drwyddedu neu ei awdurdodi o dan Ddeddf Trwyddedu 2003) ar gyfer mwy na 30 o bobl. Os bydd rhywun yn mynd yn groes i'r gwaharddiad hwn gellir ei gosbi drwy euogfarn a dirwy diderfyn neu, fel dewis arall i euogfarn, cosb benodedig o £10.000. Mae hyn yn rhoi pwerau cymharol gyfwerth i'r heddlu â'r pwerau sy'n cael eu cyflwyno ar yr un pryd yn Lloegr. Bydd yr heddlu'n defnyddio egwyddorion Ymgysylltu, Esbonio, Annog a Gorfodi er mwyn gweithredu mewn modd cymesur.

Nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r rheolau ar gyfer cynulliadau o bobl yn ddiweddar. Ni ddylai pobl ymgynnull mewn grwpiau o fwy na 30 o bobl yn yr awyr agored na chwrdd o dan do â phobl nad ydynt yn rhan o'u haelwyd neu aelwyd estynedig. Felly mae'n drosedd i wneud hynny heb esgus rhesymol, fel yn yr amgylchiadau cyfyngedig a nodwyd yn y rheoliadau.

Mae'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol wedi ystyried y newidiadau hyn ac wedi rhoi gwybod eu bod yn fesurau cymesur a phwyllog sy'n gyson â'r nod cyffredinol o reoli'r pandemig.

Nid yw'r coronafeirws wedi diflannu – mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb parhaus i ddiogelu Cymru gyda'n gilydd.

## SL(5)601 – Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

### Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

Mae paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn rhestru deddfiadau y gall Gweinidogion Cymru eu haddasu, a'r modd y gellir eu haddasu, am gyfnod penodedig trwy hysbysiad. Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu'r darpariaethau canlynol at y rhestr hon:

- Adran 69 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 sy'n darparu ar gyfer dyletswydd i sicrhau darpariaeth briodol o addysg grefyddol;
- Adran 43 o Ddeddf Addysg 1997 sy'n gosod dyletswydd i ddarparu addysg yrfaeodd mewn ysgolion yng Nghymru;
- Adran 101 o Ddeddf Addysg 2002 sy'n darparu ar gyfer cwricwlwm sylfaenol ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru;
- Adrannau 109 a 110 o Ddeddf Addysg 2002 sy'n gosod dyletswyddau i weithredu Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru mewn ysgolion ac ysgolion meithrin; ac
- Adrannau 116A i 116K o Ddeddf Addysg 2002 sy'n delio â ffurfio a darparu cwricwla lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4.

Effaith Rheoliad 2 yw y caniateir i Weinidogion Cymru addasu unrhyw un o'r dyletswyddau uchod trwy rybudd, ond dim ond fel y gellir eu cyflawni os defnyddiwyd ymdrechion rhesymol i'w cyflawni.

Cafodd yr hysbysiad cysylltiedig, [Hysbysiad Addasu Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020](#), ei gyhoeddi ar 27 Awst 2020 ar wefan Llywodraeth Cymru ar 28 Awst 2020. Mae'r hysbysiad hefyd yn addasu adran 108 o Ddeddf Addysg 2002, a oedd eisoes wedi'i rhestru ym mharagraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

### Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 40 diwrnod (ac eithrio toriad o fwy na phedwar diwrnod) gan ddechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai bod y Rheoliadau, yn ystod y cyfnod hwnnw, yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd.



## Materion technegol: craffu

Nodir y ddau bwynt canlynol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 2 yn ychwanegu darpariaethau rhai deddfiadau at y rhestr o ddeddfiadau ym mharagraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020. Mae'r rhestr ym mharagraff 7(6) yn rhedeg yn nhrefn amser. Fodd bynnag, mae Rheoliad 2 yn ychwanegu adran 43 o Ddeddf Addysg 1997 at y rhestr ar ôl Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Gall hyn beri dryswch i unrhyw un sy'n chwilio paragraff 7(6) am gyfeirnod statudol penodol. Byddai esboniad yn cael ei groesawu o ran pam mae'r Rheoliadau'n gwyro o'r drefn gronolegol a ddefnyddir yn y rhestr ym mharagraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

### **2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg**

Yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau, mae'r troednodyn yn rheoliad 2(2) yn anghywir. Ymddengys ei fod yn cyfeirio at Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn lle Deddf Addysg 1996. Gall hyn beri dryswch i rai o ddarllenwyr y Rheoliadau. Nid yw'r gwall hwn yn cael ei ailadrodd yn fersiwn Saesneg y Rheoliadau.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt canlynol i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hyn yn sgil y sefyllfa ddigynsail a grëwyd gan bandemig y Coronafeirws a'r amserlenni heriol ar gyfer gwneud y Rheoliadau.

Nodir bod ymgysylltiad rheolaidd wedi digwydd gyda chyrrff cynrychioli allweddol fel ADEW (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru) a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, i helpu i lywio'r cynigion polisi ynghylch gofynion deddfwriaethol a gaiff eu haddasu neu eu datgymhwyso. Mae'r trafodaethau hyn wedi helpu i lywio'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau hyn.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi na chwblhawyd asesiad effaith reoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn gan nad oes unrhyw gostau na buddion cysylltiedig. Nid yw'r Rheoliadau hyn ond yn ychwanegu meysydd at y rhestr o ddeddfiadau ym mharagraff 7(6) y gall Gweinidogion Cymru wneud hysbysiadau yn eu cylch i addasu gofynion statudol.



Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i nodi y bydd effaith y rhain yn cael ei nodi mewn asesiad effaith integredig mewn perthynas ag unrhyw hysbysiadau a wneir.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Ymateb y Llywodraeth

Pwynt craffu technegol 1:

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw'r cofnod ar gyfer adran 43 o Ddeddf Addysg 1997 yn y tabl ym mharagraff 7(6) yn ymddangos mewn trefn gronolegol. Mae hyn yn anghyson â fformat y tabl. Fodd bynnag, er nad yw'r cofnod mewn trefn gronolegol, nid yw hyn yn golygu bod y cofnod yn aneffeithiol, ac nid yw hyn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw hysbysiad a ddyroddir sy'n dibynnu ar y cofnod.

Pwynt craffu technegol 2:

Mae'r pwynt adrodd yn nodi bod y troednodyn yn darparu'r cyfeiriad anghywir. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno. Mae'r troednodyn yn cyfeirio at y cyfeiriad at Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn y Rhaglith. Mae cyfeiriad pellach mewn troednodyn yn rheoliad 2(2) at Ddeddf Addysg 1996. Ymddengys fod gwall fformatio dros dro wedi digwydd yn ystod y broses gofrestru yn y fersiwn dros dro a ystyriwyd gan y Pwyllgor, gan ei fod wedi ei rifo'n droednodyn (1) hefyd. Mae'r troednodyn sy'n darparu'r cyfeiriad yn ymddangos ar y dudalen nesaf. Mae hyn bellach wedi cael ei gywiro gan Argraffydd y Frenhines yn ystod y broses gyhoeddi, ac mae'n gywir yn y fersiwn swyddogol a gyhoeddwyd yn y fformat dwy golofn ac sydd hefyd ar gael ar [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk).

### Cynghorwyr Cyfreithiol

#### Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3 Medi 2020





*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ac a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 (p. 7), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 40 niwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 891 (Cy. 197)**

**ADDYSG, CYMRU**

**Rheoliadau Gofynion y  
Cwricwlwm (Diwygio paragraff  
7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y  
Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r tabl ym mharagraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") yn nodi'r deddfiadau y caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad o dan baragraff 7(1)(b) o'r Atodlen honno, eu haddasu am gyfnod a bennir yn yr hysbysiad, ac ym mha fodd y caniateir i'r deddfiadau hynny gael eu haddasu.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r tabl i ychwanegu cofnodion newydd ar gyfer—

- adran 69 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (dyletswydd i sicrhau darpariaeth ddyladwy addysg grefyddol);
- adran 43 o Ddeddf Addysg 1997 (darparu addysg gyrfaoedd mewn ysgolion yng Nghymru);
- adran 101 o Ddeddf Addysg 2002 (cwricwlwm sylfaenol ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru);
- adran 109 o Ddeddf Addysg 2002 (gweithredu Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru mewn ysgolion);
- adran 110 o Ddeddf Addysg 2002 (gweithredu Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad ag ysgolion meithrin etc); ac

- adrannau 116A i 116K o Ddeddf Addysg 2002 (cwricwla lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4).

Mae'r cofnodion newydd hyn yn nodi'r addasiadau y caniateir eu gwneud i'r deddfiadau hynny drwy hysbysiad o dan baragraff 7(1)(b) o Atodlen 17 i Ddeddf 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o gostau a manteision y Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ac a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 (p. 7), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 40 niwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 891 (Cy. 197)**

**ADDYSG, CYMRU**

**Rheoliadau Gofynion y  
Cwricwlwm (Diwygio paragraff  
7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y  
Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020**

|                                      |                     |
|--------------------------------------|---------------------|
| <i>Gwnaed</i>                        | <i>24 Awst 2020</i> |
| <i>Gosodwyd gerbron Senedd Cymru</i> | <i>25 Awst 2020</i> |
| <i>Yn dod i rym</i>                  | <i>26 Awst 2020</i> |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer eu pwerau o dan baragraff 8(1) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020(1).

**Enwi a dod i rym**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 26 Awst 2020.

**Diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020**

2.—(1) Mae'r tabl ym mharagraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl y cofnod ar gyfer adrannau 512 i 512ZB o Ddeddf Addysg 1996(1), mewnosoder—

---

(1) 2020 p. 7.

|  |  |   |
|--|--|---|
| “School Standards and Framework Act 1998 | Section 69 (duty to secure due provision of religious education) | Any duty imposed on a person by section 69(1) is to be treated as discharged if the person has used reasonable endeavours to discharge the duty.  |
| Education Act 1997                       | Section 43 (provision of careers education in schools in Wales)  | Any duty imposed on a person by section 43(3) is to be treated as discharged if the person has used reasonable endeavours to discharge the duty.” |

(3) Ar ôl y cofnod ar gyfer adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(2), mewnosoder—

|                     |   |   |
|---------------------|---|---|
| “Education Act 2002 | Section 101 (basic curriculum for every maintained school in Wales) | Any duty imposed on a person by virtue of section 101 is to be treated as discharged if the person has used reasonable endeavours to discharge the duty.” |
|---------------------|---|---|

(4) Ar ôl y cofnod ar gyfer adran 108 o Ddeddf Addysg 2002(3), mewnosoder—

|                     |   |  |
|---------------------|---|--|
| “Education Act 2002 | Section 109 (implementation of the National Curriculum for Wales in | Any duty imposed on a person by section 109 is to be treated |
|---------------------|---|--|

---

(1) 1996 p. 56.  
 (2) 2000 p. 21.  
 (3) 2002 p. 32.

|                    |   |  |
|--------------------|---|--|
|                    | schools)  | as discharged if the person has used reasonable endeavours to discharge the duty.  |
| Education Act 2002 | Section 110 (implementation of the National Curriculum for Wales in respect of nursery schools etc) | Any duty imposed on a person by section 110 is to be treated as discharged if the person has used reasonable endeavours to discharge the duty.                     |
| Education Act 2002 | Sections 116A to 116K (the local curricula)   | Any duty imposed on a person by or under sections 116A to 116K is to be treated as discharged if the person has used reasonable endeavours to discharge the duty.” |

*Kirsty Williams*  
 Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru  
 24 Awst 2020

**Memorandwm Esboniadol** ar gyfer Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm  
(Diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf Coronafeirws 2020) (Cymru)  
2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

Kirsty Williams  
25 Awst 2020

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") er mwyn ychwanegu:

- Adran 69 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac Atodlen 19 iddi,
- Adran 43 o Ddeddf Addysg 1997,
- Adrannau 101(1), 109, 110 ac 116A i 116K o Ddeddf Addysg 2002,

at y rhestr o ddeddfiadau y gellir eu haddasu gan Weinidogion Cymru am gyfnod penodol drwy hysbysiad.

Mae'r darpariaethau sy'n cael eu hychwanegu at y rhestr hon o ddeddfiadau yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, penaethiaid ac eraill mewn perthynas â'r cwricwlwm sylfaenol i Gymru. Mae'r cwricwlwm sylfaenol hwnnw yn cynnwys y canlynol:

- Addysg grefyddol
- Addysg rhyw
- Addysg gysylltiedig â gwaith
- Addysg bersonol a chymdeithasol
- Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru
- Cwricwla lleol.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud yn unol â'r weithdrefn a nodir ym mharagraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf 2020.

Fel y nodir ym mharagraff 8 o Atodlen 17, caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i drafft gael ei osod a'i gymeradwyo. Mae hyn er mwyn sicrhau bod modd addasu'r gofynion deddfwriaethol yn ymwneud â darparu'r cwricwlwm cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan ysgolion yr hyblygrwydd i ganolbwyntio ar iechyd a lles y dysgwyr, gan eu helpu i ail-integreiddio i amgylchedd yr ysgol. Bydd yr hyblygrwydd hefyd yn caniatáu i ysgolion ddatblygu cynlluniau cadarn a chilir ar lefel yr ysgol er mwyn sicrhau bod modd

parhau i ddysgu ac addysgu ym mhob sefyllfa weithredol, gan gynnwys os bydd ysgolion yn cau yn rhannol neu'n llwyr am gyfnodau, fel y gwelir yng Nghlanllawiau Dysgu Llywodraeth Cymru.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl eu gwneud. Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 40 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

### **3. Cefndir deddfwriaethol**

Mae Paragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf 2020 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu darpariaethau yn ymwneud â phlant, addysg neu hyfforddiant at y rhestr o ddeddfiadau ym mharagraff 7(6) o Ddeddf 2020 y gellir eu haddasu gan Weinidogion Cymru am gyfnod penodol drwy hysbysiad.

Gwneir y Rheoliadau hyn yn o dan y weithdrefn gadarnhaol.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf 2020 yn nodi meysydd lle gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiadau i addasu gofynion addysg statudol dros dro er mwyn helpu i liniaru effeithiau'r pandemig COVID-19 a chaniatáu i'r sector addasu i'r amgylchiadau presennol. Un o'r meysydd hyn yw adran 101 o Ddeddf Addysg 2002 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a gynhelir yng Nghymru ddarparu cwricwlwm sylfaenol gan gynnwys; y cwricwlwm cenedlaethol, addysg grefyddol, addysg bersonol a chymdeithasol, addysg gysylltiedig â gwaith ac ar gyfer ysgolion uwchradd, addysg rhyw.

Wrth baratoi ar gyfer gweld ysgolion yn dychwelyd i weithredu'n llawn, ystyriwyd y gofynion statudol presennol ac a oedd modd i ysgolion a chyrff llywodraethu eu bodloni'n effeithiol heb faich gweinyddol anghymesur ac yn unol â gofynion cadw pellter cymdeithasol. Gwelwyd bod angen addasu darpariaethau yn ymwneud â'r cwricwlwm a threfniadau asesu cysylltiedig, yn benodol:

- Adran 69 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ac Atodlen 19 iddi, ynghylch darparu addysg grefyddol.
- Adran 43 o Ddeddf Addysg 1997 ynghylch darparu addysg gyrfaoedd mewn ysgolion yng Nghymru.
- Adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002 ynghylch darparu'r cwricwlwm sylfaenol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.
- Adran 109 o Ddeddf 2002 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru gael ei roi ar waith mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, ac adran 110 sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei roi ar waith



mewn ysgolion meithrin a gynhelir a rhai lleoliadau addysg feithrin eraill yng Nghymru.

- Adrannau 116A i 116K o Ddeddf 2002, sy'n gwneud darpariaeth am gwricwla lleol gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol darparu isafswm penodol o ddewisiadau i bobl ifanc:
  - 25 dewis CA4 gydag o leiaf 3 dewis galwedigaethol
  - 30 dewis ôl-16 gydag o leiaf 5 dewis galwedigaethol

Nid yw'r darpariaethau hyn wedi'u rhestru ar hyn o bryd ym mharagraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf 2020, ac o ganlyniad mae angen gwneud rheoliadau i ychwanegu'r darpariaethau hyn i baragraff 7(6) fel bod modd i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiadau i addasu gofynion statudol dros dro.

#### *Y rhesymeg dros yr addasiad arfaethedig*

Ar 9 Gorffennaf, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai pob disgybl yn medru dychwelyd i'r ysgol yn nhymor yr hydref, a fyddai'n dechrau ar 1 Medi. Byddai gan ysgolion yr hyblygrwydd i ddychwelyd i weithredu'n llawn fesul cam lle bo angen, er mwyn ail integreiddio disgyblion a datblygu cynllun ar gyfer dysgu dros dymor yr hydref.

Yn unol â hynny, byddai addasu gofynion y cwricwlwm a threfniadau asesu cysylltiedig i fod ar sail ymdrech resymol yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion a lleoliadau meithrin ymateb i'r amgylchiadau digynsail yn sgil COVID-19, a chaniatáu i ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir ganolbwyntio a blaenoriaethau dysgu i fodloni anghenion cyfnewidiol dysgwyr yn y cyfnod sydd ohoni. Bydd ysgolion yn canolbwyntio ar iechyd a lles dysgwyr, ac wrth iddynt ddechrau croesawu dysgwr yn ôl, bydd angen mwy o ofod a hyblygrwydd er mwyn caniatáu i ysgolion ganolbwyntio ar helpu dysgwyr i ddychwelyd i amgylchedd arferol yr ysgol, yn arbennig pan fo nifer o ddysgwyr wedi wynebu heriau amrywiol ac felly wedi symud ymlaen ar raddfeydd gwahanol.

## **5. Ymgynghori**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, yng ngoleuni'r sefyllfa ddigynsail a achoswyd gan bandemig y Coronafeirws a'r amserlen heriol ar gyfer eu gwneud.

Fodd bynnag, cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd gyda chyrff cynrychioladol allweddol fel CCAC a chynrychiolwyr llywodraeth leol, er mwyn helpu i lunio'r cynigion polisi ar ofynion deddfwriaethol sy'n mynd i gael eu haddasu neu eu datgymhwyso. Mae'r trafodaethau hyn wedi helpu i gyfrannu at y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau hyn.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chwblhawyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn gan nad oes costau na manteision cysylltiedig. Mae'r rheoliadau hyn ond yn

ychwanegu meysydd at restr o ddeddfiadau ym mharagraff 7(6) y gall Gweinidogion Cymru wneud hysbysiadau i addasu gofynion statudol yn eu cylch.

O ran unrhyw hysbysiadau sy'n cael eu gwneud, bydd effaith rheiny yn cael eu trafod mewn asesiad effaith integredig. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw gostau na manteision i'r sectorau preifat na gwirfoddol, nac elusennol. O ran ysgolion, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gostau net na manteision.

Kirsty Williams AS/MS  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Elin Jones, AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

24 Awst 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020**

Rwyf heddiw wedi gwneud Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 o dan baragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 sy'n dod i rym ar 26 Awst. Ynghlwm ceir copi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi cael ei gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a amlinellwyd ym mharagraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020, rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 23 Hydref er mwyn iddo barhau i gael effaith. Dan yr amgylchiadau rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y gall y Pwyllgor Busnes osod a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiadau gan y pwyllgor neu bwyllgorau cyfrifol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol gwybod fy mod yn bwriadu cynnal trafodaeth cyfarfod llawn ar gyfer yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ar 29 Medi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 218

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 219

# Eitem 4.1 SL(5)595 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn amlinellu'r diwygiadau diweddaraf i'r cyfyngiadau coronafeirws yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau:

- yn caniatáu i ganolfannau cymunedol, pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd, campfeydd, sbaon, canolfannau hamdden a mannau chwarae o dan do agor; ond rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre.
- yn rhoi pwerau newydd i swyddogion gorfodaeth awdurdodau lleol i sicrhau y cymerir mesurau er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn gweithleoedd a mangreoedd eraill sydd ar agor. Caiff swyddog ddyroddi "hysbysiad gwella mangre" sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am y fangre gymryd mesurau penodedig, ac os na chymerir y mesurau hynny, caiff swyddog ddyroddi "hysbysiad cau mangre" sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r fangre gau. Pan fo'n angenrheidiol, caiff swyddog hefyd ddyroddi hysbysiad cau mangre heb fod wedi dyroddi hysbysiad gwella mangre cyn hynny. Mae darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer apelau yn erbyn hysbysiadau, ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau, ac i dorri telerau'r naill math o hysbysiad neu'r llall fod yn drosedd.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### 1. Rheol Sefydlog 21.2(i) – ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires

Mae'r Rheoliadau'n creu troseddau newydd sy'n ymwneud â hysbysiadau cau mangre, y gellir eu cosbi â hyd at 6 mis o garchar neu ddirwy. Fodd bynnag, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn darparu na ellir cosbi troseddau o'r fath trwy garcharu.

Nodwn fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi sylw i hyn yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020, trwy ei gwneud yn glir mai dim ond drwy ddirwy y gellir cosbi troseddau o'r fath.

Roedd y ddarpariaeth yn ymwneud â charcharu mewn grym rhwng 10 Awst 2020 a 17 Awst 2020. Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru gadarnhau na chafodd y ddarpariaeth unrhyw effaith ymarferol yn ystod y cyfnod hwnnw.



## **2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad newydd 18(7A) yn nodi y caiff swyddog gorfodi:

- (a) ei wneud yn ofynnol i unrhyw berson roi unrhyw wybodaeth neu ateb unrhyw gwestiwn y mae'r swyddog yn ystyried ei bod neu ei fod yn berthnasol i arfer y pŵer;
- (b) ei gwneud yn ofynnol dangos unrhyw ddogfennau neu gofnodion electronig, edrych ar y dogfennau hynny neu'r cofnodion electronig hynny neu gymryd copïau ohonynt.

Mae rheoliad newydd 18(9B) yn nodi na chaniateir defnyddio unrhyw wybodaeth nac ateb a roddir o dan reoliad 18(7A)(a) fel tystiolaeth yn erbyn yr unigolyn hwnnw (neu briod neu bartner sifil yr unigolyn) mewn achos o dan unrhyw ddeddfiad heblaw'r Rheoliadau hyn.

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau:

- (i) y rheswm pam mae rheoliad 18(7A)(a) wedi'i gyfyngu'n benodol i wybodaeth ac atebion y mae'r swyddog gorfodi yn eu hystyried yn berthnasol i arfer y pŵer gorfodi, tra nad yw rheoliad 18(7A)(b) wedi'i gyfyngu yn yr un modd,
- (ii) a ellir defnyddio gwybodaeth neu atebion a ddarperir gan berson o dan reoliad 18(7A)(a) yn erbyn person mewn unrhyw achos nad yw'n cael ei ddwyn o dan ddeddfiad,
- (iii) a ellir defnyddio dogfennau neu gofnodion electronig y cyfeirir atynt yn rheoliad 18(7A)(b) yn erbyn person mewn unrhyw achos (hynny yw, pam mae rheoliad 18(9B) yn cyfeirio at reoliad 18(7A)(a) yn unig.

### **Rhinweddau: craffu**

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r amgylchiadau o ran pandemig y coronafeirws yn newid yn gyson. Un o ganlyniadau hyn yw bod y ddeddfwriaeth sy'n amlinellu'r cyfyngiadau sy'n berthnasol i unigolion a busnesau yng Nghymru bellach wedi'i gwneud/diwygio 17 o weithiau i adlewyrchu'r amgylchiadau newidiol hynny. Mae hyn yn amlwg yn ei gwneud yn anodd i unigolion a busnesau ddilyn y newidiadau a'r hyn y mae'n ofynnol iddynt eu gwneud. Yn ei dro, mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch sut mae'r cyfyngiadau wedi'u gorfodi.

O ran gorfodi'r cyfyngiadau coronafeirws yng Nghymru, a allai Llywodraeth Cymru:

- (i) nodi'n fras sut y mae'n gweithio gyda'r amryw asiantaethau gorfodi yng Nghymru,
- (ii) cadarnhau a yw cyflymder y broses o newid y cyfyngiadau yn cael unrhyw effaith ar y dull o orfodi (er enghraifft, a yw'n addas ar gyfer cyfundrefn sy'n canolbwyntio ar yr achosion mwyaf difrifol o dorri'r rheolau yn unig, a faint o faich ychwanegol a roddir ar yr amryw asiantaethau gorfodi).

## **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**



Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno mesurau gorfodi i sicrhau bod gweithleoedd a mangreoedd eraill yn cydymffurfio â'r gofyniad i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Rhoddir y pwerau gorfodi i swyddogion awdurdodau lleol.

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at unrhyw drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru mewn perthynas â'r pwerau gorfodi newydd hyn.

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau pa drafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch y pwerau gorfodi newydd, yn benodol ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen i arfer y pwerau gorfodi. Er enghraifft, os yw busnes yn cael hysbysiad cau mangre ac yn mynd i'r afael â'r problemau ar unwaith, pa mor hir y gallai fod cyn i swyddog gorfodi ddychwelyd i'r adeilad i ddiddymu'r hysbysiad cau mangre a chaniatáu i'r busnes ailagor?

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

---

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

---

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad hwn.

## Trafodaeth y Pwyllgor

---

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 24 Awst 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt craffu technegol cyntaf i gyflwyno adroddiad arno.



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 222

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

## YMATEB Y LLYWODRAETH: RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 2) (CYMRU) (DIWYGIO) (RHIF 4) 2020

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a osodwyd gerbron y Senedd ar 24 Awst 2020. Ers gosod ei adroddiad, mae'r Pwyllgor hefyd wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog ynghylch pwyntiau sy'n ymwneud â'r ddedfryd o garchar (gweler isod).

### **Pwyntiau craffu technegol:**

#### *Dedfryd o garchar*

2. Mae adroddiad y Pwyllgor wedi ceisio cadarnhad o unrhyw effaith ymarferol yn sgil cynnwys darpariaeth ynghylch dedfrydau o garchar yn y Rheoliadau.
3. Nid yw'r Llywodraeth yn ymwybodol, yn ystod y cyfnod o 10 Awst hyd at ddiwedd 16 Awst 2020, pan ddilëwyd o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 y posibilrwydd i ddedfryd o garchar gael ei rhoi drwy gamgymeriad, fod unrhyw effaith ymarferol wedi bod yn sgil ei chynnwys yn wreiddiol.
4. Fel y'i nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau dilynol a ddileodd y gwall, hysbyswyd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Farnwrol ar 10 Awst 2020 am y gwall drwy e-bost (oddi wrth y prif swyddog a chanddo gyfrifoldeb dros gysylltiadau o'r fath). Cydnabu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi Cymru yr e-bost, ond ni fu unrhyw ymgysylltu dilynol oddi wrth Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, y Weinyddiaeth Gyfiawnder nac, yn wir, swyddfa'r Arglwydd Brif Ustus a hysbyswyd hefyd yn nes ymlaen, ynghylch y mater hwn.
5. Yn ychwanegol, nid ydym wedi cael gwybod am unrhyw enghreifftiau pan geisiwyd dedfryd o garchar, ond pa un bynnag, nid oedd gan y llysoedd y pwerau cywir i osod dedfryd o'r fath yn ymarferol. Yn ogystal, mae'r arwyddion cynnar o'r ymgysylltu parhaus â swyddogion gorfodaeth yn dangos, ar ôl yr wythnos gyntaf o weithredu (h.y. y cyfnod perthnasol), nad oedd unrhyw adroddiadau o fangreoedd yn cael eu cau, a bod swyddogion gorfodaeth – fel y byddid yn ei ddisgwyl – yn mabwysiadu dull cymesur i'r Rheoliadau hyn ac yn cydweithio â'i gilydd yn genedlaethol i sicrhau dull cyson.

#### *Gwybodaeth a chofnodion*

6. Mae'r Pwyllgor yn ceisio esboniad o'r canlynol:
  - a. y rheswm pam mae rheoliad 18(7A)(a) wedi ei gyfyngu'n benodol, tra nad yw rheoliad 18(7A)(b) wedi ei gyfyngu yn yr un modd;
  - b. a ellir defnyddio gwybodaeth neu atebion a ddarperir o dan reoliad 18(7A)(a) mewn unrhyw achos nad yw'n cael ei ddwyn o dan ddeddfiad; ac



- c. pam mae rheoliad 18(9B) yn cyfeirio at reoliad 18(7A)(a) yn unig.
7. Mae'r gwahaniaeth rhwng y geiriad ym mharagraffau (a) a (b) o reoliad 18(7A) yn adlewyrchu natur y ceisiadau a fyddai'n cael eu gwneud o dan bob paragraff. Pan fydd swyddogion yn gofyn cwestiwn penodol neu'n ei gwneud yn ofynnol i berson roi gwybodaeth benodol o dan baragraff (a), dylent wybod a yw'n berthnasol i'w hymholiadau, ond pan fyddant yn gofyn i weld dogfen neu gofnod o dan baragraff (b) efallai na fyddant yn sicr hyd nes y'i gwelant. Fodd bynnag, yn y ddau achos mae geiriau agoriadol rheoliad 18(7A) yn ei gwneud yn glir bod rhaid mai hwyluso arfer y pwerau gorfodi yn Atodlen 5 yw diben ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth neu ddogfennau bob amser. Bydd angen i swyddog sy'n ceisio dogfennau neu gofnodion o dan baragraff (b) fod o'r farn, felly, fod y dogfennau neu'r cofnodion hynny yn debygol o gynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i arfer y pwerau hynny.
8. Ni fwriadwyd y dylai'r diogelwch a ddarperir gan reoliad 18(9B) gael ei gyfyngu i achosion a ddygir o dan ddeddfiadau, ond mae'r Llywodraeth yn derbyn nad oedd geiriad rheoliad 18(9B) yn adlewyrchu'n gywir yr effaith a fwriadwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi manteisio ar y cyfle felly yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 i ddiwygio rheoliad 18(9B) i'w gwneud yn glir nad yw gwybodaeth nac atebion a roddir o dan reoliad 18(7A) yn dderbyniadwy mewn unrhyw achosion ac eithrio achosion o dan y Rheoliadau.
9. Nid yw'r diogelwch a roddir gan reoliad 18(9B) ond yn gymwys i wybodaeth ac atebion a ddarperir o dan reoliad 18(7A)(a), ac nid yw'n gymwys i ddogfennau a chofnodion eraill y mae'n ofynnol i berson eu cyflwyno. Mae hyn oherwydd bod dadleuon arbennig o gryf dros atal atebion a gwybodaeth a roddir o dan orfodaeth yng nghwrs ymchwiliad troseddol rhag cael eu defnyddio yn erbyn person mewn achosion eraill. Felly, mae'r Llywodraeth yn ystyried y gellir cyfiawnhau rheol glir yn erbyn derbyn y dystiolaeth berthnasol hon er budd tegwch. Mae'r dadleuon dros eithrio gwybodaeth a chofnodion a oedd eisoes yn bodoli'n annibynnol ar unrhyw ymchwiliad yn llai cryf ar y cyfan. Byddai angen i lys ystyried o hyd a oedd yn deg derbyn deunydd a gafwyd o dan reoliad 18(7A)(b) ym mhob achos, ond nid yw'r Llywodraeth yn ystyried bod angen gwahardd gwneud hynny yn gyfan gwbl.

**Pwyntiau craffu ar rinweddau:**

*Gorfodi'r cyfyngiadau coronafeirws*

10. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r Llywodraeth:
- nodi'n fras sut y mae'n gweithio gyda'r amryw asiantaethau gorfodi yng Nghymru,
  - cadarnhau a yw cyflymder y broses o newid y cyfyngiadau yn cael unrhyw effaith ar y dull o orfodi (er enghraifft, a yw'n addas ar gyfer cyfundrefn sy'n canolbwyntio ar yr achosion mwyaf difrifol o dorri'r rheolau yn unig, a faint o faich ychwanegol a roddir ar yr amryw asiantaethau gorfodi).

11. Gofynnir i'r Llywodraeth hefyd gadarnhau pa drafodaethau y mae wedi eu cael ynghylch y pwerau gorfodi newydd, yn benodol o ran yr adnoddau sy'n ofynnol i ddefnyddio'r pwerau gorfodi.
12. Mae'r Llywodraeth wedi gweithio'n agos gyda'r pedwar heddlu yng Nghymru ar orfodi gofynion y ddeddfwriaeth. Caiff cwnstabiliaid (swyddogion yr heddlu) gymryd camau yn erbyn y rheini sy'n torri'r prif Reoliadau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddyroddi Hysbysiadau Cosb Benodedig. O dan y prif Reoliadau, mae'r un pwerau gorfodi ar gael i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, sydd wedi cymryd rôl weithredol o ran gorfodi.
13. Mae'r heddluoedd wedi cymryd y dull a ganlyn tuag at y prif Reoliadau (sef y "4 Es" yn Saesneg): cyfathrebu, egluro, annog a chan ddefnyddio gorfodi fel y sancsiwn olaf un. Er gwaethaf hynny, mae nifer o hysbysiadau cosb benodedig wedi eu dyroddi ar draws yr heddluoedd am amrywiaeth o resymau, a phan fo'n briodol, mae hysbysiadau cosb benodedig ychwanegol wedi eu dyroddi ar gyfer ad-droseddwy. Ar 10 Gorffennaf, cyhoeddodd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ddadansoddiad ystadegol o hysbysiadau cosb benodedig – gellir gweld y pecyn data cyflawn yn: <https://cdn.prgloo.com/media/ce7016aa5ba24a188ebd06363fbc4d60.pdf>. Ar gyfer 27 Mawrth i 6 Gorffennaf y mae'r ffigurau, ac felly dyroddwyd nifer o hysbysiadau cosb benodedig o dan y prif Reoliadau gwreiddiol<sup>1</sup>. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y rhesymau dros ddyroddi'r dirwyon:

|   |              |
|---|--------------|
| Torri gofyniad sy'n cyfyngu ar symud yn ystod cyfnod yr argyfwng          | 2,166        |
| Torri cyfarwyddyd neu fethu â chydymffurfio â cyfarwyddiad                | 350          |
| Torri gofyniad i beidio â chymryd rhan mewn cynulliad o fwy na dau berson | 262          |
| Torri gofyniad oddi wrth berson perthnasol                                | 54           |
| Rhwystro person sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau              | 9            |
| <b>Cyfanswm</b>   | <b>2,166</b> |

14. Mae'r dadansoddiad hefyd yn nodi nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a ddyroddwyd ar gyfer throeddau a ailadroddwyd yn ystod y cyfnod adrodd:

|                                     |    |
|-------------------------------------|----|
| Nifer yr hysbysiadau cosb benodedig |    |
| 2                                   | 78 |
| 3                                   | 4  |
| 4                                   | 2  |
| 5                                   | 2  |
| 6                                   | 0  |
| 7                                   | 1  |

<sup>1</sup> Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020

15. Gellir gweld i'r mwyafrif sylweddol o'r hysbysiadau cosb benodedig gael eu dyroddi am dorri cyfyngiadau teithio. Dyroddodd ardaloedd heddlu Dyfed Powys a Gogledd Cymru y nifer mwyafrif o ddirwyon, a dyroddwyd y mwyafrif sylweddol o'r rheini i bobl a oedd yn teithio i mewn i'r ardal.
16. Cydnabyddir bod cyflymder y broses o newid wedi peri problemau o ran gorfodi, ond drwy gydol y broses mae'r Llywodraeth wedi gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu a heddluoedd yng Nghymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i sicrhau eu bod wedi gweld y newidiadau mor gynnar â phosibl. Mae Gweinidogion a swyddogion fel ei gilydd wedi briffio'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabiliaid cyn i newidiadau gael eu gwneud.
17. Wrth i'r prif Reoliadau newid, mae rôl plismona mewn gorfodi rhagweithiol wedi lleihau wrth i reoliadau gael eu llacio. Mae'r sefyllfa erbyn hyn yn un lle y mae'r heddlu yn cefnogi cyrff gorfodaeth eraill – awdurdodau lleol yn enwedig – yn hytrach nag arwain. Mae'r galw arferol am blismona wedi dychwelyd bellach i'r lefelau a gafwyd cyn y pandemig. Mewn gwirionedd, mae heddluoedd wedi nodi, yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, alwadau am wasanaethau dros y penwythnos sy'n fwy na'r hyn a geir ar gyfer Nos Galan. Mae hyn, yn anochel, yn cael effaith ddilynol o ran gallu'r heddlu i ymgymryd â gweithgareddau gorfodi eraill. Wedi dweud hynny, pan fo'n ofynnol i'r heddluoedd ymyrryd (fel yn achos cynullïadau anghyfreithlon) maent yn parhau i wneud hynny, ond gan ddefnyddio pwerau plismona mwy traddodiadol. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol bod darpariaeth newydd i fynd i'r afael â digwyddiadau cerddorol sydd heb eu trwyddedu wedi ei chyflwyno ers llunio'r adroddiad drafft ar Reoliadau diwygio "Rhif 4".
18. Mae trafodaethau helaeth wedi digwydd rhwng swyddogion y Llywodraeth ac awdurdodau lleol wrth lunio'r prif Reoliadau (a'r diwygiadau dilynol), gan gynnwys â Chyfarwyddwyr Diogelu Iechyd, prif weithredwyr awdurdodau lleol ac arweinwyr cynghorau. Canolbwyntiodd y rhain ar sut y gellid blaenoriaethu adnoddau presennol er mwyn creu a gweithredu deddfwriaeth a fyddai'n darparu atebion ymarferol er mwyn ymdrin â phroblemau o ran peidio â chydymffurfio, a hynny'n gyflym ond mewn ffordd raddedig, gyson a chlir.
19. Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol mewn gorfodi iechyd yr amgylchedd, safonau masnach ac, yn ddiweddar, deddfwriaeth gyda'r nod o leihau lledaeniad y coronafeirws. Mae pwerau gorfodi yn galluogi awdurdodau i wahardd arferion, cynhyrchion neu gyfarpar pan fo risg uniongyrchol; i'w gwneud yn ofynnol i welliannau neu newidiadau gael eu gwneud pan fo'n briodol; neu i erlyn. Nid yw unrhyw un o'r pwerau hyn yn cael ei ddefnyddio'n ysgafn ac anogir arolygwyr awdurdodau lleol i weithio gyda busnesau i wella, gan ddefnyddio camau gorfodi dim ond pan fo bygythiad uniongyrchol, neu pan fo busnes yn gwrthod cydymffurfio mewn perthynas â mater o bwys.

20. Mae Atodiad 1 i *'Canllawiau i swyddogion gorfodaeth ar reoliad 12: y gofyniad i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn gweithleoedd a mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd'* gan y Llywodraeth yn nodi'r egwyddorion sydd wrth wraidd y ffordd y dylai awdurdodau lleol a swyddogion orfodi'r prif Reoliadau, gan gynnwys cymesuredd wrth eu cymhwysu; targedu camau gorfodi; dull gweithredu cyson; tryloywder ynghylch y ffordd y mae swyddogion gorfodaeth yn gweithredu a'r hyn y gellir ei ddisgwyl, ac atebolrwydd am y camau a gymerir. Mae fframwaith ymarferol o ran sut y dylai'r Rheoliadau gael eu gweithredu i'w gael yn Atodiad 2.



Mick Antoniw AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,  
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

10 Medi 2020

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Awst 2020 ynghylch y Rheoliadau uchod. Mae'r Llywodraeth bellach wedi darparu ymateb sylweddol i adroddiad defnyddiol y Pwyllgor ar y Rheoliadau hyn, sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn eich gohebiaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

# SL(5)596 – Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Item 4.2

### Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau o dan y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003"). Mae Rheoliadau 2003 yn nodi'r nifer leiaf o sesiynau hanner diwrnod y mae'n rhaid i ysgolion a gynhelir eu cynnal o fewn blwyddyn ysgol. Y nifer leiaf yw 380 o sesiynau (190 o ddiwrnodau).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2003 mewn dwy ffordd.

- 1) Caniatáu i ysgolion yng Nghonwy, Sir Benfro a Phowys, a agorodd am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf yn y flwyddyn ysgol 2019-2020 gynnal o leiaf 370 o sesiynau yn ystod y flwyddyn ysgol 2020-2021 yn lle o leiaf 380 o sesiynau
- 2) Caniatáu i hyd at bedair sesiwn gyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os oeddent wedi eu neilltuo i baratoi ysgolion a chynllunio er mwyn galluogi ysgolion i fod ar agor i bob dysgwyr yn dilyn gostyngiad mewn gweithrediadau o ganlyniad i fynychder a throsglwyddiad y coronafeirws. Byddai'r sesiynau hyn yn cael eu cynnal yn ystod pythefnos cyntaf blwyddyn ysgol 2020-2021.

### Gweithdrefn

Negyddol.

### Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

#### **1. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ag "*awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru*". Anfonwyd llythyr at gyfarwyddwyr awdurdodau lleol ar 29 Gorffennaf 2020 yn nodi'r bwriad, a "*gofynnwyd i awdurdodau lleol ymateb gan nodi unrhyw bryderon.*" Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn egluro a wnaeth awdurdodau lleol ymateb ag unrhyw bryderon ai peidio.

Daeth Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2019 ("Rheoliadau 2019") i rym ar 1 Medi 2019, gan ganiatáu un diwrnod hyfforddiant mewn swydd ychwanegol i ysgolion ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros wyth wythnos ar y dull polisi, a chafwyd 899 o ymatebion. Yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth



Cymru mewn perthynas â Rheoliadau 2019, nodwyd bod cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad *"gan gynnwys penaethiaid, ysgolion, consortia rhanbarthol, undebau athrawon, awdurdodau lleol ac Estyn. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol."*

O ystyried nifer yr ymatebion a'r ystod o randdeiliaid allweddol yr ymgynghorwyd â hwy mewn perthynas â Rheoliadau 2019, ceisir eglurhad ynghylch pam na ymgynghorwyd ag ystod ehangach o randdeiliaid mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Byddai'n ddefnyddiol dysgu a wnaeth y rhai yr ymgynghorwyd â hwy leisio unrhyw bryderon ai peidio, yn enwedig yn yr awdurdodau lleol lle bydd ysgolion ar gau am wythnos ychwanegol, lle y bydd angen i deuluoedd roi trefniadau gofal plant ar waith am wythnos y tu allan i'r cyfnod gwyliau ysgol arferol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu ymhellach y cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a ganfu y gallai *"egwyl hanner tymor estynedig a dau ddiwrnod cynllunio a pharatoi ar ddechrau'r tymor effeithio'n andwyol ar grwpiau difreintiedig a'r rhai sy'n agored i niwed. Gall teuluoedd sy'n byw mewn tlog neu'r rheini y mae eu hincwm yn ddibynnol ar yr oriau gwirioneddol a weithiwyd ei chael hi'n anodd darparu gofal plant am y dyddiau ychwanegol hynny."*

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gydymffurfio â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (2011/1064)? Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i liniaru'r effaith ar y grwpiau a'r teuluoedd a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhai y byddai egwyl hanner tymor estynedig yn effeithio'n andwyol arnynt?

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 24 Awst 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o eglurhad mewn perthynas â'r pwynt i gyflwyno adroddiad arno.



## **Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

Pwynt Craffu ar Rinweddau:

Dywedodd y Gweinidog Addysg, pan gyhoeddodd “cynlluniau ar gyfer mynd yn ôl i'r ysgol” ar gyfer mis Medi ar 9 Gorffennaf, ‘bydd cyfnod o hyblygrwydd i gydnabod y bydd ysgolion eisiau canolbwyntio ar rai grwpiau blwyddyn â blaenoriaeth, fel y rhai sydd newydd ddechrau mewn ysgolion uwchradd, y rhai sy'n sefyll arholiadau yr haf nesaf neu'r rhai sydd yn y dosbarthiadau derbyn. Bydd hyn hefyd yn rhoi amser, hyd at bythefnos, ar gyfer unrhyw gynllunio ac ad-drefnu’.

Mae diwrnodau cynllunio a pharatoi, heb i ddysgwyr fod yn bresennol yn yr ysgol, yn rhan o'r trefniadau hyblyg hyn.

Mae grŵp Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) yn cymryd rhan mewn trafodaethau rheolaidd gydag uwch-swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Addysg. O'r trafodaethau gyda'r grŵp hwn y cododd yr angen am ddiwrnodau cynllunio a pharatoi ychwanegol ar ddechrau tymor newydd yr hydref. Roedd awdurdodau lleol yn pryderu na fyddai gan rai ysgolion ddigon o amser i baratoi i groesawu pob dysgwr yn ôl o 1 Medi.

Roedd yn angenrheidiol diwygio'r Rheoliadau oherwydd y diwrnodau cynllunio a pharatoi ychwanegol hyn, sy'n ychwanegol at y diwrnodau HMS sydd wedi eu dyrannu, neu fel arall byddai llawer o ysgolion yn torri deddfwriaeth statudol i ddarparu isafswm nifer o sesiynau dros y flwyddyn ysgol.

Nododd tri awdurdod lleol, mewn ymateb i llythyrau oddi wrth Lywodraeth Cymru, na fyddai dau ddiwrnod cynllunio a pharatoi yn ddigon ar gyfer eu hysgolion hwy. Dyroddwyd llythyr ychwanegol i'r awdurdodau hynny, gan eu hatgoffa o'u dyletswyddau statudol a phwyso arnynt i ailystyried eu cynlluniau er mwyn sicrhau y collid cyn lleied o amser pellach yn yr ysgol â phosibl. Ni chodwyd unrhyw bryderon pellach gan awdurdodau lleol ynghylch y trefniadau.

Gan fod y newidiadau yn gymwys i'r flwyddyn ysgol newydd ac nad yw'n arferol ymgynghori ag ysgolion dros wyliau'r haf, nid oedd digon o amser i ymgymryd ag ymgynghoriad llawn. Nid oedd peidio â gwneud y Rheoliadau 2020 diwygiedig yn opsiwn hyfyw gan inni gydnabod bod angen amser ychwanegol ar rai ysgolion er mwyn paratoi'n briodol i blant a phobl ifanc ddychwelyd i addysg lawnamser yn ddiogel. Diwygiad untro i'r Rheoliadau yw hwn mewn ymateb i effaith pandemig y coronafeirws.

Yn fwy cyffredinol, yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn fframwaith penderfynu'r Gweinidog Addysg, mae swyddogion ar draws y Gyfarwyddiaeth yn parhau i weithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid i helpu i lunio a llywio polisiau a chynigion sy'n ymwneud â chynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys CCAC, yr haen ganol a'r grŵp penaethiaid, yr undebau llafur, yn ogystal â'r Prif Gynghorydd Gwyddonol, y Prif Swyddog Meddygol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Gell Cyngor Technegol.



Ni chodwyd unrhyw faterion gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwyliau estynedig hanner tymor yr hydref yn yr ardaloedd awdurdod lleol hynny lle yr agorodd ysgolion am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf.

Cytunwyd ar y gwyliau hanner tymor estynedig â Gweinidogion Cymru ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny ar 8 Gorffennaf. Roedd hyn yn dilyn y weithdrefn statudol a bennir yn Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014, sef bod rhaid i awdurdodau lleol gael cytundeb gan bob corff llywodraethu i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig yn eu hardal a Gweinidogion Cymru i newid y dyddiadau tymhorau yr hysbyswyd amdanynt.

Dyrododd y Gweinidog Addysg lythyrau cadarnhau i'r awdurdodau hynny ar unwaith, gan ofyn iddynt ddiweddarau eu dyddiadau tymhorau sydd wedi eu cyhoeddi ac i sicrhau bod rhieni a theuluoedd y dysgwyr yr effeithir arnynt yn ymwybodol o'r newid.

Mae hysbysu'n gynnar am y newid i ddyddiadau tymhorau ar gyfer yr ardaloedd awdurdod lleol hyn wedi rhoi'r amser i rieni i gynllunio ar gyfer unrhyw anghenion gofal plant ychwanegol ar gyfer y gwyliau hanner tymor estynedig.

O dan Ddeddf Gofal Plant 2006, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru sicrhau gofal plant digonol i helpu rhieni i weithio neu hyfforddi. Ar gyfer yr awdurdodau hyn, pan fydd yr hanner tymor yn rhedeg am ddwy wythnos yn hytrach na'r un wythnos arferol, bydd angen trafod â darparwyr gofal plant am gynlluniau gofal plant ar gyfer y gwyliau estynedig.

Adroddodd yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer 2018-19 mai, o'r 48% o rieni sy'n defnyddio gofal plant, 76% ohonynt sydd wedi defnyddio gofal plant anffurfiol a ddarparwyd gan deulu a ffrindiau. Mae aelwydydd rhiant sengl a'r rheini a chanddynt incwm is yn fwy tebygol o ddefnyddio gofal plant anffurfiol. Mae'r defnydd a'r ddibyniaeth hyn wedi eu cydnabod yn null Llywodraeth Cymru o gefnogi ffurfio aelwydydd estynedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gydymffurfio â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 drwy gynnal asesiadau effaith a sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol, wrth ddarparu'r nifer gofynnol o sesiynau ysgol ac wrth ddarparu gofal plant digonol. Cyhoeddir asesiadau effaith maes o law.

## **OS wedi'i osod yn y Senedd sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig Teitl yr OS**

Rheoliadau Gwahardd Cyfyngiadau Meintiol (Ymadael â'r UE) 2020

### **Trosolwg Polisi yr OS**

Mae'r OS yn darparu y dylai'r darpariaethau ar y gwaharddiadau ar gyfyngiadau meintiol ar fewnforion ac allforion rhwng aelod-wladwriaethau sy'n parhau fel hawliau sy'n uniongyrchol effeithiol o fewn cyfraith ddomestig oherwydd adran 4 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ddod i ben.

### **Cyfraith yr UE a Ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

- Hawliau uniongyrchol effeithiol o dan Erthyglau 34, 35 a 36 y Cytuniad ar Weithrediad yr UE 2007
- Hawliau effeithiol uniongyrchol o dan Erthyglau 11, 12 ac 13 Cytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd
- Hawliau effeithiol uniongyrchol o dan Erthyglau 13, 13a ac 20 y Cytundeb rhwng y Gymuned Economaidd Ewropeaidd a Chyddfederasiwn y Swistir.
- Hawliau effeithiol uniongyrchol o dan Erthyglau 5, 6 a 7 Penderfyniad rhif 1/95 Cyngor Cymdeithasu'r GE-Twrci ar weithredu cam terfynol yr Undeb Tollau y darperir ar ei gyfer o dan Erthyglau 5 a 10 y Cytundeb sy'n sefydlu Cymdeithas rhwng y Gymuned Economaidd Ewropeaidd a Thwrci a lofnodwyd yn Ankara ar 12 Medi 1963.

### **Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwyster deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwyster gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol na gweithredol

### **Diben y diwygiadau**

Mae'r OS gweithdrefn negyddol yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE.

Mae'r OS yn dirymu hawliau uniongyrchol effeithiol y cytuniad (DETRau) o dan Erthyglau 34 i 36 y Cytuniad ar Weithrediad yr UE, Erthyglau 11 i 13 Cytuniad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), Erthyglau 13, 13a ac 20 y Cytundeb rhwng y Gymuned Economaidd Ewropeaidd a Chyddfederasiwn y Swistir ac Erthyglau 5, 6 a 7 Penderfyniad rhif 1/95 Cyngor Cymdeithasu'r GE-Twrci ar weithredu cam terfynol yr

Undeb Tollau y darperir ar ei gyfer o dan Erthyglau 5 a 10 y Cytundeb sy'n sefydlu Cymdeithas rhwng y Gymuned Economaidd Ewropeaidd a Thwrci a lofnodwyd yn Ankara ar 12 Medi 1963. Bydd yr hawliau uniongyrchol effeithiol hyn o fewn y cytuniad yn cael eu cadw o fewn cyfraith yr UE oherwydd adran 4 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ar ddiwedd y cyfnod gweithredu ar 31 Rhagfyr 2020. Os na chaiff y DETRau hyn eu dirymu byddant yn parhau i fod yn berthnasol wedi diwedd y cyfnod gweithredu.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol atodol, yn nodi effaith y diwygiadau ar gael yma:

<https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-prohibition-on-quantitative-restrictions-eu-exit-regulations-2020>

### **Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethdod di-angen o fewn y llyfr statud. Byddai cydsynio i OS ledled y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ledled y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei fod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD  
DATGANOLEDIG**

**166 - Rheoliadau Gwahardd Cyfyngiadau Meintiol (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 13 Gorffennaf 2020*

**Sifftio**

|  |   |
|--|---|
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?   | Oes   |
| Y weithdrefn:  | Negyddol Arfaethedig  |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin  | 21 Gorffennaf 2020  |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi  | 28 Gorffennaf 2020 - argymhell uwchraddio i'r weithdrefn gadarnhaol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU  | 7 Medi 2020   |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:  | Papur 38  |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen   |

**Gweithdrefn graffu**

|   |          |
|---|----------|
| Canlyniad y broses sifftio  | Anhysbys |
| Gweithdrefn   | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol               | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin        | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi ("y Ddeddf Ymadael").

Mae'r Rheoliadau hyn yn defnyddio pwerau yn y Ddeddf Ymadael i gywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE mewn perthynas â gwahardd cyfyngiadau meintiol ar fewnforion ac allforion, ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu.

Diben y Rheoliadau hyn yw rhoi diwedd ar gymhwysio hawliau sy'n llifo o'r darpariaethau yn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (Erthyglau 34 i 36) sy'n gwahardd cyfyngiadau meintiol a mesurau cyfatebol ar fewnforion neu allforion yn yr UE, ar ôl diwedd y cyfnod

gweithredu. Bydd yr hawliau cytuniad uniongyrchol effeithiol hyn yn dod yn gyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiwedd y cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 4 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ond mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y dylai'r hawliau hyn ddod i ben.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â darpariaethau tebyg yn y Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Cytundeb rhwng Cymuned Economaidd Ewrop a Chydffederasiwn y Swistir, a lofnodwyd ym Mrwsel, a'r Cytundeb rhwng Cymuned Economaidd Ewrop a Thwrci, a lofnodwyd yn Ankara.

Mae'r ddarpariaeth arbedion yn gwneud eithriad sy'n caniatáu ar gyfer parhad hawliau o dan yr athrawiaeth dihybyddu hawliau eiddo deallusol (Rheoliadau Eiddo Deallusol (Dihysbyddu Hawliau) (Ymadael â'r UE) 2019).

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 23 Gorffennaf 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn darparu bod "*cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU*". Er bod y Rheoliad hwn yn gymwys yn diriogaethol i'r DU, nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys yn diriogaethol i Ogledd Iwerddon, gan y bydd Protocol Gogledd Iwerddon yn gymwys o ran symud nwyddau rhwng Gogledd Iwerddon a'r Undeb Ewropeaidd a Phrydain Fawr fel ei gilydd. Mae Protocol Gogledd Iwerddon yn cymhwyso Erthyglau 34 i 36 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, a'r darpariaethau tebyg a wneir yng Nghytundebau'r AEE a'r cytundebau gyda'r Swistir a Thwrci, yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## Jeremy Miles AS/MS

Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd  
Counsel General and Minister for European Transition



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mick Antoniw AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

27 Awst 2020

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu, yn unol â'r cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol, y bydd cyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) yn cael ei gynnal ddydd Iau 3 Medi, a hynny'n rhithiol unwaith eto. Bydd y cyfarfod yn trafod y rhaglen Fframweithiau Cyffredin, Marchnad Fewnol y DU, trafodaethau rhwng y DU a'r UE, a diweddariad ar y materion pontio gan gynnwys Parodwydd y DU, ymgysylltu, Protocol Gogledd Iwerddon a deddfwriaeth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

## Jeremy Miles AS/MS

Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd  
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[PSCGBM@gov.wales](mailto:PSCGBM@gov.wales) / [YPCCGB@llyw.cymru](mailto:YPCCGB@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mick Antoniw MS  
Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

[SeneddLJC@senedd.wales](mailto:SeneddLJC@senedd.wales)

28 Awst 2020

Annwyl Mick

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 23 Gorffennaf a'ch gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar 12 Hydref fel rhan o ymchwiliad parhaus y Pwyllgor, "Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru". Edrychaf ymlaen at fod yn bresennol.

Mae'ch llythyr hefyd yn cyfeirio at ail adroddiad blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Gallaf gadarnhau y byddwn yn trefnu dadl ar yr adroddiad, ac mae swyddogion yn chwilio am ddyddiad ar ei gyfer.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

---

7 September 2020

**Mick Antoniw MS**

Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee

Dear Mr Antoniw

I set out below my answers to the additional questions asked of me by your letter of 22 July 2020

1. How should the Senedd scrutinise the administration of the Welsh Tribunals and devolved justice functions in Wales?

- I acknowledge, of course, that the manner in which the Senedd scrutinises the administration of the Welsh Tribunals and devolved justice functions in Wales is a matter, ultimately, for the Senedd. However, the Senedd has available to it the annual reports of each Tribunal, the annual report of PWT and it has the ability to invite PWT to appear before LJCC and/or any other Committee which is concerned with devolved justice functions. When I appeared before the Committee in July I was accompanied by the Head of WTU who supplemented my evidence where appropriate. I would certainly expect that PWT, accompanied by the head of WTU, will now appear annually before LJCC and, when necessary, any other committee of the Senedd.
- I note that the Equality Local Government and Communities Committee has recently produced a report upon the Impact of Covid-19. The report is wide-ranging and it includes a section on the impact of rule changes in the Mental Health Review Tribunal for Wales which were introduced, specifically, to meet the challenges which the pandemic might produce. I welcome the scrutiny of the Committee upon this issue but I note that the Committee took no evidence from PWT, the President of the Mental Health Review Tribunal, the head of WTU or the civil servants within WTU who are most familiar with the operation of the Tribunal. I would respectfully suggest that scrutiny of particular aspects of the work of tribunals as a whole and/or scrutiny of an individual tribunal necessarily involves taking evidence and/or obtaining views from those who are responsible for the operation of the tribunals or tribunal.



2. How might the Senedd engage with the Welsh Tribunals in the development of their role and the development of new administrative law?

- So far as I am aware there is no dialogue between the Senedd as an institution and the Welsh Tribunals relating to the role of the tribunals and the development of new administrative law. PWT, accompanied by the Head of WTU, meets the First Minister (who is accompanied by the Counsel General and senior civil servants) on an annual basis to discuss matters of mutual interest and/or concern and, as I have said, I would expect that PWT and the Head of WTU would appear annually before LJCC henceforth and before any other Committee when necessary.
- It is difficult to see other than a limited role for the Welsh Tribunals in the development of new administrative law. A core function of the tribunals is to apply law made by the legislature. However, I could envisage circumstances in which PWT and the lead judge of a particular tribunal might be consulted about the impact upon the tribunals generally, or individually, of a proposed new law.
- The scope and role of each tribunal is defined by legislation. Some of that legislation is made in Westminster; some is made by the Senedd. I would expect that if changes to the role of a particular tribunal were being considered by the Senedd, civil servants in the justice policy division would consult with PWT, the judicial lead of the particular tribunal and the head of WTU so as to test the principles underpinning the proposed change and to obtain an informed view as to the practical ramifications of the proposed change. My understanding is that this happens, to an extent, currently. The judicial lead of the Special Education Needs Tribunal is being consulted about proposed new legislation affecting the role of that tribunal.

3. What are the reasons for the 'significant overspend' in 2019-20 that was referred to in your second annual report?

- The Welsh Tribunals Unit budget has remained the same over the last few years, whereas tribunal cases and costs have increased. In recent years the tribunal budget has had to absorb a number of costs. Examples are pensions for legal members, payment of fees to the President of Welsh tribunals and the cost of the provision of e-judiciary for around 200 tribunal members.

The 2019/20 financial year highlighted a significant overspend which can be attributed to:

- increased case numbers and hearings days together with an increase in the number of complex cases
- vice president fees for RPT – this role was vacant role in 2018/19
- revised fee structure to ensure parity of fees across devolved tribunals and wider UK judiciary
- fees for two new legal members in ALT

- 2% SSRB pay increase as opposed to the forecast 1%
- 13% pension contribution increase for legal members
- Less vacancies as compared to previous years within the Welsh Tribunals Unit staffing structure

- Welsh Tribunals Unit have a system in place to regularly monitor spending and when it becomes apparent to WTU that additional resources are needed these additional needs are flagged to the Welsh Government finance division at the earliest opportunity.
- The work of the Tribunals is demand led and in consequence it is difficult to forecast expenditure precisely for any one year. Trends from previous years along with the impact of tribunal reform provide a guide but no more than that. Forecasting work for 2020/21 indicated a similar projected overspend for the tribunals as occurred in 2019/20 and that would suggest the need to review the baseline budget for the Unit. The full financial impact of COVID is not yet known for the tribunals.

4. What are your views on the level of data and information on spending and performance included in the annual reports for each tribunal?

- I am satisfied that the data provided in the annual reports for each tribunal provide a satisfactory level of detail about spending and performance. I have not been made aware during my tenure (or before that when I was performing the role of PWT voluntarily) of any concern about a lack of detail. However, if there are particular concerns about the level of detail provided in the reports I would welcome specific suggestions from the Committee about proposed improvements which I would then willingly discuss with the judicial leads of the tribunals. I would be happy to receive correspondence from the Chair of the Committee as the means of communicating the views of the Committee.

5. What further observations, if any, would you like to make regarding external input on the preparation of tribunal annual reports? [See paragraphs 97-98 of the meeting transcript].

- I can confirm that there is no external input into the preparation of the annual reports for each tribunal, if the phrase "external input" is taken to be a reference to any person or body other than the Head of WTU and/or her staff. Having reflected upon the issue I hold to the view which I expressed in the session before the Committee that judicial independence dictates that the report should contain the independent view of the judicial lead insofar as it consists of comment or opinion. Obviously, the purely factual content of the report e.g. number and/or types of case and expenditure is provided to the judicial lead by the head of WTU and/or her staff. My understanding is that all the factual and statistical information provided is thoroughly checked and that there is no need for an external audit to ensure its accuracy.



- I write the annual report of PWT. Purely factual material about the performance of the tribunal is provided to me by the head of WTU and her staff.

6. What further observations, if any, would you to make regarding the collection of specific Welsh data? [See paragraphs 120 and 128 of the meeting transcript].

- Most of the data about the justice function in Wales is collected by Her Majesty's Court and Tribunal Service. That is to be expected since in the main the justice function is not devolved. My understanding is that Wales is not treated as a separate country by HMCTS in the collection of this data save insofar as there may be data collected which is specific to the Wales Circuit.
- There is very little that I (or the head of WTU) can do about this since our sphere of influence relates to the devolved tribunals. It may be that if Welsh Government took up with the MOJ and/or HMCTS the way in which data was collected as it relates to Wales a different approach might be adopted which would "isolate" data about the justice function in Wales. If such a change was practicable it would, in my view, be a desirable reform.

Yours sincerely

**SIR WYN WILLIAMS**

**LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU/PRESIDENT OF WELSH TRIBUNALS**

Mick Antoniw AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

28 Awst 2020

Annwyl Mick

**Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y Memorandwm  
Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU**

Diolch am ddarparu copi o adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

Gweler ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad yn Atodiad A.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa bresennol gyda Senedd y DU a Senedd Cymru yn ystyried y Bil. Roedd y Bil yn cael ei ystyried gan bwyllgor bil cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin ond ataliwyd cyfarfodydd y Pwyllgor ar 18 Mawrth hyd nes y clywir yn wahanol. Bydd y Pwyllgor yn awr yn cyflwyno adroddiad erbyn dydd Mawrth 29 Medi. Ni chafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd craffu seneddol ar y Bil yn debygol o aildechrau.

O ystyried yr ansicrwydd yn amserlen Bil y DU, nid oes dadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi'i threfnu ar gyfer y Senedd ar hyn o bryd. Disgwyliaf yn awr i hyn ddigwydd ar ôl toriad yr haf.

Cofion

**Lesley Griffiths MS/AS**  
Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad A

### Ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU

| <b>Argymhelliad</b>  | <b>Ymateb Llywodraeth Cymru</b>  |
|--|--|
| <p><b>Argymhelliad 1:</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog ymateb i'r holl argymhellion yn yr adroddiad hwn fel mater o frys ac mewn da bryd cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol.</p>   | <p><b>Derbyn</b></p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p>  |
| <p><b>Argymhelliad 2.</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>▪ ddatgan yn glir pa gymalau o Fil y DU sydd mewn meysydd polisi sydd â fframweithiau cyffredin a nodwyd;</li><li>▪ sut mae'r cymalau hynny'n ymwneud â'r fframweithiau cyffredin arfaethedig perthnasol, yn llawn neu'n rhannol;</li><li>▪ ddatgan pryd y bydd fframwaith cyffredin yn y meysydd polisi hynny'n cael ei gyflwyno ac yn nodi'r mecanweithiau ar gyfer ei gyflawni.</li></ul> | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer rheoleiddio cemegion a gwastraff. Dau faes polisi yw'r rhain lle mae fframweithiau'n cael eu datblygu, sef y Fframwaith Rheoleiddio Cemegion (gan gynnwys Plaladdwyr) a'r Fframwaith Gwastraff ac Adnoddau.</p> <p>Nid yw'r Bil yn darparu sail deddfwriaethol i sefydlu'r fframweithiau hyn. Mae'r fframweithiau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar y sail y byddant yn anneddfwriaethol eu natur, sy'n debygol o gael eu hategu gan Goncordatau Gweinidogol.</p> <p>Ar ôl eu gweithredu, gall y fframweithiau ddarparu strwythurau priodol i'r pedair llywodraeth drafod datblygu polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r meysydd fframwaith hynny. Er enghraifft, drwy grwpiau rhynglywodraethol a sefydlwyd o dan y fframweithiau.</p> <p>Mae trafodaethau'n parhau rhwng y pedair llywodraeth i ddatblygu'r ddwy fframwaith hyn. Yn benodol, mae gwaith yn mynd rhagddo ar Gytundebau Amlinellol drafft y Fframwaith sy'n nodi'r trefniadau gwneud penderfyniadau a llywodraethu arfaethedig. Erbyn diwedd 2020 bydd gan y fframweithiau hyn Gytundeb Amlinellol ar gyfer y Fframwaith ar waith, sydd wedi cael cadarnhad dros dro gan Weinidogion, ac sy'n weithredol ar ffurf ddrafft.</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p> |

|   |   |
|---|---|
| <p><b>Argymhelliad 3:</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog nodi'n glir, a chydag esboniad priodol, pa gymalau o Fil y DU, fel y maent yn gymwys i Gymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✦ sydd yn angenrheidiol i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE;</li> <li>✦ sydd yn gysylltiedig ag ymadawiad y DU o'r UE ond nid oes eu hangen i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol</li> </ul> | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Nid oes angen yr un o'r cymalau yn y Bil, fel y maent yn gymwys i Gymru, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE</p> <p>Mae'r cymalau canlynol yn gysylltiedig â ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ond nid oes eu hangen i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.</p> <p><u>Rhan 3</u></p> <p>Cymal 52 ac Atodlen 9 - O dan Erthygl 4 o Gyfarwyddeb Plastig Defnydd Sengl (CYFARWYDDYD (EU) 2019/904 yr UE), mae rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaethau i sicrhau gostyngiad 'sylweddol a pharhaus' yn nifer y cwpanau plastig untro ar gyfer diodydd a chynwysyddion bwyd. Nid yw'r Erthygl yn nodi sut y dylid cyflawni'r gostyngiad hwn, ond mae mecanweithiau awgrymedig yn cynnwys cyflwyno taliadau ariannol neu ardollau. Mae'r tâl am fagiâu siopa untro wedi dangos effeithiolrwydd defnyddio'r dull hwn.</p> <p>Er bod y DU wedi pleidleisio i adael yr UE pan gyflwynwyd y Gyfarwyddeb, roedd ansicrwydd parhaus ar adeg ein rhwymedigaethau yn y dyfodol a manylion unrhyw gytundeb posibl â'r UE. Er gwaethaf hyn, cefnogwyd nod y Gyfarwyddeb o leihau effaith amgylcheddol plastigau untro gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn adlewyrchu ein huchelgeisiau o symud Cymru tuag at economi gylchol. Ar y sail hon, penderfynwyd i Weinidogion Cymru geisio pwerau codi tâl ym Mesur Amgylchedd y DU i'n galluogi i gynnal cydraddoldeb ag aelod-wladwriaethau eraill yr UE ac i ganiatáu cyflwyno rheoliadau'n amserol yn absenoldeb Bil Cymreig addas.</p> <p>Cymal 57 – Gwastraff peryglus: Gwnaed Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae'r Cymal hwn yn darparu pŵer i ganiatáu i Weinidogion Cymru barhau i allu diwygio neu ddisodli Rheoliadau 2005 er mwyn sicrhau bod y modd y caiff gwastraff peryglus ei reoleiddio yn atal niwed sylweddol i'r amgylchedd ac iechyd pobl.</p> <p>Cymal 66 – Hysbysiadau Cosb Benodedig: Mae angen y pŵer hwn gan nad oes pŵer yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i ddiwygio lefel y SSNs sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon a dyletswydd gofal deiliaid tai. Yn y gorffennol, gwnaed diwygiadau o'r fath o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd, sydd bellach wedi'i diddymu ac na ellir ei ddefnyddio ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Heb Gymal 66 ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio'r cosbau presennol am yr Hysbysiadau Cosb Benodedig sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon a dyletswydd gofal deiliaid tai.</p> <p><u>Rhan 8</u></p> |
|---|---|

|   |   |
|---|---|
|   | <p>Mae cymal 125 ac Atodlen 19 (REACH) yn gysylltiedig â ymadawiad y DU o'r UE, ac ystyrir bod angen galluogi Gweinidogion i ddiweddarau trefn REACH y DU/PRYDAIN FAWR (gan gynnwys adlewyrchu newidiadau i REACH yr UE lle y bo'n briodol) ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu.</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p>  |
| <p><b>Argymhelliad 4.</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog nodi'n glir pa gymalau o Fil y DU fel y maent yn gymwys i Gymru sydd ddim yn dod o dan argymhelliad 3.</p> | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Nid yw'r cymalau canlynol, fel y maent yn gymwys i Gymru, wedi'u cynnwys yn argymhelliad 3:</p> <p><u>Rhan 1</u><br/>Cymal 19 - Datganiadau am Filiau sy'n cynnwys cyfraith amgylcheddol newydd a Chymal 43 - Ystyr cyfraith amgylcheddol (fel y mae'n ymwneud â chymal 19).</p> <p><u>Rhan 3</u><br/>Cymal 47 ac Atodlen 4 – Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr<br/>Cymal 48 ac Atodlen 5 – Costau Gwaredu Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr<br/>Cymalau 49 – 51 – Effeithlonrwydd adnoddau<br/>Cymal 55: Olrhain Gwastraff Electronig<br/>Cymal 60 – Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990<br/>Cymal 61 – Pwerau i wneud cynlluniau codi tâl<br/>Cymal 63 ac Atodlen 10 – Pwerau Gorfodi<br/>Cymal 65 – Gorfodi Sbwriel1<br/>Cymal 67 – Rheoleiddio Gweithgareddau Llygredig</p> <p><u>Rhan 4</u><br/>Cymal 69 – Rheoli Ansawdd Aer Lleol<br/>Cymal 70 – Ardaloedd Rheoli Mwg</p> <p><u>Rhan 5</u><br/>Cymalau 75 a 76 – Cynlluniau a chynigion<br/>Cymal 77 – Pŵer yr Awdurdod i fynnu gwybodaeth<br/>Cymal 79 – Cyflwyno dogfennau'n electronig<br/>Cymal 81 – Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol ar Ansawdd Dŵr<br/>Cymal 82 – Pwerau Ansawdd Dŵr Gweinidogion Cymru</p> <p>Cymal 85 – Dehongli Ansawdd Dŵr<br/>Cymalau 87 – 89 – Draenio tir</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p> |
| <p><b>Argymhelliad 5.</b></p>   | <p><b>Derbyn</b></p>  |

|   |  |
|---|--|
| <p>Dylai'r Gweinidog egluro pam yr oedd angen cynnwys y cymalau a nodwyd yn argymhelliad 4 ym Mil y DU, yn hytrach nag o fewn Bil Cymreig yn y Chweched Senedd</p>  | <p>Nododd y cyn Brif Weinidog y meini prawf lle byddai'n dderbyniol defnyddio Bil y DU i ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru. Y rhain o hyd yw'r dull polisi a ddefnyddir wrth bennu priodoldeb defnyddio Biliau'r DU.</p> <p>Mae'r pwerau y gofynnir amdanynt ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mesur Amgylchedd y DU yn glynu wrth y meini prawf hyn naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai cynnig deddfwriaethol Llywodraeth y DU hefyd yn briodol ar gyfer amgylchiadau Cymru ond nid oes amser ar gael i gyflwyno darpariaethau tebyg yn y Cynulliad;</li> <li>• Hefyd, mae'r cysylltiadau agos rhwng y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn golygu mai'r ffordd fwyaf effeithiol a phriodol o weithredu yw bwrw ymlaen â darpariaethau'r Bil ar gyfer y ddwy wlad ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.</li> </ul> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p>  |
| <p><b>Argymhelliad 6</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog egluro pam na chafodd Bil Amgylcheddol ei flaenoriaethu yn unrhyw un o raglenni deddfwriaethol blynyddol Llywodraeth Cymru i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✦ llywodraethu amgylcheddol, gan gynnwys corff priodol i Gymru, sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE;</li> <li>✦ polisiâu amgylcheddol eraill nad ydynt yn gysylltiedig â Brexit sydd bellach yn ymddangos ym Mesur y DU.</li> </ul> | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Cyhoeddodd y Prif Weinidog newidiadau i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddi y Senedd hon ar 15 Gorffennaf. Myfyriodd ar y pwysau yr oedd diwedd y cyfnod pontio a Covid-19 wedi'u rhoi ar y rhaglen a bod angen penderfyniadau anodd i ddileu Biliau o'r rhaglen yn seiliedig ar flaenoriaethau.</p> <p>Yn anffodus, roedd hyn yn golygu na ellid cyflwyno deddfwriaeth ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu y tymor hwn, ond ailadroddodd y Prif Weinidog ei ymrwymiad i wneud hynny.</p> <p>Fel y nodais o'r blaen, mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau cyfyngedig ar gyfer datblygu ei rhaglen ddeddfwriaethol. Mae mwy o gynigion bob amser yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol nag sydd â'r gallu i'w gyflawni. Mae penderfyniadau ynghylch pa gynigion sydd i'w datblygu ac a gynhwysir yn y pen draw mewn rhaglen ddeddfwriaethol yn cael eu gwneud gan y Cabinet, gan ystyried nifer o ffactorau megis blaenoriaethau'r Llywodraeth ar draws ei holl gyfrifoldebau, aeddfedrwydd cymharol datblygu cynnig, ei faint a'i amserlen debygol ar gyfer cyflawni a'r pwysau polisi a chyfreithiol eraill mewn portffolio a allai effeithio ar gyflawni.</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu a pharatoi mesurau dros dro ar gyfer derbyn cwynion am lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru a fyddai'n dod i rym erbyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer gadael yr UE ar 31 Rhagfyr 2020.</p> |



|   |  |
|---|--|
|   | <p>O ran egwyddorion, er bod gennym, wrth gwrs, gyfres o egwyddorion amgylcheddol yn ein Deddf yr Amgylchedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo eisoes i barhau i gymhwyso pedair egwyddor amgylcheddol yr UE wrth lunio polisiau hyd nes y byddwn yn eu cynnwys mewn deddfwriaeth.</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p>  |
| <p><b>Argymhelliad 7</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog gadarnhau mai polisi Llywodraeth Cymru o hyd yw creu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru gan ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol.</p>   | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Cyhoeddodd y Prif Weinidog newidiadau i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill y Senedd hon ar 15 Gorffennaf. Myfyriodd ar y pwysau yr oedd diwedd y cyfnod pontio a Covid-19 wedi'u rhoi ar y rhaglen ac roedd angen penderfyniadau anodd i ddileu Biliau o'r rhaglen yn seiliedig ar flaenoriaethau.</p> <p>Yn anffodus, roedd hyn yn golygu na ellid cyflwyno deddfwriaeth ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu y tymor hwn, ond ailadroddodd y Prif Weinidog ei ymrwymiad i wneud hynny.</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu a pharatoi mesurau dros dro ar gyfer derbyn cwynion am lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru a fyddai'n dod i rym erbyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer gadael yr UE ar 31 Rhagfyr 2020.</p> <p>O ran egwyddorion, er bod gennym, wrth gwrs, gyfres o egwyddorion amgylcheddol yn ein Deddf yr Amgylchedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo eisoes i barhau i gymhwyso pedair egwyddor amgylcheddol yr UE wrth lunio polisiau hyd nes y byddwn yn eu cynnwys mewn deddfwriaeth.</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p> |
| <p><b>Argymhelliad 8.</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog gadarnhau y bydd deddfwriaeth sylfaenol i greu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru yn cynnwys adrannau annibynnol, yn unol â'i hymrwymiad i ddeddfwriaeth gyfunol, ac na fydd yn diwygio Bil y DU fel ffordd o gyflawni amcanion</p> | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Y bwriad yw i Gymru gael ei Bil Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu ei hun yng Nghymru, a bydd ei darpariaethau'n darparu'r fframwaith a'r mecanwaith angenrheidiol ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru, ynghyd â deddfu i ymgorffori pedair egwyddor amgylcheddol yr UE yng nghyfraith Cymru.</p> <p>Yn ystod ein cam presennol o ddatblygu polisi, nid ydym yn rhagweld diwygio Bil y DU fel ffordd o gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.</p>   |

|   |   |
|---|---|
| <p>polisi Llywodraeth Cymru.</p>  | <p>Fodd bynnag, efallai y bydd angen gwneud diwygiadau canlyniadol i Fil y DU unwaith y bydd Bil Cymreig ar waith i sicrhau bod y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn gallu gweithredu'n esmwyth ochr yn ochr â'i gilydd.</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p>   |
| <p><b>Argymhelliad 9:</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd yn ceisio gwelliannau i Fil y DU i adlewyrchu canlyniad ymarferion ymgynghori perthnasol Llywodraeth Cymru sydd wedi cau ar ôl i Fil y DU gael ei gyflwyno i Senedd y DU.</p>  | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Os bydd canlyniad ymgynghoriadau diweddar yn arwain at angen newid y darpariaethau arfaethedig yn y Bil, byddaf yn gofyn i Lywodraeth y DU geisio'r gwelliannau angenrheidiol ar ein rhan.</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p>   |
| <p><b>Argymhelliad 10.</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog ofyn am welliant i Fil y DU fel bod y cymalau a gwmpesir gan argymhelliad 4 yn ddarostyngedig i gymal machlud sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod i ben ar ôl dyddiad penodedig.</p>  | <p><b>Gwrthod</b></p> <p>Cyhoeddodd y Prif Weinidog newidiadau i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer gweddill y Senedd hon ar 15 Gorffennaf. Myfyriodd ar y pwysau yr oedd diwedd y cyfnod pontio a Covid-19 wedi'u rhoi ar y rhaglen ac roedd angen penderfyniadau anodd i ddileu Biliau o'r rhaglen yn seiliedig ar flaenoriaethau.</p> <p>Fel arfer, rydym yn ystyried cymalau machlud yn neddfwriaeth y DU lle mae amserlen glir ar gyfer disodli darpariaethau Cymreig ac oherwydd nad oes gennym Fil Amgylchedd wedi'i drefnu yn y tymor hwn, nid oes gennym ddigon o sicrwydd.</p>   |
| <p><b>Argymhelliad 11</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog egluro: ✦ pam mae angen cydsyniad ar gyfer cymalau 21, 45, 46, 78, 90, 100, 115, 122 a 124 o Fil y DU i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darpariaethau cyffredinol yn Rhan 8 o Fil y DU;</p> <p>✦ pam nad yw gwybodaeth a gynhwysir yn ei llythyr dyddiedig 14 Mai 2020 mewn ymateb i C11 wedi'i chynnwys yn y</p> | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Cafodd y rhestr a ddarparwyd mewn ymateb i C11 ei chynnwys mewn camgymeriad.</p> <p>Mae natur y darpariaethau cyffredinol yn golygu na allwn adrodd yn bendant beth fydd eu cais penodol ym mhob achos, ac felly pa gysylltiad penodol a allai fod ganddynt gyda 'darpariaeth berthnasol'.</p> <p>Fodd bynnag, i'r graddau y gellir arfer neu ddeall y darpariaethau cyffredinol yng nghymalau 126 i 133 naill ai'n ymwneud neu fel arall mewn modd sy'n brathu ar ddarpariaeth berthnasol mewn manau eraill yn y Bil (h.y. ar gymalau 19, 43, 47 i 52, 55, 57, 60 i 61, 63, 65 i 66 i 67, 69 i 70, 75 i 77, 79, 81 i 82, 85, 87 i 89 a 125), credwn eu bod yn 'ddarpariaeth berthnasol' at ddibenion Rheol Sefydlog 29 yn eu rhinwedd eu hunain.</p> |

|   |   |
|---|---|
| <p>Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol</p> <p>gyda sylwebaeth briodol ac yn unol â Rheol Sefydlog 29;</p> <p>✦ pam nad yw ei hymateb i C11 yn cyfeirio at gymalau 55, 57, 60, 61, 65, 66, 67, 75-77, 79, 81, 82, 85 ac 87-89.</p>   | <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p>  |
| <p><b>Argymhelliad 12:</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth, naill ai mewn dogfen atodol neu mewn unrhyw Femorandwm atodol, yn cyfiawnhau pam ei bod yn briodol cymryd pob un o'r pwerau dirprwyedig ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd wedi'u cynnwys ym Mesur y DU, a'r dewis o weithdrefn ar gyfer pob pŵer.</p> | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn Atodiad A i'r Memorandwm yn bodloni gofynion SO29.3:</p> <p>“Rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol” SO29.3(iv):"pan fo'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth berthnasol sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, nodi gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud iddi wrth arfer y pŵer i fod yn ddarostyngedig iddi;”</p> <p>Ers hynny, rwyf wedi darparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani i'r Pwyllgor yn fy llythyr dyddiedig 14 Mai.</p> <p>Er mwyn sicrhau mynediad rhwydd at yr holl wybodaeth, byddaf yn cyfarwyddo fy swyddogion i goladu'r wybodaeth mewn un ddogfen a chyhoeddi hyn ochr yn ochr â'r Memorandwm ar ôl toriad yr haf.</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p> |
| <p><b>Argymhelliad 13.</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog gadarnhau ei bod wedi gofyn i'r weithdrefn gael ei defnyddio ar gyfer pob pŵer dirprwyedig ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd ym Mesur y DU a bod ei chais wedi'i ganiatáu ym mhob achos.</p>   | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Ar gyfer pob pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru, cytunais ar y weithdrefn i'w defnyddio.</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>  |
| <p><b>Argymhelliad 14.</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog egluro pam yr oedd</p>  | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Fel y nodwyd yn Argymhelliad 3, ceisiodd Llywodraeth Cymru gynnwys pwerau drwy Fil y DU gan mai hwn oedd y cyfrwng</p>  |

|  |  |
|--|--|
| <p>angen cynnwys pwerau gwneud rheoliadau ym Mil y DU o dan gymal 52 ac Atodlen 9 yn hytrach nag mewn Bil Cymreig yn y dyfodol sy'n ymdrin â pholisi ailgylchu fel rhan o'i agenda amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach.</p>   | <p>mwyaf addas ar y pryd, i'n galluogi i fodloni rhwymedigaethau posibl Cyfarwyddeb yr UE. Er bod telerau ymadael y DU yn golygu ar hyn o bryd nad oes rheidrwydd cyfreithiol i drosi'r Gyfarwyddeb na bodloni'r amserlenni gofynnol, mae Llywodraeth Cymru yn dal i geisio cyd-fynd â'i huchelgeisiau mewn perthynas â phlastig untro.</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p>   |
| <p><b>Argymhelliad 15</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog egluro pam ei bod yn cymryd pwerau gwneud rheoliadau ym Mesur y DU heb syniad clir pryd y mae'n bwriadu eu defnyddio ac felly pam na ellid eu cynnwys mewn Bil Amgylcheddol i Gymru yn y Chweched Senedd.</p>               | <p><b>Derbyn.</b></p> <p>Cyfeiriaf y Pwyllgor at fy ymatebion i argymhelliad 3 a 5.</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p>   |
| <p><b>Argymhelliad 16</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog ofyn am welliant i Fil y DU sy'n cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i wneud rheoliadau o dan adran 33ZB(10A) a 34ZB(8A) o <i>Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</i>, fel y'u mewnosodwyd gan gymal 66 o Fil y DU.</p>           | <p><b>Gwrthod</b></p> <p>O ystyried bod hwn yn bŵer diweddar (rhoi un ffigur ar gyfer un arall), bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol o ystyried ei chwmpas cyfyngedig. Mae'r broses o ddiwygio'r symiau cosb yn gofyn am is-ddeddfwriaeth ac maent yn destun asesiad priodol o'r effeithiau er mwyn sicrhau bod yr hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu gosod ar lefel addas.</p>   |
| <p><b>Argymhelliad 17</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog egluro:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ pam ei bod mor bwysig cynnwys cymal 70 fel y mae'n berthnasol i Gymru ym Mil y DU, yn hytrach nag yn y Bil Aer Glân sydd i'w gyflwyno yn y Chweched Senedd;</li> </ul> | <p><b>Derbyn</b></p> <p>O ran ansawdd aer, yn benodol cymal 70 ac Atodlen 12 i Fil Amgylchedd y DU, y rhesymeg dros ddefnyddio Bil Amgylchedd y DU yw sicrhau manteision i weithgynhyrchu a defnyddwyr cyn gynted â phosibl. Bydd busnesau a /gweithgynhyrchwyr yn elwa wrth i'r oedi rhwng cael argymhelliad gan yr arbenigwyr technegol sy'n argymhell cynhyrchion i'w defnyddio a rhoi cynnyrch ar y farchnad gael ei leihau; bydd mabwysiadu rhestri cyhoeddedig yn lleihau'r lwfans ansicrwydd wrth gofnodi a diweddarau'r rhestri o gynhyrchion y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon; a bydd proses symlach, fwy effeithiol yn cynyddu dewis y defnyddiwr wrth i fwy o gynhyrchion ddod i'r farchnad yn</p> |

|  |   |
|--|---|
| <p>▪ heb y pwerau hyn, pan fyddai Gweinidogion Cymru yn diwygio rheoliadau sy'n ymwneud ag ardaloedd rheoli mwg nesaf, gan ddefnyddio eu pwerau o dan Ddeddf Aer Glân 1993.</p>                                | <p>gynt. Yn ogystal â manteision economaidd i weithgynhyrchwyr a mwy o ddewid i'r cyhoedd, bydd manteision amgylcheddol hefyd gan y bydd gwella sut y gweithredir y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru yn ei gwneud yn haws i nodi cynhyrchion y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon mewn ardaloedd rheoli mwg. Barnwyd mai Mesur Amgylchedd y DU oedd y cyfrwng cyflenwi a allai sicrhau'r gwelliant hwn i weithrediad y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru yn gynt nag unrhyw fecanwaith arall.</p> <p>Unwaith y bydd cymal 70 wedi ei ddeddfu, diddymir pŵer Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth i awdurdodi tanwyddau cymeradwy o dan adran 20(6) o Ddeddf Aer Glân 1993, yn ogystal â phŵer Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth i eithrio cyfarpar/lleoedd tân o dan adran 21(5) o'r un Ddeddf. Bydd y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru (yn wahanol i bŵer) a gyflwynir drwy ddeddfu'r Bil i greu rhestrau cyhoeddedig yn swyddogaeth weinyddol yn hytrach na swyddogaeth gwneud rheoliadau/deddfwriaethol.</p> <p><b>Goblygiadau Ariannol</b> – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p>   |
| <p><b>Argymhelliad 18.</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog egluro'n glir pam ei bod yn fwy priodol disodli adrannau presennol Deddf y <i>Diwydiant Dŵr 1991</i> â phwerau gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf honno.</p> | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae cymal 75(3) i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru yn diddymu adran 37B a 37C o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a Chynlluniau Sychder. Mae adran 37B yn ymdrin â chyhoeddi'r cynlluniau hynny a sylwadau arnynt. Mae hyn yn cynnwys pwerau eang i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau a Chyfarwyddiadau mewn perthynas â chynlluniau o'r fath. Yna, mae adran 37C yn ymdrin â darpariaethau gwybodaeth rhwng cyflenwyr dŵr trwyddedig i ddarparu'r ymgymeryd dŵr.</p> <p>Mae adran 37B yn cynnwys gofyniad i gwmnïau dŵr ymgynghori â Gweinidogion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru cyn paratoi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft ar Gyfer Sychder. Fodd bynnag, mae gofyniad i ymgynghori ar gynlluniau drafft wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2007 a Rheoliadau Cynllun Sychder 2005 ac felly mae'r gofyniad i ymgynghori yn dal i fodoli er gwaethaf diddymu adran 37B o'r Ddeddf.</p> <p>Mae cymal 75(7) o Fil yr Amgylchedd yn mewnosod Adran 39F newydd yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. Nid yw hyn yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion – yn ei hanfod mae'n ailddeddfu'r rhan fwyaf o'r pwerau sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn Adran 37B i wneud rheoliadau a chyfarwyddiadau ac, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynlluniau gael eu hanfon at Weinidogion Cymru, mae'n galluogi'r rheoliadau i ddarparu ar gyfer system arall, er enghraifft i ymateb yn uniongyrchol i'r cwmni dŵr sy'n cynnal yr ymgynghoriad.</p> |

|  |   |
|--|---|
|  | <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p>  |
| <p><b>Argymhelliad 19</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog egluro'r rhesymeg dros gymryd y pwerau cyfarwyddo yn adrannau arfaethedig 39G(1) a 94C(8) o <i>Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991</i> (a fewnosodwyd gan gymalau 75 a 76 o Fil y DU) ac egluro sut y dylid eu defnyddio.</p>         | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae Adran 39G(1) arfaethedig yn dweud y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 39F roi pŵer i'r Gweinidog wneud darpariaeth drwy gyfarwyddiadau. Nid yw hyn yn rhoi pwerau i'r Gweinidog wneud Cyfarwyddiadau – mae'n galluogi rheoliadau i roi pwerau cyfarwyddo i'r Gweinidog.</p> <p>Mae'r pŵer i alluogi'r Gweinidog i roi Cyfarwyddiadau yn gul ac yn benodol ac mae wedi'i gyfyngu i'r weithdrefn a'r manylion ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr neu sychder. Maent i raddau helaeth yn ailadrodd y pwerau Cyfarwyddo a roddir i'r Gweinidog ar hyn o bryd gan adran 37 y mae'r Bil yn eu diddymu ac nad ydynt yn darparu pwerau ychwanegol.</p> <p>Un enghraifft yw Cyfarwyddiadau Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (Cymru) 2016 sy'n cyfarwyddo'r cwmnïau dŵr i baratoi WRMP ar gyfer 2020</p> <p>Bwriedir i'r weithdrefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Draenio a Rheoli Gwastraff (DWMP) adlewyrchu'n fras y broses a gymhwysir at gynlluniau rheoli adnoddau dŵr a sychder, felly mae adran 94C(8) sy'n berthnasol i DWMP yn ail-adrodd adran adran 39G(1) sy'n berthnasol i gynlluniau eraill.</p> <p>Bydd unrhyw ddefnydd o'r pwerau Cyfarwyddo yn cael ei ragnodi i'r Rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau hyn, a byddant yn rhan o'r fframwaith rheoleiddio. Ymgynghorir ar y rhain cyn iddynt gael eu gwneud. Defnyddir y pwerau Cyfarwyddo ar gyfer pwyntiau proses neu weithdrefn manwl fel ar hyn o bryd.</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p> |
| <p><b>Argymhelliad 20</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog egluro: ▪ pam nad yw wedi trafod cymal 81 gyda Gweinidogion y DU o gofio ei fod yn bŵer cydamserol a mwy sy'n effeithio ar Gymru; a<br/>▪ pam mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y cymal hwn yn fwy cyfyngedig yn yr</p> | <p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae ymgysylltu ar lefel Swyddogol wedi bod yn ddigon i sicrhau cytundeb ar y cymalau hyn. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Defra wedi trafod Cymal 82 annibynnol a Chymal 81 ar yr un pryd. Y rhesymeg dros raddau tiriogaethol Cymal 81 oedd, pe bai'r gweinyddiaethau datganoledig yn cydsynio, y gellid gosod y sylweddau a'r safonau i'w hystyried wrth asesu statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear ar sail y DU i raddau Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r ardaloedd basn afon trawsffiniol â'r Alban. Byddai hyn yn sicrhau dau fantais; cael safonau unffurf ar draws y tiriogaethau hyn ac osgoi'r angen am sawl set o reoliadau.</p>   |

|                               |   |
|-------------------------------|---|
| <p>Alban nag yng Nghymru.</p> | <p>Nid yw pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yng Nghymal 81 yn fwy cyfyngedig yn yr Alban nag yng Nghymru.</p> <p>Mae is-adran (4) yn sefydlu mai dim ond gyda'u caniatâd y gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y pwerau yn yr adran hon i wneud darpariaeth y gallai Gweinidogion Cymru neu DAERA ei gwneud o dan eu pwerau eu hunain yng nghymalau 82 ac 83 yn y drefn honno. Gan nad oes cymal annibynnol tebyg ar gyfer Gweinidogion yr Alban*, mae is-adran (5) yn sefydlu mecanwaith cydsyniad tebyg pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y pwerau mewn rhan o ardaloedd basn afon trawsffiniol yn yr Alban sydd yn yr Alban. Mae hyn yn angenrheidiol gan fod is-adran (2), sy'n sefydlu'r ddeddfwriaeth ansawdd dŵr berthnasol, yn cynnwys Rheoliadau Dosbarth Basn Afon Solway Tweed a Northumbria (RBD). Rhanbarthau trawsffiniol yw'r rhain sy'n pontio'r ffin rhwng Lloegr a'r Alban.</p> <p>Nid oedd Gweinidogion yr Alban am gymryd pŵer annibynnol math cymal 82/83 ym Mil yr Amgylchedd gan fod y Rheoliadau ar gyfer ardal anffiniol yr Alban ('RBD yr Alban') wedi'u nodi yn neddfwriaeth sylfaenol yr Alban ac maent yn bwriadu creu pwerau eu hunain mewn Bil yn yr Alban.</p> <p><b>Goblygiadau</b> Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p> |
|-------------------------------|---|

Mick Antoniw AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
[SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)

4 Medi 2020

Annwyl Mick,

### **Cytundeb Rhyng-sefydliadol – Cyfarfodydd Gweinidogol ar yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol**

Cynhaliwyd cyfarfod o Gydbwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ym mis Mai eleni, ac fe wnaethom gytuno y dylai'r gwaith ar yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol ailddechrau. Yn ein cyfarfod dilynol ym mis Gorffennaf, gwnaethom gymeradwyo'r cynnydd a wnaed gyda'r Adolygiad, yn enwedig ym maes Osgoi a Datrys Anghydfod. Yn y cyfarfod hwnnw, galwais am sicrhau bod y manylion yn cael eu cwblhau'n gyflym er mwyn gallu rhoi canlyniadau'r adolygiad ar waith, ac i ddwysau'r ymdrechion o ran cynigion mecanweithiau Cysylltiadau Rhynglywodraethol. Er mwyn parhau â'r trafodaethau a chwblhau proses yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol yn brydlon – hon yw trydedd flwyddyn yr adolygiad – cytunodd y Gydbwyllgor y byddem yn dal ati i gwblhau'r manylion hyd yn oed yn ystod toriad yr haf.

O ganlyniad, mae'n bleser gennyf eich hysbysu bod y gweinidogion Cysylltiadau Rhynglywodraethol wedi cyfarfod am y tro cyntaf ar 12 Awst i gynnal cyfres o drafodaethau gan ganolbwyntio ar Osgoi a Datrys Anghydfod a mecanweithiau.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Gweinidog dros y Cyfansoddiad a Datganoli, Chloe Smith AS, Llywodraeth y DU, gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros y Cyfansoddiad, Ewrop a Materion Allanol, Mike Russell ASA, Llywodraeth yr Alban a'r Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Arlene Foster ACD, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon hefyd yn bresennol.

Roedd y trafodaethau yn y cyfarfod hwnnw'n gadarnhaol ac rwy'n croesawu'r datblygiad hir-ddisgwyliedig hwn. I barhau â'r momentwm byddwn yn ystyried manylion y testunau hyn ymhellach mewn cyfarfodydd sydd i'w cynnal ar 8 a 10 Medi.

Fel y nodwyd yn flaenorol, byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth am y datblygiadau hyn pan fydd y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig eraill wedi'u cwblhau.



Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, David Rees AS.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jeremy Miles', with a stylized, cursive script.

**Jeremy Miles AS/MS**

Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd  
Counsel General and Minister for European Transition

Ein cyf/Our ref: MA/FM/2111/20

Mick Antoniw AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

8 Medi 2020

Annwyl Mick

Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu sylw eich pwyllgor at y *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Is-ddeddfwriaeth*. Dogfen ganllaw fewnol yw hon ar gyfer Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac mae'n ymdrin â'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth lunio is-ddeddfwriaeth a chefnogi Gweinidogion wrth i'r ddeddfwriaeth fynd drwy brosesau craffu'r Senedd. Mae'r llawlyfr wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'n ategu'r canllawiau mewnol presennol ar ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru, y *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad* (a fydd yn cael ei ailgyhoeddi fel y *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd* ar ôl ei ddiweddarau).

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd ac at arweinwyr y gwrthbleidiau, a bydd copi o'r llawlyfr yn cael ei roi yn y llyfrgell.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Ein cyf/Our ref: MA-RE-2910-20

Mick Antoniw AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru

8 Medi 2020

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud wrth sicrhau cymhwysedd ar gyfer cyflwyno treth ar dir gwag yng Nghymru. Ym mis Mawrth, ar ôl i gyfarfod Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd gytuno bod cynigion Llywodraeth Cymru wedi cael eu datblygu ddigon i symud ymlaen i gam nesaf y broses, anfonodd Llywodraeth Cymru gais ffurfiol i Lywodraeth y DU ddatganoli cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn.

Rwyf bellach wedi cael ymateb gan Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys, sy'n dweud y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion cyn y gellir bwrw ymlaen â'n cais ffurfiol. Rwy'n siomedig gyda'r ymateb hwn, sy'n gam yn ôl, o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n llawn ac yn agored â swyddogion Trysorlys Ei Mawrhydi dros y ddwy flynedd diwethaf, gan ddarparu nifer o ddogfennau i Lywodraeth y DU a oedd yn rhoi sylw i'r meini prawf a nodwyd yn y Papur Gorchymyn, gan gynnwys y senarios lle byddai treth yn debygol o fod yn gymwys a lle byddai'n debygol o beidio â bod yn gymwys; pwy fyddai targed arfaethedig unrhyw dreth; rhyngweithiadau posibl â threthi sydd wedi'u datganoli a threthi a gedwir yn ôl, sylfeini trethu a referniw trethi; ac effeithiau ar system drethi'r DU yn sgil datganoli'r pŵer hwn. Arweiniodd y gwaith hwn at bapur ar y cyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi a argymhellodd y dylai'r deunydd a oedd wedi'i ddarparu hyd at y pwynt hwnnw fod yn sail ar gyfer cais ffurfiol ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU.

Rwyf wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys i fynegi fy siom gyda'i ymateb. Mae'n glir bod ein profiad hyd yma o symud drwy'r broses hon yn bwrw amheuaeth ar effeithiolrwydd y system i ddatganoli cymhwysedd trethu pellach i Gymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 258  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Rwyf hefyd yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans". The script is cursive and fluid.

**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mick Antoniw, MS  
Chair  
Legislation, Justice and Constitution Committee  
Senedd Cymru  
Cardiff Bay  
CF99 1SN

10 September 2020

Dear Mick

Further to my letter of 23 March in response to the Legislation, Justice and Constitution Committee report I wanted to take the opportunity to update the Committee on some of the amendments I intend to bring forward which include new powers for the Welsh Ministers to make Regulations.

I have tabled amendments which address recommendations 5 and 9 of the committee's report in respect of the Senedd procedure for regulations made under section 93(2) of the Bill and the new section 52A of the Local Government Act 2000.

Having carefully considered the contents of the Bill and taking into account all of the Committees' comments and recommendations, I have also tabled amendments to remove the existing provisions in respect of the Welsh Ministers' power to establish an all-Wales database of electoral registration information and the Welsh Ministers' discretion to direct an election pilot be undertaken from the Bill. These amendments in effect remove the need to address recommendations 2 and 3.

Turning to other amendments, section 13 of the Bill inserts a new section 36A into the Representation of People Act 1983 enabling the Welsh Minister to make rules in respect of the conduct of local elections in Wales ('conduct rules'). As drafted for introduction these conduct rules may apply, with or without modifications, the parliamentary election rules set out in Schedule 1 to that Act.

Following further consideration of this power I intend to bring forward an amendment expanding the existing power to modify so as to enable the conduct rules to amend, modify, repeal or revoke any enactment. Similar powers were provided to the Secretary of State when the Supplementary Vote system was introduced for Police and Crime Commissioner elections. The Welsh Ministers will have to make rules on the conduct of the Single Transferable Vote ("STV"). An STV election has never been held in Wales therefore these rules will be the first of their kind. It is therefore vital for the Welsh Ministers to be provided

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 260  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

with sufficient powers to make such rules and ensure they align with existing enactments as optional STV is introduced.

In addition, as stated by the Law Commission, electoral law is 'complex, voluminous and fragmented' with an enormous amount of primary and secondary legislation governing elections. As such new electoral legislation will often have implications on a range of existing legislation. It is important that any new electoral law is in agreement with all existing law and electoral practices, and that these can be modified where necessary to ensure the legislation is fit for purpose. It is therefore considered prudent to have a broad power.

These rules are subject to the affirmative Senedd procedure, following the Committees' comments and recommendations an amendment will also be brought forward to require the Welsh Ministers to consult before making such rules enabling the electoral community to have an opportunity to comment on them.

Whilst this power allows for the modification of any enactment and could be considered fairly broad, its application is strictly limited to modifications connected with, or as a consequence of any conduct rules. This will therefore limit the ability of the Welsh Ministers to modify enactments.

An amendment will also be made to enable the Welsh Ministers to make supplementary, incidental, consequential, transitional, transitory or saving provisions under such Rules. Section 201(3) of the Representation of the People Act 1983 provided such a power to the Welsh Ministers when making regulations. However, no provision clarified that this could also be relied on when making rules (such as the conduct rules). The amendment seeks to address this gap.

### *Potential Stage 3 amendments*

The Committee will be aware of the Local Authorities (Coronavirus) (Meetings) (Wales) Regulations 2020 (the '2020 Regulations'), which make provision about remote attendance for a range of local government bodies and meeting arrangements and documents. These provisions have been warmly welcomed by stakeholders and it is my intention to seek to make some of these changes on a permanent basis, through amendment to the Bill at Stage 3. I intend to bring forward amendments in respect of remote attendance for the range of local government bodies covered by the 2020 Regulations and also to address existing provision in respect of meeting arrangements and documents.

The Covid-19 pandemic exposed how out-of-date the current provisions are, in particular the procedural and technical provisions which govern how meetings are recorded, how summonses are sent to members, and how documents including notices, agendas and minutes are publicised. The majority of these provisions are set out in primary legislation dating back from 1960, 1972 and 1985.

Experience of the pandemic has also exposed how difficult it is to update and change these provisions in primary legislation. The UK Parliament, the Senedd and the Scottish Parliament were all able to amend their working procedures relatively quickly as theirs were set out in standing orders. In stark contrast, to enable local authorities, local authority executives and committees in Wales to meet during the pandemic it required an emergency Bill to be passed (the Coronavirus Act 2020) and regulations made under broad powers in section 78 of that Act. This led to a delay in the arrangements for remote meetings being put in place and caused confusion in terms of councils' continuity of business.

I consider the modernisation of these arrangements to be a critical part of enabling authorities to move forward in the post Covid-19 world and build on the changes in practice they have already made.

In order to deliver the necessary changes, in addition to making certain amendments by virtue of the Bill, it is anticipated that it will also be necessary to create new Regulation making powers. These will include powers to amend and repeal primary legislation. The powers, which I intend to make subject to the affirmative procedure, would leave technical arrangements in a form which can be more readily updated and revised as necessary in the future.

My officials are currently working to develop these proposals and I will write again shortly setting out our intentions in more detail.

I have copied this letter to the Chair of the Equality, Local Government and Communities Committee.

Yours sincerely



**Julie James AS/MS**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

**Jeremy Miles AS/MS**  
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd  
Counsel General and Minister for European Transition



Mick Antoniw AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
[SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

10 Medi 2020

Annwyl Mick,

Mae cydsyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer creu swyddogaethau cydredol yn OSau y DU a Biliau y DU wedi cael ei seilio bob amser ar ymrwymiad gan Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyflwyno Gorchymyn adran 109 i sicrhau y gallai'r Senedd ddileu'r swyddogaethau hyn yn y dyfodol heb orfod cael cydsyniad Gweinidog y Goron.

Roeddwn yn disgwyl y byddai Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cyflwyno'r Gorchymyn er mwyn galluogi iddo gael ei osod cyn Toriad yr Haf, ond yn anffodus nid yw hyn wedi digwydd ac nid wyf wedi cael cadarnhad hyd yma o'r amserlen newydd. O ganlyniad, ni fyddaf mewn sefyllfa i drafod y mater yn y sesiwn dystiolaeth ar 21 Medi. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru i bennu amserlen newydd a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jeremy Miles', written in a cursive style.

**Jeremy Miles AS/MS**  
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd  
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[YPCCGB@llyw.cymru](mailto:YPCCGB@llyw.cymru) [PSCGMET@gov.wales](mailto:PSCGMET@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 263



# Eitem 9

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

### Y Bil Pysgodfeydd

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Pysgodfeydd ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 29 Ionawr 2020 a chwblhaodd ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 1 Gorffennaf 2020. Mae'r fersiwn ddiweddaraf ohono i'w weld yma:

[Dogfennau'r Bil – Bil Pysgodfeydd 2019-21 – Senedd y DU \(ar ôl cyfnod adrodd Tŷ'r Arglwyddi\)](#)

### Amcan y Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU yn wedi datgan y bydd y Bil Pysgodfeydd yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i'r Deyrnas Unedig weithredu fel gwladwriaeth arfordirol annibynnol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr 1982 (UNCLOS) ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

### Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer:
  - amcanion polisi mewn perthynas â physgodfeydd, pysgota a dyframaethu, datganiadau pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd;
  - mynediad i bysgodfeydd Prydain;
  - trwyddedu cychod pysgota;
  - pennu a dosbarthu cyfleoedd pysgota;
  - creu cynlluniau ar gyfer codi tâl am ddal pysgod môr heb yr awdurdod i wneud hynny;
  - grantiau ar gyfer pysgota, dyframaethu neu gadwraeth forol
  - adennill costau sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â physgod neu bysgota;
  - rhoi pwerau i wneud darpariaethau pellach mewn cysylltiad â physgodfeydd, dyframaethu neu anifeiliaid dyfrol;
  - gwneud darpariaeth ar gyfer is-ddeddfau a gorchmynion mewn perthynas â chamddefnyddio pysgodfeydd môr; ac at ddibenion cysylltiedig.

## **Yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

6. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 12 Chwefror 2020, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd gerbron Senedd y DU ar 29 Ionawr 2020.
7. Cadarnhaodd y Memorandwm fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Rydym yn croesawu cynnwys yr hyn sydd bellach yn gymal 45 sy'n estyn cymhwyster deddfwriaethol y Senedd ar gyfer materion pysgodfeydd y tu hwnt i Gymru, i barth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod chymhwyster y Senedd yn unol â chymhwyster gweithredol Gweinidogion Cymru.
8. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru yn y Bil hwn fel mesur interim hyd nes bod Bil Pysgodfeydd Cymru yn cael ei ddwyn ymlaen i'r Senedd.

## **Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf y mae angen cydsyniad ar ei gyfer.**

9. Mae'r diwygiadau a ganlyn sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ac sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, wedi'u gwneud i'r Bil yn ystod cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi (ni wnaed unrhyw ddiwygiadau ar gam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi):
10. Mae Cymal 1 yn diffinio set o amcanion pysgodfeydd sy'n gymwys ar draws y DU i gyd. Mae diwygiad wedi'i wneud i'r Amcan Cynaliadwyedd sy'n sicrhau mai cynaliadwyedd yw'r prif amcan ac sy'n cynyddu pwysigrwydd cymharol pryderon amgylcheddol o fewn yr amcan hwnnw.
11. Mae Cymal 18 yn gymal newydd sydd wedi'i gynnwys yn y Bil sy'n dwyn y teitl y Gofyniad Glanio Cenedlaethol. Dan y cymal newydd hwn, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ar 'ofyniad glanio cenedlaethol' a'i sefydlu i sicrhau bod isafswm canran o bysgod sy'n cael eu dal gan gychod domestig ac estron yn nyfroedd y DU yn cael eu glanio wedyn mewn porthladd yn y DU, Ynys Manaw, Guernsey neu Jersey.
12. Cymal 26 – mae'r diwygiad hwn yn adleoli'r rheolau sy'n ymwneud â dosbarthu cwota o Reoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin i'r Bil.
13. Cymal 27 – mae cymal newydd wedi'i gynnwys yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol *cyn* gwneud penderfyniad ar ran y DU ddargadw isafswm o ddyraniad cyfleoedd pysgota Lloegr ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r sector a chychod sy'n 10 metr o hyd neu lai. Ar ôl hynny, byddai angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr achos dros gynyddu'r cwota bob blwyddyn a gosod datganiadau gerbron Senedd y DU.
14. Ein barn gychwynnol yw bod diffyg eglurder yng nghymal 27 ac mae hynny'n arwain at gwestiwn ynghylch a oes angen cydsyniad gan y

Senedd. Er bod angen dargadw elfen o gyfleoedd pysgota Lloegr ar gyfer newydd-ddyfodiaid a chychod dan 10 metr, mae'r gofyniad ar gyfer gwneud y cyfrifiad cyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud penderfyniad ar gyfleoedd pysgota'r DU yn codi cwestiynau ynghylch sut y gall y cyfrifiad hwnnw effeithio ar gyfleoedd pysgota gweinyddiaethau datganoledig. Mae'n bosibl nad yw hyn yn cyd-fynd â'r trefniadau presennol o fewn Concordat Pysgodfeydd 2012. Nid ydym yn meddwl mai bwriad y diwygiad yw hyn ond mae'r potensial ganddo i effeithio ar gyfleoedd pysgota Cymru ac fel y'i drafftiwyd, credwn y bydd angen cydsyniad y Senedd arno. Fodd bynnag, rydym o'r farn mai mater drafftio ydyw y bydd angen ei egluro.

15. Cymal 48 – mae cymal newydd wedi'i gynnwys sy'n awdurdodi defnyddio monitro electronig o bell (REM) ar bob cwch pysgota sy'n fwy na 10 metr o hyd sy'n pysgota yn nyfroedd y DU ac mae'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi cynlluniau i estyn REM i bob cwch.
16. Newid cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru. Ar gais Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd diwygiadau gan Lywodraeth y DU a chytunwyd arnynt wedi hynny, i wneud newidiadau i'r Bil i ddiweddarau pob cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru. Gwneir y diwygiadau i gyfeiriadau yn Atodlen 1, cymalau 11 a 39, Atodlen 8, a chymalau 43, 47 a 50.
17. Cymal 10 – Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol. Mae Atodlen 10 newydd wedi'i mewnosod, sy'n cynnwys y deunydd a oedd yn yr Atodlen honno ynghynt ac sy'n gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau'r UE a ddargedwir. Mae pedwar diwygiad technegol wedi'u gwneud drwy ddiwygiadau Llywodraeth y DU:
18. Cyfeiriadau at Erthygl 2 o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Mae Erthygl 2 o Reoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (1380/2013) yn nodi amcanion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Mae'r diwygiad hwn gan Lywodraeth y DU yn dirymu Erthygl 2 fel ei bod yn glir nad yw'n berthnasol fel rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir. Mae diwygiadau canlyniadol hefyd i ddisodli cyfeiriadau at Erthygl 2 gyda chyfeiriadau at Amcanion y Pysgodfeydd yn y Bil hwn ar draws cyfraith yr UE a ddargedwir.
19. Hyblygrwydd o ran Cwota. Mae'r diwygiad hwn yn ymwneud â phŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota'r DU. Byddai'n caniatáu i'r cyfleoedd hyn gael eu pennu yn amodol ar yr amrywiaeth bresennol o hyblygrwydd. Hebdo, gallai cymal 28 o'r Bil (dyletswyddau i sicrhau na ragorir ar gyfleoedd pysgota) wahardd y mathau presennol o hyblygrwydd (benthyg, hyblygrwydd rhyngrywogaethol, de minimis, cwota gwyddonol, esemptiad abwyd byw ac esemptiad difrod ysglyfaethwyr), a fyddai'n arwain at sefyllfa anymarferol o ran rheoli pysgodfeydd.
20. Ar ben hynny, mae hyd yr amser y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei dreulio yn dod i benderfyniad wedi'i newid o "blwyddyn calendr" i gyfnod amser mwy hyblyg. Mae'r sefyllfa ddiodyn yn dal i olygu bod angen gwneud y

penderfyniad yn flynyddol ond ar gyfer rhai rhywogaethau a chytundebau rhyngwladol mae angen hyblygrwydd. Mae'r newid hwn hefyd yn berthnasol i bwerau Llywodraeth Cymru yn Atodlen 5 - gwerthu cyfleoedd pysgota, er mwyn sicrhau cysondeb.

21. Cynlluniau Amlflwydd. Mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd i'r Cynlluniau Amlflwydd presennol, gan gynnwys drwy sicrhau bod y ffordd y cymhwysir y darpariaethau allweddol oddi mewn iddynt yn ddarostyngedig i amrywiad lle y nodir "newid perthnasol mewn amgylchiadau" (mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn sydd yn y Bil ar gyfer y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd a'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd).
22. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau uchod oherwydd eu bod yn addasu cymhwyster deddfwriaethol y Senedd neu oherwydd eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

### **Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd**

23. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr holl ddiwygiadau a wnaed yn ystod cyfnod adrodd yr Arglwyddi.
24. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwygiad a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi i gymal 26, sy'n ailadrodd y meini prawf yn Erthygl 17 o Reoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar wyneb y Bil.
25. Rydym yn croesawu'r diwygiadau sy'n diweddu'r Bil i adlewyrchu newid enw Senedd Cymru, yn dilyn Cydsyniad Brenhinol Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ym mis Ionawr 2020. Fe'u cyflwynwyd ar gais Llywodraeth Cymru.
26. Rydym hefyd yn cefnogi diwygiadau Llywodraeth y DU i Atodlen 10, gan eu bod yn newidiadau gweithredol, y cytunwn fod eu hangen er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.
27. O ran y diwygiadau eraill y cytunwyd arnynt yn ystod cyfnod adrodd yr Arglwyddi i gymalau 1, 18, 27 a 48, mae'r sefyllfa sy'n datblygu'n gyflym ac mae angen ystyried polisi a goblygiadau datganoli pob diwygiad yn fanwl. Ein prif bryder yw sicrhau bod y newidiadau a gyflwynir yn gyson â pholisïau pysgodfeydd Cymru ac nad ydynt yn torri ar draws cymhwyster y Senedd na phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru.
28. Os ar ôl cynnal dadansoddiad manwl ein bod yn fodlon i'r diwygiadau barhau yn y Bil, rydym yn disgwyl, fan lleiaf, y bydd angen datrys materion drafftio, i egluro diben y polisi yn fwy ac i adlewyrchu'r setliad datganoli yn gliriach.
29. Mae trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth DU ar rai meysydd o'r Bil ac ar y diwygiadau a wnaed yn ystod cyfnod adrodd yr Arglwyddi. Byddwn

yn nodi ein safbwynt yn fanylach wrth i'r sefyllfa ddatblygu a'r Bil yn parhau ar ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin.

### **Camau dilynol sy'n deillio o adroddiadau diweddar Pwyllgorau'r Senedd ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil**

30. Yn dilyn craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac argymhelliad 7 a gyflwynwyd gan y Pwyllgor, rydym wedi nodi, yn Atodiad A, y pwerau gwneud OS ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd yn y Bil, y rhesymau dros gymryd y pwerau a'r dewis gweithdrefn ar gyfer pob pŵer.

### **Goblygiadau ariannol**

31. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Gymru o ganlyniad i gymryd y darpariaethau hyn yn y Bil hwn.

### **Casgliad**

32. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i ddull y DU gyfan i greu'r Fframwaith Pysgodfeydd a dim ond mewn bil y DU y gellir gwneud hynny. O ran y pwerau yn y Bil nad ydynt yn rhan o'r fframwaith, mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru yn gallu gweithredu'n gyflym ac yn bendant yng Nghymru, hyd nes ein bod yn gallu dwyn ymlaen Bil cynhwysfawr ar gyfer Pysgodfeydd Cymru.

33. Rydym yn cefnogi diwygiadau'r Llywodraeth i'r Bil, a'r diwygiad i gymal 26. Rydym yn parhau i ddadansoddi'n fanwl y goblygiadau ehangach i'r diwydiant a rhanddeiliaid o ran y diwygiadau eraill a wnaed gan yr Arglwyddi i gymalau 1, 18, 27 a 48. Rydym yn disgwyl, fan lleiaf, y bydd angen datrys materion drafftio er mwyn egluro diben y polisi yn fwy ac adlewyrchu'r setliad datganoli yn gliriach.

34. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar y Bil hwn. Dechreuodd ei daith yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 2 Gorffennaf a bydd cyfleoedd pellach i geisio diwygio unrhyw rhannau o'r Bil nad ydynt ar hyn o bryd yn gweithio er lles Cymru.

35. Rhagwelir y bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cael ei osod yn dilyn cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, a chyn trafod cynnig cydsyniad yn y Senedd.

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**Gorffennaf 2020**

## Atodiad A

### Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol – Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21. Darpariaethau sy'n cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau a Gorchmynion.

Mae'r Bil yn darparu sawl pŵer neu offeryn gweithredol a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru (a'r gweinyddiaethau eraill) er mwyn sicrhau bod gan bob gweinyddiaeth gymaint o allu a phŵer â phosibl i reoli eu pysgodfeydd eu hunain. Bydd yr offerynnau hyn yn cael eu defnyddio i weithredu a chyflawni'r polisiau sy'n cael eu datblygu yn y fframwaith pysgodfeydd. Mae'r swyddogaethau hyn yn weithredol ac yn angenrheidiol i sicrhau ein bod yn gallu rhoi effaith i'r polisiau y cytunwyd arnynt o fewn y fframwaith, ond mewn modd sydd wedi'i deilwra orau i ddiwallu anghenion Cymru.

| Rhif y ddarpariaeth                                | Disgrifiad o'r pŵer   | Gweithdrefn ddeddfwriaethol   |
|--|---|---|
| Atodlen 3, paragraff 7(1) (trwyddedau pysgota môr) | Gwneud darpariaeth drwy Reoliadau o ran -<br><br>y ffordd y bydd swyddogaethau trwyddedu awdurdod trwyddedu pysgod môr yn cael eu harfer;<br><br>yr adeg pan fo trwydded, neu amrywiad, gwaharddiad dros dro neu ddirymiad trwydded, yn cael effaith;<br><br>yr adeg pan fo amod trwydded neu ychwanegiad, dilead neu amrywiad amod, yn cael effaith. | Gweithdrefn penderfyniad negyddol                                   |
| Atodlen 3 paragraff 7(3) (trwyddedau pysgota môr)  | Gwneud darpariaeth drwy Reoliadau yn awdurdodi creu ffioedd mewn perthynas â thrwydded.   | Gweithdrefn penderfyniad negyddol                                   |
| Atodlen 3 paragraff 7(5)                           | Gwneud darpariaeth drwy Reoliadau o ran yr egwyddorion i'w  | Os yw Rheoliadau yn lleihau'r amser y caiff cwch pysgota ei dreulio |

|  |  |   |
|--|--|---|
| (Trwyddedau pysgota môr)                                 | cymhwyso gan awdurdod trwyddedu wrth atodi amodau'n ymwneud ag amser a dreulir ar y môr.   | ar y môr, maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.<br><br>Fel arall, mae'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys. |
| Atodlen 5, paragraff 1 (Gwerthu cyfleoedd pysgota Cymru) | Darpariaeth drwy Reoliadau ar gyfer gwerthu hawliau i ddefnyddio un neu fwy o cwotâu dalfeydd Cymru a chwotâu ymdrech Cymru.   | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol   |
| Atodlen 6, paragraff 2 (2) (Cymorth ariannol)            | Darpariaeth drwy Reoliadau i sefydlu cynllun i roi cymorth ariannol ar gyfer naw diben a restrir sy'n gysylltiedig â rheoli'r amgylchedd morol a dyfrol a dibenion pysgod a dyframaethu.   | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol   |
| Atodlen 7, paragraff 2 (1) (Gosod ffioedd)               | Gwneud darpariaeth drwy Reoliadau i Weinidogion Cymru osod ffioedd mewn cysylltiad â "swyddogaeth forol berthnasol".<br><br>Mae "swyddogaeth forol berthnasol" yn golygu swyddogaeth yn ymwneud ag -<br>(a) cwotâu pysgota;<br>(b) sicrhau bod gweithgareddau pysgota masnachol yn cael eu gwneud yn gyfreithlon;<br>(c) cofrestru prynwyr a gwerthwyr pysgod gwerthiant cyntaf; | Gweithdrefn penderfyniad negyddol   |

|   |   |   |
|---|---|---|
|   | (d) tystysgrifau dalfeydd ar gyfer mewnforio ac allforio pysgod.  |   |
| Atodlen 8, paragraff 6 (1) a (4) (Pwerau i wneud darpariaeth bellach) | <p>Gwneud darpariaeth drwy Reoliadau i weithredu cytundeb rheoli pysgodfeydd rhanbarthol –</p> <p>(a) i weithredu rhwymedigaeth ryngwladol y DU sy'n ymwneud â physgodfeydd, pysgota neu ddyframaethu.</p> <p>(b) at ddiben cadwraeth</p> <p>(c) at ddiben diwydiant pysgod</p> <p>Os na weithredir cytundeb rheoli pysgodfeydd rhanbarthol - i wneud darpariaeth drwy Reoliadau ynghylch pysgota môr gan gynnwys meintiau'r pysgod sy'n cael eu dal, glanio, sgil-ddalfeydd, cyfyngiadau o ran isafswm maint, targedau stociau morol, cyfarpar pysgota, dulliau pysgota, prosesu pysgod môr, gwybodaeth, corff cynhyrchwyr, marchnata cynhyrchion pysgota, cadw cofnodion, rhywogaethau estron, rhywogaethau sy'n absennol yn lleol a gorfodi.</p> | <p>Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol os ydynt yn cynnwys:</p> <p>diwygio neu ddiddymu deddfwriaeth sylfaenol; gosod ffoedd; creu trosedd neu gynyddu'r gosb ar gyfer trosedd neu ehangu cwmpas y drosedd honno; neu roi swyddogaethau ar gorff cynhyrchwyr yn y DU, neu sefydliad cydadranol yn y DU, addasu ei swyddogaethau neu swyddogaethau sy'n ymwneud fel arall â rheoleiddio sefydliad o'r fath.</p> <p>Os nad yw rheoliadau yn cynnwys darpariaeth a ddisgrifir uchod, maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.</p> |
| Atodlen 8, paragraff 8(1)   | Gwneud darpariaeth drwy Reoliadau at ddiben monitro, rheoli,  | Gweithdrefn penderfyniad  |



|  |   |   |
|--|---|---|
| <p>(Pwerau i wneud darpariaeth bellach)</p>  | <p>atal neu waredu clefydau pysgod neu anifeiliaid dyfrol eraill.</p>   | <p>cadarnhaol os ydynt yn cynnwys darpariaeth:</p> <p>sy'n diwygio neu ddiddymu deddfwriaeth sylfaenol; gosod ffioedd; creu trosedd neu gynyddu'r gosb ar gyfer trosedd neu ehangu cwmpas y drosedd honno; neu roi swyddogaethau ar gorff cynhyrchwyr yn y DU, neu sefydliad cydadranol yn y DU, addasu ei swyddogaethau neu swyddogaethau sy'n ymwneud fel arall â rheoleiddio sefydliad o'r fath.</p> <p>Os nad yw rheoliadau yn cynnwys y ddarpariaeth a ddisgrifir uchod, maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.</p> |
| <p>Atodlen 9, paragraff 17, sy'n mewnosod adrannau 134A, 134B a 134C yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Diwygiadau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009)</p> | <p>Gwneud darpariaeth drwy Orchymyn mewn perthynas â chamddefnyddio adnoddau pysgodfeydd môr yng Nghymru a pharth Cymru at ddibenion gwarchod ffawna a fflora morol, neu gynefinoedd morol.</p> | <p>Dim gweithdrefn gan y Senedd.</p>  |
| <p>Atodlen 9, paragraff 18 (Diwygiadau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009)</p>   | <p>Gwneud darpariaeth dros dro drwy Orchymyn sy'n ymwneud â chamddefnyddio adnoddau pysgodfeydd môr yn rhanbarth môr mawr Cymru at ddiben gwarchod unrhyw</p>                                   | <p>Dim gweithdrefn gan y Senedd.</p>  |

|  |   |  |
|--|---|--|
|  | <p>nodwedd mewn ardal yn y rhanbarth hwnnw os yw Gweinidogion Cymru yn meddwl bod rhesymau i ystyried dynodi'r ardal yn MCZ a bod angen brys i warchod y nodwedd.</p> |  |
|--|---|--|

Lesley Griffiths AS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

31 Gorffennaf 2020

Annwyl Lesley

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Pysgodfeydd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mehefin 2020 yn rhoi eich **ymateb** i'r argymhellion yn ein **hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Pysgodfeydd** a gyhoeddwyd ym mis Mai. At hynny, roedd y wybodaeth a roesoch ynghylch cynnydd y Bil Pysgodfeydd (y Bil) yn Senedd y DU yn ddefnyddiol.

Ar 8 Gorffennaf 2020, gwnaethoch osod **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol** (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil, gerbron y Senedd. Fe fyddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio Memorandwm Rhif 2 at ein Pwyllgor, ac at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig gan ofyn i ni gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 24 Medi 2020.

O ystyried y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, nid yw'n bosibl trefnu amser o fewn rhaglen waith y Pwyllgor i'ch gwahodd i fod yn bresennol mewn sesiwn dystiolaeth ffurfiol. Am y rheswm hwnnw – ac i'n cynorthwyo gyda'n gwaith craffu ar Femorandwm Rhif 2 – mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi nifer o gwestiynau y byddem yn ddiolchgar pe byddech yn eu hateb erbyn dydd Gwener 4 Medi.

At hynny, mae yna nifer o faterion yr hoffem fynd ymhellach ar eu trywydd gyda chi, o ran eich ymateb i'n hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae'r atodiad hefyd yn cynnwys rhai cwestiynau ar y mater hwn.



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddLJC@senedd.wales](mailto:SeneddLJC@senedd.wales)

 0300 200 6565

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English



## Atodiad

### Cwestiynau ar Femorandwm Rhif 2

1. Ym mharagraff 27 o Femorandwm Rhif 2, ac mewn perthynas â'r diwygiadau i gymalau 1, 18, 27 a 48 o'r Bil, rydych chi'n nodi bod hon yn "sefyllfa sy'n datblygu'n gyflym" ac mae'n dal i fod angen i chi ystyried yn fanwl oblygiadau pob un o'r diwygiadau mewn perthynas â datganoli. Mae paragraff 28 o Femorandwm Rhif 2 yn mynd ymlaen i nodi:

---

Os ar ôl cynnal dadansoddiad manwl ein bod yn fodlon i'r diwygiadau barhau yn y Bil, rydym yn disgwyl, fan lleiaf, y bydd angen datrys materion drafftio, i egluro diben y polisi yn fwy ac i adlewyrchu'r setliad datganoli yn gliriach.

---

- a. I ba raddau y cawsoch eich gwneud yn ymwybodol o'r diwygiadau a gynigiwyd i gymalau 1, 18, 27 a 48, a chael golwg arnynt, cyn i'r diwygiadau hynny gael eu cytuno yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi?
  - b. Pa gynnydd ydych chi wedi'i wneud o ran cynnal asesiad llawn o oblygiadau'r diwygiadau a wnaed i gymalau 1, 18, 27 a 48 o ran datganoli?
  - c. Beth yw'r materion drafftio penodol y cyfeiriwch atynt ym mharagraff 28 o Femorandwm Rhif 2?
  - d. Os na chaiff y materion drafftio eu datrys i raddau sy'n eich bodloni, a fydd y mater hwn yn dod yn 'llinell goch' ac a fydd hynny'n effeithio ar unrhyw argymhelliad y byddwch, o bosibl, yn ei wneud i'r Senedd ynghylch cydsyniad ar gyfer y darpariaethau perthnasol yn y Bil?
2. Mae paragraff 14 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi bod drafftio cymal 27 newydd, yn eich barn chi, yn brin o eglurder ac o ganlyniad yn codi cwestiwn o ran a oes angen cydsyniad y Senedd. At hynny, rydych o'r farn bod drafftio cymal 27 newydd yn codi cwestiynau o ran sut y gall gofynion y cymal newydd effeithio ar gyfleoedd pysgota gweinyddiaethau datganoledig, tra'i fod hefyd, o bosibl, yn groes i Goncordat Pysgodfeydd 2012.
    - a. Pa gynnydd ydych chi wedi'i wneud o ran datrys y materion hyn gyda Llywodraeth y DU?
    - b. Pa gamau ydych chi wedi gofyn i Lywodraeth y DU eu cymryd o ran eglurder drafftio'r cymal newydd hwn?
  3. Mae cymal 48 newydd yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio technoleg monitro electronig o bell ar bob cwch pysgota dros 10 metr o hyd, sy'n pysgota yn nyfroedd y DU. At hynny, mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi cynlluniau i ymestyn monitro electronig o bell i bob cwch modur. Cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 48 newydd, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol o dan unrhyw oblygiadau statudol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru, na cheisio cydsyniad Gweinidogion Cymru neu'r Senedd.
    - a. Pa drafodaethau a gawsoch chi gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymal 48 newydd cyn i'r gwelliant perthnasol gael ei gyflwyno i'w ystyried yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi?



- b. A ydych o'r farn bod gofyniad ymgynghori – yn unol â'r hyn y darperir ar ei gyfer yng nghymal 18 – yn angenrheidiol, ac felly y dylid ei roi ar wyneb y Bil?
  - c. Beth yw eich barn o ran ceisio cydsyniad Gweinidogion Cymru, neu gydsyniad y Senedd, cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 48 newydd?
4. Nodwn fod Atodlen 10 newydd wedi'i mewnosod yn y Bil sy'n ymgorffori'r deunydd a oedd yn yr Atodlen 10 wreiddiol, ond gyda diwygiadau pellach i ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir.
- a. Mae nifer o'r cyfeiriadau at weinyddiaeth pysgodfeydd – *fisheries administration* – yn yr Atodlen hon wedi cael eu newid i Ysgrifennydd Gwladol – *Secretary of State*. Gellid ystyried bod rhai o'r darpariaethau yn yr Atodlen 10 newydd yn ymwneud ag arsylwi neu weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, sydd wedi'u datganoli. Er enghraifft, mae'r diwygiadau a gynigir i erthyglau 4 a 6 o Reoliad 2018/973 (gan baragraffau 6(4) a (6) o Atodlen 10 i'r Bil) yn cynnwys darpariaethau sydd, i bob golwg, yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn lle'r gweinyddiaethau pysgodfeydd, o ran arsylwi ar oblygiadau rhyngwladol, a'u rhoi ar waith. Er ein bod yn cydnabod bod cydsyniad yn cael ei geisio mewn perthynas ag Atodlen 10, pam mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn hytrach na'r gweinyddiaethau pysgodfeydd, a pham na chafodd hynny ei amlygu ym Memorandwm Rhif 2?
  - b. O ran y pŵer i bennu cyfleoedd pysgota a hyblygrwydd o ran cwota – ac fel y nodwyd ym mharagraffau 19 a 20 o Femorandwm Rhif 2 – mae'r amser y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei bennu ar gyfer cyfleoedd pysgota'r DU wedi newid. Mae cyfeiriadau at flwyddyn galendr – *calendar year* – wedi'u dileu ac nid oes geiriad yn lle hynny. O ganlyniad, mae'r cyfnod posibl yn un penagored, er ein bod yn cydnabod y gallai rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau gynnwys amserlen. Mae'r newid hwn hefyd yn berthnasol i bwerau Gweinidogion Cymru yn Atodlen 5, a nodwn fod Memorandwm Rhif 2 yn awgrymu bod hyn er mwyn galluogi "cysondeb". A wnaethoch chi drafod y diwygiad i Atodlen 10 gyda Llywodraeth y DU, a'r effaith ganlyniadol ar bwerau Gweinidogion Cymru yn Atodlen 5, ac a allwch chi gadarnhau y dylid ceisio cydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer y diwygiadau perthnasol i Atodlen 5?
5. Mae paragraffau 34 a 35 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi y bydd cyfleoedd pellach i geisio diwygio unrhyw rannau o'r Bil nad ydynt ar hyn o bryd yn gweithio er lles Cymru, ac y rhagwelir y bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach yn cael ei osod yn dilyn Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. A allwch chi gadarnhau mai eich bwriad yw sicrhau bod digon o amser i Bwyllgorau'r Senedd ystyried unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach, cyn y ddadl cynnig cydsyniad perthnasol yn y Cyfarfod Llawn?

Cwestiynau ynghylch eich ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil

6. Yn ystod eich sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor ar y Bil ar 16 Mawrth, gofynnwyd i chi a fyddem yn rhwym i gytundeb fframwaith cyffredin yn y dyfodol, ac a oedd unrhyw



beth yn y Bil a fyddai'n rhwystro ein gallu i ddeddfu yn y maes cymhwysedd datganoledig hwn, ac fe ateboch trwy ddweud nad oedd, o'r hyn yr oeddech yn ei ddeall (gweler paragraffau 46 a 47 o'r **trawsgriafiad**). O ystyried y drafodaeth hon, gofynnodd argymhelliad 3 o adroddiad y Pwyllgor i chi egluro sut y bydd Mesur Pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol yn gweithio o fewn fframwaith pysgodfeydd cyffredin ledled y DU. Yn eich ymateb i argymhelliad 3, rydych yn nodi y bydd angen i unrhyw Fil Pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol ystyried Amcanion Pysgodfeydd y DU – a nodir ym Mil Pysgodfeydd y DU – a'ch bod yn disgwyl y bydd darpariaethau fframwaith allweddol, er enghraifft yr amcanion a'r Datganiadau Pysgodfeydd ar y Cyd, yn aros ym Mil y DU. O ystyried y sylwadau a wnaethoch yn ein cyfarfod ar 16 Mawrth, a allwch chi gadarnhau, er nad yw'r Bil yn atal Llywodraeth Cymru rhag cyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru a fyddai'n cynnwys darpariaethau sy'n disodli'r rhai o dan Fil y DU sy'n gyfystyr â chytundeb fframwaith cyffredin, eich bod wedi ymrwymo i gadw'r darpariaethau fframwaith allweddol ym Mil y DU (ar ôl ei ddeddfu) yn ôl yr hyn sy'n gymwys yng Nghymru, ac nad yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru wyro oddi wrth amcanion pysgodfeydd ledled y DU, os mai hi yw Llywodraeth y Chweched Senedd?

7. O ran argymhellion 5 a 6 yn ein hadroddiad, er ein bod yn croesawu eich bwriad i sicrhau bod Aelodau'n cael cyfle i adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â chymal 23 cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol yn y Cyfarfod Llawn, a allwch chi gadarnhau mai eich bwriad hefyd yw sicrhau bod digon o amser i Bwyllgorau'r Senedd ystyried y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, cyn cynnal dadl o'r fath yn y Cyfarfod Llawn?
8. Er ein bod yn cydnabod eich ymateb manwl i argymhelliad 8 yn ein hadroddiad ynghylch y pwerau i wneud rheoliadau yn Atodlen 3 y Bil, a allwch chi roi rhagor o wybodaeth ynghylch pryd y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn hwylus i arfer y pwerau yn Atodlen 3, er enghraifft awdurdod trwyddedu pysgod môr?





Ein cyf/Our ref: MA/LG/2661/20

Mick Antoniw AS/MS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

[SeneddLJC@senedd.wales](mailto:SeneddLJC@senedd.wales)

3 Medi 2020

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Gorffennaf ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil Pysgodfeydd. Rwyf wedi ymateb i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd gennych isod:

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2)

**Diweddariad i'r Pwyllgor ar oblygiadau'r diwygiadau gan Dŷ'r Arglwyddi i Gymalau 1, 18, 27 a 48 o ran polisi a datganoli**

I ateb eich cwestiynau 1 a. – d. a 2 a. – b., 3 a. – c., gallaf roi'r diweddaraf ar y rhain. Fel y gwelwch, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno diwygiadau ar gyfer cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin i wrthdroi'r diwygiadau a wnaed yn ystod cam Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi i Gymalau 1, 18, 27 a 48. Ceisiodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol, Victoria Prentis AS, fy marn ar y mater hwn, a dweud ei bod yn cefnogi ysbryd y diwygiadau, ond nad yw'r diwygiadau'n gadarn o safbwynt deddfwriaethol a chyfansoddiadol. Mae fy safbwynt i fel a ganlyn:

**Cymal 1 – yr amcan cynaliadwyedd**

Mae'r diwygiad hwn yn peri ansicrwydd cyfreithiol. Yn fy ymateb i'r Gweinidog Prentis, cydnabŵm y pryderon a oedd wedi cael eu lleisio, a nodi y byddai angen mireinio'r ddarpariaeth hon ymhellach er mwyn rhoi'r flaenoriaeth briodol i gynaliadwyedd amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy. Mae hyn yn ganolog i'n dull ni ar gyfer rheoli pysgodfeydd, sy'n cyd-fynd â'n dyletswyddau ni o dan ein deddfwriaeth flaenllaw ar gyfer Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016, i sicrhau datblygu cynaliadwy wrth inni gyflawni ein nodau llesiant, ac i reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Bydd y polisiau yn y Cyd-ddatganiad

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Pysgodfeydd yn adlewyrchu'r dyletswyddau hyn a'n hymrwymiad cryf i sicrhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Yn hyn o beth, rwyf wedi pwysleisio wrth y Gweinidog Prentis ein bod yn cefnogi ysbryd y diwygiad, ac rwyf wedi gofyn iddi wneud hyn yn glir yn ystod cam y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

### **Cymal 18 – y gofyniad glanio cenedlaethol**

Fel y mae wedi'i ddrafftio nid yw'r diwygiad hwn yn adlewyrchu'r setliad datganoli, ac mae amodau trwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cwch o'r DU sefydlu cysylltiad economaidd â'r DU eisoes ar waith. Rydym yn bwriadu datblygu ymhellach bolisiau Cymru mewn perthynas â'r gofyniad am gyswllt economaidd, fel rhan o'r gwaith cyfannol o ddatblygu ein polisiau pysgodfeydd ar gyfer y dyfodol – yn ddarostyngedig i broses graffu'r Senedd. Felly, nid oes angen y ddarpariaeth hon ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil y DU.

### **Cymal 48 – monitro electronig o bell**

Mae'r diwygiad hwn yn torri ar draws ein setliad datganoli, a chan ei fod yn fater datganoledig, Gweinidogion Cymru a ddylai benderfynu ar y dull priodol mewn perthynas â Chymru. Rydym yn bwriadu datblygu ymhellach bolisiau Cymru mewn perthynas â monitro electronig mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion a chyd-destun fflyd Cymru. Felly, nid oes angen y ddarpariaeth hon ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil y DU.

### **Cymal 27 – cwota newydd o ddyraniad Lloegr ar gyfer gweithredwyr newydd a chychod o dan ddeg metr**

Roedd gennym bryderon uniongyrchol ynghylch sut y gellid dehongli'r ddarpariaeth hon, oherwydd ei bod yn bosibl y byddai'n effeithio ar "gronfa" cwota'r DU. Er ein bod yn nodi nad dyma'r bwriad, gallai effeithio ar ein cymhwysedd datganoledig. Felly, dim ond ar ôl i gyfleoedd pysgota gael eu dyrannu i bob gweinyddiaeth y dylai unrhyw glustnodi gael ei gynnal.

Gobeithiaf fod yr esboniad hwn a'r diwygiadau a gyflwynwyd ar gyfer cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn rhoi'r eglurder rydych yn ei geisio.

### **Diwygiadau i Atodlen 10**

Rydych wedi gofyn dau gwestiwn am y diwygiadau yn Atodlen 10 i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, a newid cyfeiriadau at "weinyddiaethau pysgodfeydd" i "yr Ysgrifennydd Gwladol". Rydych yn gofyn:

**4. Rydym yn nodi bod Atodlen 10 newydd wedi cael ei mewnosod yn y Bil sy'n ymgorffori'r deunydd a oedd yn yr Atodlen 10 wreiddiol, ond gyda diwygiadau eraill i ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir.**

**a. Mae nifer o'r cyfeiriadau at "weinyddiaeth pysgodfeydd" yn yr Atodlen hon wedi cael eu newid i "yr Ysgrifennydd Gwladol". Gellid ystyried bod rhai o'r darpariaethau yn yr Atodlen 10 newydd yn ymwneud â gweithredu neu arsylwi ar rwymedigaethau rhyngwladol, mater sydd wedi cael ei ddatganoli. Er enghraifft, mae'r diwygiadau a gynigir i erthyglau 4 a 6 o Reoliad 2018/973 (gan baragraffau 6(4) a (6) o Atodlen 10 i'r Bil) yn cynnwys darpariaethau sydd, yn ôl pob golwg, yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn lle'r gweinyddiaethau pysgodfeydd, mewn perthynas â gweithredu ac arsylwi ar rwymedigaethau rhyngwladol. Er ein bod yn cydnabod bod cydsyniad yn cael ei geisio mewn perthynas ag Atodlen 10, pam mae'r**

## **swyddogaethau hyn yn cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn hytrach na'r gweinyddiaethau pysgodfeydd, a pham na thynnwyd sylw at y mater hwn ym Memorandwm Rhif 2?**

Gweithiodd fy swyddogion yn agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU, yn dilyn dadansoddiadau cyfreithiol o bob cyfeiriad yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, i benderfynu pwy sy'n gyfrifol am y rolau, yn unol â'r setliad datganoli. Roedd y swyddogion yn glir iawn ynghylch manylion y setliad datganoli mewn perthynas â rhwymedigaethau rhyngwladol a'n rôl wrth eu gweithredu. Fy marn i yw bod y rhain wedi cael eu cymhwyso yn gywir mewn perthynas â'r setliad datganoli. Rwyf wedi rhoi tabl yn Atodiad 1 i egluro'r sail resymegol ar gyfer y diwygiadau a wnaed drwy Atodlen 10 i'r Bil.

**b. Ynglŷn â'r pŵer i bennu cyfleoedd pysgota a hyblygrwydd mewn perthynas â'r cwota, ac fel y nodir ym mharagraffau 19 a 20 o Femorandwm Rhif 2, mae hyd y cyfnod y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ei dreulio wrth bennu cyfleoedd pysgota wedi cael ei newid. Mae cyfeiriadau at "flwyddyn galendr" wedi cael eu dileu ac nid oes unrhyw beth yn eu lle. Felly, mae'n bosibl bod y cyfnod yn benagored, er ein bod yn cydnabod y gallai'r rheoliadau a wnaed o dan y darpariaethau gynnwys amserlen. Mae'r newid hwn hefyd yn berthnasol i bwerau Gweinidogion Cymru yn Atodlen 5 a nodwn fod Memorandwm Rhif 2 yn awgrymu bod hyn er mwyn galluogi "cysondeb". A wnaethoch drafod y diwygiad i Atodlen 10 â Llywodraeth y DU a'r effaith ganlyniadol ar bwerau Gweinidogion Cymru yn Atodlen 5, ac a allwch gadarnhau y dylid ceisio cydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer y diwygiadau perthnasol i Atodlen 5?**

Do, trafododd fy swyddogion y darpariaethau hyn a chytuno arnynt cyn iddynt gael eu cyflwyno, a chadarnhau y bydd angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y diwygiad a wnaed i baragraff 1 o Atodlen 5.

**5. Mae paragraffau 34 a 35 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi y bydd cyfleoedd eraill "i geisio diwygio unrhyw rannau o'r Bil nad ydynt yn gweithio er budd gorau Cymru ar hyn o bryd", a rhagwelir y bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall yn cael ei osod yn dilyn cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. A allwch gadarnhau eich bod yn bwriadu sicrhau bod digon o amser i Bwyllgorau'r Senedd ystyried unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall cyn y ddadl berthnasol ar y cynnig cydsyniad yn y Cyfarfod Llawn?**

Cynhaliwyd Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 1 Medi a disgwyliar i gam y Pwyllgor gael ei gynnal rhwng 8 a 17 Medi. Mae nifer o ddiwygiadau gan y llywodraeth wedi cael eu cyflwyno ar gyfer cam y Pwyllgor, a hoffwn dynnu eich sylw at y rheini. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gytuno ar y diwygiadau sy'n ymwneud â Chymru, a hoffwn roi cadarnhad cynnar fy mod i'n eu cefnogi.

Mae'r ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i threfnu ar gyfer 29 Medi, cyn cam Adroddiad Tŷ'r Cyffredin, yn unol â'n dull arferol o geisio sicrhau bod gan Senedd y DU amser i ystyried penderfyniad y Senedd ynghylch cydsyniad cyn i Fil gael ei basio. Bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cael ei osod cyn gynted ag y bo modd.

[Ymateb Llywodraeth Cymru i'ch adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil](#)

Rydych hefyd wedi gofyn rhai cwestiynau am ein hymateb i'ch adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

**6. Yn ystod eich sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor ar y Bil ar 16 Mawrth gofynnwyd ichi a fyddem yn cael ein rhwymo gan gytundeb fframwaith cyffredin yn y dyfodol, ac**

a oedd unrhyw beth yn y Bil a fyddai'n llesteirio ein gallu i ddeddfu yn y maes cymhwysedd datganoledig hwn. Eich ateb oedd “na, nid fel rwy'n deall y mater” (gweler paragraffau 46 a 47 o'r trawsgrifiad). O ystyried y drafodaeth hon, gofynnodd argymhelliad 3 o adroddiad y Pwyllgor ichi egluro sut y bydd Bil Pysgodfeydd ar gyfer Cymru yn y dyfodol yn gweithio o fewn fframwaith pysgodfeydd cyffredin ar gyfer y DU gyfan. Yn eich ymateb i argymhelliad 3, rydych yn nodi y bydd angen i unrhyw Fil Pysgodfeydd ar gyfer Cymru yn y dyfodol ystyried Amcanion Pysgodfeydd y DU a amlinellir ym Mil Pysgodfeydd y DU, a'ch bod yn disgwyl i ddarpariaethau allweddol fframwaith, megis yr amcanion a'r [Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd] aros ym Mil y DU”. O ystyried y sylwadau a wnaethoch yn ein cyfarfod ar 16 Mawrth, a allwch gadarnhau, er nad yw'r Bil yn atal Llywodraeth Cymru rhag cyflwyno Bil Pysgodfeydd ar gyfer Cymru sy'n cynnwys darpariaethau sy'n disodli'r rhai o dan Fil y DU sy'n rhan o gytundeb fframwaith cyffredin, eich bod wedi ymrwymo i gadw darpariaethau allweddol y fframwaith ym Mil y DU (ar ôl ei ddeddfu) fel y mae'n berthnasol yng Nghymru, ac nad yw'r Llywodraeth hon yng Nghymru yn bwriadu symud oddi wrth yr amcanion pysgodfeydd ar gyfer y DU gyfan os yw mewn grym yn ystod y Chweched Senedd?

Gallaf, rydym wedi ymrwymo i gadw darpariaethau allweddol y fframwaith ym Mil y DU, fel y mae'n berthnasol yng Nghymru. Yn ôl eu natur mae'r pwerau ar waith i sicrhau rydym yn gweithio o fewn yr un fframwaith ledled y DU, gan efelychu'r dull yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar gyfer rheoli ein hadnoddau cyffredin. Mae'r amcanion wedi cael eu drafftio i adlewyrchu hanfodion dulliau modern ar gyfer rheoli pysgodfeydd. Maent yn gyson ag egwyddorion rhyngwladol blaengar ar gyfer rheoli pysgodfeydd, ein sefyllfa ddatganoledig a'n deddfwriaeth ein hunain yng Nghymru. Ni fydd cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn cael ei leihau gan y fframwaith. Nid yw amcanion y pysgodfeydd yn effeithio ar bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru, gan fod rhaid arfer y swyddogaethau hynny yn unol â'r amcanion. Fodd bynnag, gallai'r Senedd ddileu neu ddiwygio'r amcanion ar gyfer Cymru pe bai'n dymuno gwneud hynny.

Gallaf gadarnhau nad ydym yn bwriadu symud oddi wrth amcanion y DU gyfan. Y gwahanol lywodraethau sy'n penderfynu sut maent yn cyflawni'r amcanion, boed hynny ar y cyd neu ar eu pennau eu hunain, o fewn eu cymhwysedd eu hunain, a bydd y polisiau ar gyfer cyflawni neu gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r amcanion yn cael eu hamlinellu yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Wedyn bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu yn unol â'r datganiad hwnnw.

**7. O ran argymhellion 5 a 6 yn ein hadroddiad, er ein bod yn croesawu eich bwriad i sicrhau bod Aelodau'n cael cyfle i adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â chymal 23 cyn y ddadl berthnasol ar y cynnig cydsyniad yn y Cyfarfod Llawn, a allwch gadarnhau hefyd eich bod yn bwriadu sicrhau bod digon o amser i Bwyllgorau'r Senedd ystyried y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cyn dadl o'r fath yn y Cyfarfod Llawn?**

Rwy'n hapus i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud i gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y Fframwaith Pysgodfeydd, ac yn benodol y cynnydd mewn perthynas â chymal 24 (cymal 23 yn flaenorol). Mae fy swyddogion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgor sydd wrthi'n drafftio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (gan gynnwys y Mekanwaith Datrys Anghydfod ac ystyried y Concordat).

Yn lle'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, sy'n dal i gael ei ddatblygu ac na fydd felly yn barod cyn diwedd taith y Bil, rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am gytundeb ar y materion allweddol y mae angen sicrwydd yn eu cylch er mwyn argymhell bod y Senedd yn

rhoi cydsyniad i'r Bil. Byddaf yn rhannu canlyniad y cais hwn â'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd.

**8. Er ein bod yn cydnabod eich ymateb manwl i argymhelliad 8 yn ein hadroddiad ynghylch y pwerau i wneud rheoliadau yn Atodlen 3 i'r Bil, a allwch roi rhagor o wybodaeth ynghylch pryd mae Gweinidogion Cymru yn credu y byddai'n briodol arfer y pwerau yn Atodlen 3 fel awdurdod trwyddedu pysgota môr?**

Mae'r pwerau trwyddedu yn y Bil ac Atodlen 3 yn rhoi'r pwerau sydd eu hangen i Weinidogion Cymru ddarparu system drwyddedu effeithiol a chadarn nawr ac yn y dyfodol. Fel y nodais yn fy ymateb i'ch adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, rydym wedi diwygio ein Hofferynnau Statudol presennol ar gyfer trwyddedu i sicrhau eu bod yn parhau i fod ar waith ar ôl i'r Bil ddod i rym, a bod y pwerau yn y Bil yn efelychu'r pwerau blaenorol a nodwyd yn Neddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 a Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr 1992 mewn perthynas â chychod pysgota o Brydain. Mae darpariaethau'r Bil hefyd yn gosod gofynion trwyddedu newydd ar gychod pysgota o dramor sy'n pysgota o fewn ffiniau pysgodfeydd Prydain, sy'n ofynnol o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE.

Mae'r pwerau yn y Bil sy'n rhoi awdurdod i drwyddedu pysgota môr yn ein galluogi i barhau i reoli a thrwyddedu pysgota môr yn ein dyfroedd, gyda phwerau o'r fath yn ein galluogi i amrywio, dirymu a gosod amodau ar drwyddedau, gweithio gydag awdurdodau eraill lle mae angen ac ati. Mae'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio, a byddant yn parhau i gael eu defnyddio yn rheolaidd wrth inni gyflawni ein swyddogaethau arferol fel awdurdod trwyddedu pysgota môr.

O ran cychod pysgota o Brydain bydd y drefn drwyddedu bresennol yn parhau. Ar gyfer cychod pysgota o dramor, mae Gweinidogion Cymru, ynghyd â'r gweinyddiaethau eraill, wedi cytuno i drwyddedau i gychod o dramor gael eu rhoi gan yr Awdurdod Dyroddi Unigol, a fydd yn gweithredu o dan drefniant Adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru. Ni fydd ganddynt bwerau i wneud penderfyniadau am y bydd Gweinidogion Cymru yn awdurdodi'r trwyddedau cyn iddynt gael eu rhoi.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau i wneud rheoliadau naill ai i ddiwygio'r system bresennol neu sefydlu un newydd. Fodd bynnag, os bydd Gweinidogion Cymru'n teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny yn y dyfodol, bydd y pwerau ar gael iddynt. Bydd unrhyw reoliadau o'r fath yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

Gobeithio bod hyn yn helpu i roi rhagor o eglurder, ond os oes gennych gwestiwn penodol, byddwn yn fodlon ei ateb.

Rwy'n ysgrifennu yn yr un modd at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Tudalen y pecyn 283

## Atodiad 1 Rhesymeg y diwygiadau a wnaed trwy Atodlen 10 y Bil

| Cyfraith yr UE a ddargedwir (yn Atodlen 10)                                   | Rhesymeg dros newid o “gweinyddu pysgodfeydd” i “Ysgrifennydd Gwladol”  |
|---|---|
| <b>Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Rheoliad (EU) rhif 1380/2013)</b> |   |
| Erthygl 28, 29 a 33   | <p>Mae Erthygl 28 yn nodi mai amcan polisi pysgodfeydd allanol y Deyrnas Unedig yw sicrhau bod adnoddau biolegol y môr ac amgylchedd y môr yn cael eu defnyddio, eu rheoli a'u gwarchod yn gynaliadwy trwy sicrhau bod cysylltiadau allanol y Deyrnas Unedig yn cael eu cynnal yn unol â'i hymrwymiaadau rhyngwladol ac amcanion ei pholisïau.</p> <p>Mae Erthygl 29 yn darparu y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gefnogi a chyfrannu mewn ffordd weithredol at weithgareddau sefydliadau rhyngwladol sy'n ymdrin â physgodfeydd gan gynnwys sefydliadau rheoli pysgodfeydd rhanbarthol.</p> <p>Mae Erthygl 33 yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgysylltu â thrydydd gwledydd gyda golwg ar sicrhau bod stociau sydd o ddi-ddordeb cyffredin i'r DU a'r trydydd gwledydd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.</p> <p>O dan baragraff 10 (1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cysylltiadau rhyngwladol yn fater wedi'i gadw yn ôl. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn cynnwys cysylltiadau â gwledydd y tu allan i'r DU, â'r UE a'i sefydliadau ac â chyrff rhyngwladol eraill.</p> <p>Er bod paragraff 10(3) yn cadarnhau nad yw cadw at ymrwymiaadau rhyngwladol yn rhan o'r mater a gedwir yn ôl a'i fod felly yn fater datganoledig, nid ydym o'r farn bod yr Erthyglau uchod yn gofyn am gadw at ymrwymiaadau rhyngwladol.</p> <p>Bydd Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, trwy Ddeddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018, yn dod yn rhan o lyfr statud y DU fel cyfraith wedi'i dargadw yr UE. Cafodd ei ddiwygio gan Reoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/739). Gwnaeth Rheoliad 3 y Rheoliadau hynny sefydlu gweinyddiaethau pysgodfeydd y DU a phennu'u cylchoedd gwaith, hynny i ddelio ag unrhyw ddeddfwriaeth UE perthnasol a gaiff ei dargadw sy'n ymwneud â'r polisi pysgodfeydd cyffredin. Gwnaeth Rheoliad 3 ddiwygio hefyd erthyglau 28, 29 a 33 i drosglwyddo swyddogaethau o dan yr erthyglau hyn o sefydliadau'r UE i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.</p> <p>O ran Cymru, Gweinidogion Cymru yw'r weinyddiaeth pysgodfeydd gan y byddai'r rhwymedigaeth neu'r pŵer o dan sylw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os bydd wedi'i gynnwys/chynnwys mewn Deddf gan y Senedd neu os y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi'i (g)osod neu ei r(h)oi trwy arfer un o'u swyddogaethau yn union cyn y diwrnod ymadael. Os nad yw'r pŵer neu'r rhwymedigaeth yn perthyn i'r naill categori na'r llall, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r weinyddiaeth sy'n gyfrifol am bysgodfeydd ac felly'n delio â'r mater hwnnw mewn perthynas â Chymru.</p> <p>Mae'r diwygiadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan Reoliadau 2019 i'r Erthyglau hyn yn golygu bod y swyddogaethau o dan yr erthyglau hynny i bob pwrpas eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, yn unol â'r setliad datganoli. Barn swyddogion felly yw nad yw'r diwygiadau a wnaed trwy Atodlen 10 yn newid y sefyllfa hon, dim ond yn ei chrisialu.</p> |
| <b>Rheoliad (UE) 2018/973 – Cynllun Aml-flynyddol Môr y Gogledd</b>           |   |

|                   |  |
|-------------------|--|
| Erthygl 4, 6 & 13 | <p>Mae Erthygl 4 yn ymdrin â thargedau marwolaethau pysgod trwy bysgota, ac fel y'i diwygiwyd, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn i ICES, neu gorff gwyddonol annibynnol tebyg arall sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol, am ddata.</p> <p>Mae Erthygl 6 yn ymwneud â gofyn i ICES neu gorff gwyddonol annibynnol tebyg arall sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol, am gyfeirnodau cadwraeth.</p> <p>Mae Erthygl 13 yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gysylltu â thrydydd gwledydd i sicrhau bod stociau sydd o ddi-ddordeb i'r DU a'r drydedd wlad yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy sy'n gyson â'r Rheoliad Sylfaenol.</p> <p>O dan baragraff 10 (1) a (2) o Ran 1 Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae cysylltiadau rhyngwladol yn fater wedi'i gadw yn ôl. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn cynnwys cysylltiadau â gwledydd y tu allan i'r DU, â'r UE a'i sefydliadau ac â chyrff rhyngwladol eraill.</p> <p>Er bod paragraff 10(3) yn cadarnhau nad yw cadw at ymrwymïadau rhyngwladol yn rhan o'r mater a gedwir yn ôl a'i fod felly yn fater datganoledig, nid ydym o'r farn bod yr Erthyglau uchod yn gofyn am gadw at ymrwymïadau rhyngwladol.</p> <p>Cafodd Erthyglau 4, 6 ac 13 y Rheoliad hwn eu diwygio gan Reoliad 25 o Reoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/753) i drosglwyddo swyddogaethau o dan yr erthyglau hyn o sefydliadau'r UE i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.</p> <p>O ran Cymru, Gweinidogion Cymru yw'r weinyddiaeth pysgodfeydd gan y byddai'r rhwymedigaeth neu'r pŵer o dan sylw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os bydd wedi'i gynnwys/chynnwys mewn Deddf gan y Senedd neu os y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi'i (g)osod neu ei r(h)oi trwy arfer un o'u swyddogaethau yn union cyn y diwrnod ymadael. Os nad yw'r pŵer neu'r rhwymedigaeth yn perthyn i'r naill categori na'r llall, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r weinyddiaeth sy'n gyfrifol am bysgodfeydd ac felly'n delio â'r mater hwnnw mewn perthynas â Chymru.</p> <p>Mae'r diwygiadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan Reoliadau 2019 i'r Erthyglau hyn yn golygu bod y swyddogaethau o dan yr erthyglau hynny i bob pwrpas eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, yn unol â'r setliad datganoli. Barn swyddogion felly yw nad yw'r diwygiadau a wnaed trwy Atodlen 10 yn newid y sefyllfa hon, dim ond yn ei chrisialu.</p> |
|-------------------|--|

**Rheoliad (UE) 2019/472 Cynllun Aml-flynyddol Dyfroedd y Gorllewin**

|                   |   |
|-------------------|---|
| Erthygl 4, 7 & 15 | <p>Mae Erthygl 4 yn ymdrin â thargedau marwolaethau pysgod trwy bysgota, ac fel y'i diwygiwyd, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn i ICES, neu gorff gwyddonol annibynnol tebyg arall sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol, am ddata.</p> <p>Mae Erthygl 7 yn ymwneud â gofyn i ICES neu gorff gwyddonol annibynnol tebyg arall sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol, am gyfeirnodau cadwraeth.</p> <p>Mae Erthygl 15 yn ymwneud â defnyddio stociau sydd o ddi-ddordeb cyffredin gan drydydd gwledydd. Mae'n darparu y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gysylltu â'r trydydd gwledydd hynny i sicrhau bod y stociau hynny'n cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy sy'n gyson â'r Rheoliad Sylfaenol.</p> |
|-------------------|---|

O dan baragraff 10 (1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cysylltiadau rhyngwladol yn fater wedi'i gadw yn ôl. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn cynnwys cysylltiadau â gwledydd y tu allan i'r DU, â'r UE a'i sefydliadau ac â chyrff rhyngwladol eraill.

Er bod paragraff 10(3) yn cadarnhau nad yw cadw at ymrwymïadau rhyngwladol yn rhan o'r mater a gedwir yn ôl a'i fod felly yn fater datganoledig, nid ydym o'r farn bod yr Erthyglau uchod yn gofyn am gadw at ymrwymïadau rhyngwladol.

Bydd Rheoliad (UE) 2019/472, trwy Ddeddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018, yn dod yn rhan o lyfr statud y DU fel cyfraith wedi'i dargadw yr UE. Cafodd ei ddiwygio gan Reoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac Anifeiliaid (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/1312). Gwnaeth Rheoliad 6 ddiwygio erthyglau 4, 7 a 15 i drosglwyddo swyddogaethau o dan yr erthyglau hyn o sefydliadau'r UE i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.

O ran Cymru, Gweinidogion Cymru yw'r weinyddiaeth pysgodfeydd gan y byddai'r rhwymedigaeth neu'r pŵer o dan sylw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os bydd wedi'i gynnwys/chynnwys mewn Deddf gan y Senedd neu os y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi'i (g)osod neu ei r(h)oi trwy arfer un o'u swyddogaethau yn union cyn y diwrnod ymadael. Os nad yw'r pŵer neu'r rhwymedigaeth yn perthyn i'r naill gategori na'r llall, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r weinyddiaeth sy'n gyfrifol am bysgodfeydd ac felly'n delio â'r mater hwnnw mewn perthynas â Chymru.

Mae'r diwygiadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan Reoliadau 2019 i'r Erthyglau hyn yn golygu bod y swyddogaethau o dan yr erthyglau hynny i bob pwrpas eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, yn unol â'r setliad datganoli. Barn swyddogion felly yw nad yw'r diwygiadau a wnaed trwy Atodlen 10 yn newid y sefyllfa hon, dim ond yn ei chrisialu.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Mick Antoniw AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ein cyf: LS253/EJ/NS

4 Mawrth 2020

Annwyl Mick

### **Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)**


Ar 10 Chwefror 2020 ysgrifennais at Brif Weinidog Cymru i gadarnhau fy marn – yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 – y byddai Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Fodd bynnag, mae'r casgliad hwnnw yn amodol ar y sail bod y Bil yn ymgysylltu ag Erthygl 1 o Brotocol 1 (Gwarchod Eiddo) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Wrth ystyried cymhwysedd deddfwriaethol y Bil, deuthum i'r casgliad, er ei fod yn ymgysylltu ag Erthygl 1 o Brotocol 1, nad yw'n ei dorri.

Teimlaf ei bod yn briodol rhannu'r cyngor hwn â chi, er mwyn cydnabod a hwyluso rôl Aelodau'r Cynulliad ar eich Pwyllgor wrth graffu ar y Bil hwn.

Bydd y cyfreithiwr a'r Clerc sy'n cefnogi'r Pwyllgor gyda'r gwaith craffu hwnnw yn gallu rhoi gwybodaeth fanylach am y materion. Rwy'n ysgrifennu llythyr tebyg at John Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Yn gywir,



Elin Jones AC  
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Julie James AS/MS**  
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**  
**Minister for Housing and Local Government**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Mick Antoniw AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd CF99 1SN

11 Awst 2020

Annwyl Mick,

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr, dyddiedig 09 Mawrth, yn gofyn am atebion i gyfres o gwestiynau yn ywneud â Bil Rhentu Cartrefi (Diwygiad) (Cymru).

Mae fy ymatebion i'r cwestiynau hynny yn amgaeëdig.

Deallaf nad oes modd i'r Pwyllgor aildrefnu fy sesiwn dystiolaeth a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 20 Ebrill. Fodd bynnag, os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach ar y Pwyllgor er mwyn cwblhau ei waith craffu ar y Bil, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**  
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**  
**Minister for Housing and Local Government**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 297

**Ymatebion y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i gwestiynau gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad mewn perthynas â Bil Rhentu Cartrefi (Diwygiad) (Cymru)**

